Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

SEFYDLIAD DYSGU A GWAITH
LEARNING AND WORK INSTITUTE

# Diwygio'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid

## Adroddiad ar yr Ymgynghoriad Rhanddeiliaid ac Ieuenctid

Medi 2021

Cyhoeddwyd gan y Sefydliad Dysgu a Gwaith Cenedlaethol (Cymru a Lloegr)
4th Floor, Arnhem House, 31 Waterloo Way, Leicester. LE1 6LP
Rhif cofrestru'r cwmni. 2603322 | Rhif elusen gofrestredig 1002775

Mae'r Sefydliad Dysgu a Gwaith yn sefydliad polisi ac ymchwil annibynnol newydd sy'n ymroddedig i ddysgu gydol oes, cyflogaeth lawn a chynhwysiant.

Rydym yn ymchwilio i'r hyn sy'n gweithio, yn datblygu ffyrdd newydd o feddwl ac yn rhoi dulliau gweithredu newydd ar waith. Gan weithio gyda phartneriaid, rydym yn trawsnewid profiadau pobl o ddysgu ac o gyflogaeth. Mae'r hyn rydym yn ei wneud o fudd i unigolion, teuluoedd, cymunedau a'r economi ehangach.

www.sefydliaddysguagwaith.cymru @LearnWorkUK @LearnWorkCymru (Wales)

**Sefydliad Dysgu a Gwaith**
Noddwr: Ei Huchelder Y Dywysoges Frenhinol | Prif weithredwr: Stephen Evans
Cyfarwyddwr Gymru: David Hagendyk
Cwmni cyfyngedig trwy warrant a gofrestrwyd yn Lloegr a Chymru
Rhif cofrestru 2063322 Rhif cofrestru elusen 1002775

INVESTORS IN PEOPLE | Silver

Cedwir pob hawl. Ni ellir atgynhyrchu, copïo na throsglwyddo'r cyhoeddiad hwn heb ganiatâd ysgrifenedig y cyhoeddwyr, heblaw yn unol â darpariaethau Deddf Hawlfraint, Dylunio a Phatentau 1988, neu o dan delerau unrhyw drwydded sy'n caniatáu hawlfraint cyfyngedig a gyhoeddir gan yr Asiantaeth Trwyddedu Hawlfraint.

© Crown copyright 2021 WG43445 Digital ISBN 978 1 80195 896 7

# CYNNWYS

## Cynnwys


Cyflwyniad.....2
Nodau'r ymgynghoriad.....2
Goblygiadau tirwedd polisi sydd wedi newid.....3
Dull ymgynghori.....8
Diben yr adroddiad.....9
Crynodeb o dystiolaeth o'r ymgynghoriad â rhanddeiliaid.....10
Crynodeb o dystiolaeth o'r ymgynghoriad â phobl ifanc.....12
Canfyddiadau manwl rhanddeiliaid.....16
- Atebolrwydd a thracio.....16
- Nodi'n gynnar.....26
- Broceriaeth.....38
- Cyflogadwyedd a darpariaeth.....49

Atodiad A: Cwestiynau'r ymgynghoriad a ddefnyddiwyd yn y gweithdai thematig.....63
Atodiad B: Model Pum Haen.....66
Atodiad C: Ymgynghoriad â Phobl Ifanc.....66

# Y Sefydliad Dysgu a Gwaith

Mae'r Sefydliad Dysgu a Gwaith yn sefydliad polisi, ymchwil a datblygu annibynnol sy'n ymroddedig i ddysgu gydol oes, cyflogaeth lawn a chynhwysiant.

Rydym yn ymchwilio i'r hyn sy'n gweithio, yn datblygu ffyrdd newydd o feddwl ac yn rhoi dulliau gweithredu newydd ar waith. Gan weithio gyda phartneriaid, rydym yn trawsnewid profiadau pobl o ddysgu ac o gyflogaeth. Mae'r hyn rydym yn ei wneud o fudd i unigolion, teuluoedd, cymunedau a'r economi ehangach.

**Cael gwybod. Cymryd rhan. Cadw diddordeb. Cofrestrwch i gefnogi'r Sefydliad Dysgu a Gwaith: www.learningandwork.org.uk/supporters**

## Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi adborth ar y Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid (y Fframwaith) a gafwyd mewn gweithgareddau ymgysylltu â rhanddeiliaid ac ieuenctid a gynhaliwyd gan y Sefydliad Dysgu a Gwaith ar ran Llywodraeth Cymru. Cynhaliwyd y gweithgareddau i randdeiliaid yn ystod mis Mawrth a mis Ebrill 2021, a chynhaliwyd y gweithgareddau i ieuenctid ym mis Mai a mis Mehefin 2021.

## Nodau'r ymgynghoriad

Cynlluniwyd y gweithgareddau ymgynghori i gael safbwyntiau rhanddeiliaid a phobl ifanc er mwyn llywio'r gwaith sy'n mynd rhagddo i ddiwygio'r Fframwaith.

Roedd Llywodraeth Cymru am archwilio sut y gallai atgyfnerthu dulliau o atal pobl ifanc rhag mynd yn NEET (pobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant), a hefyd i ystyried meysydd eraill sy'n creu rhwystrau i ymgysylltu, gyda ffocws ar flaenoriaethau polisi presennol sy'n ymwneud ag iechyd meddwl a lles a digartrefedd ymysg pobl ifanc. Nod yr adborth yw helpu i nodi:

- beth sy'n gweithio yn y Fframwaith presennol a pha rannau y mae angen eu hegluro;
- pa rannau o'r Fframwaith presennol y mae angen eu diweddaru er mwyn adlewyrchu newidiadau mewn systemau a phrosesau a chyd-destunau polisi ehangach;
- sut y gallem atgyfnerthu dulliau o atal pobl ifanc rhag mynd yn NEET;
- sut y gellid atgyfnerthu systemau a phrosesau'r Fframwaith i gefnogi pobl ifanc i oresgyn rhwystrau eraill, drwy gefnogi eu hiechyd meddwl a'u lles ac atal digartrefedd ymysg pobl ifanc; a
- heriau a thensiynau posibl y dylid mynd i'r afael â nhw wrth gyflwyno'r Fframwaith wedi'i ddiweddaru.

## Goblygiadau tirwedd polisi sydd wedi newid

Un o brif ystyriaethau'r Fframwaith ar gyfer y dyfodol fydd yr amgylchedd polisi newydd y bydd yn gweithredu ynddo. Cyhoeddwyd y dirwedd polisi a deddfwriaethol am y tro cyntaf yn 2013, ac mae'n wahanol iawn heddiw. Mae'n debygol o gael ei llywio ymhellach fyth gan yr ymateb i effaith y pandemig a gan flaenoriaethau Llywodraeth newydd Cymru. Bydd angen adlewyrchu hyn yn y canllawiau sy'n cyd-fynd â'r Fframwaith newydd.

Drwy'r gweithdai â rhanddeiliaid allanol a gyda swyddogion Llywodraeth Cymru, nodwyd rhai o brif ysgogwyr fframwaith wedi'i ddiweddaru. Isod ceir crynodeb o rai o'r rhain a'r dystiolaeth sy'n dangos y modd y mae pob un yn effeithio ar y broses o roi'r Fframwaith ar waith:

**Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:** nodwyd hyn fel un o'r prif ysgogwyr polisi y dylai fframwaith diwygiedig weithredu ynddo. Er y cafodd gofynion y ddeddfwriaeth eu cydnabod yn helaeth yn y sesiynau i randdeiliaid allanol, gwelwyd llai o dystiolaeth fod y ffyrdd o weithio wedi'u mabwysiadu mewn modd systemataidd hyd yma.

Yn benodol, ni welwyd llawer o dystiolaeth fod pobl ifanc yn cael eu cynnwys mewn modd systemataidd yn y broses o gynllunio, dylunio a darparu gwasanaethau, er y nodwyd bod ymgysylltu â phobl ifanc yn sail i lawer o waith sefydliadau gwahanol yn y Fframwaith. Gall hyn fod o ganlyniad i'r pwysau ar y rheini sy'n gweithio yn y gwasanaeth i helpu i fodloni'r gofynion o ddydd i ddydd, ond mae'n amlwg yn wendid cymharol yn y gwasanaeth ar hyn o bryd. Gwelwyd tystiolaeth well bod y gwasanaeth yn gweithio mewn modd ataliol, a gellid dadlau mai dyna yw prif ddiben y Fframwaith. Yn benodol, gwelwyd tystiolaeth o gamau ataliol lle mae awdurdodau lleol yn rhoi prosesau nodi ac ymyrryd cynharach ar waith (er enghraifft, ym Mlwyddyn 5) a gwelwyd tystiolaeth gref o lefelau uchel o gydweithio rhwng sefydliadau partner.

Ar y cyfan, nododd cyfranogwyr yn y grwpiau i randdeiliaid allanol bod anghysondeb yn y modd y mae eu sefydliadau eu hunain yn rhoi Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ar waith a bod angen dull mwy systemataidd o fabwysiadu'r ffyrdd o weithio. Fodd bynnag, ceir ymrwymiad cryf gan bartneriaid i fabwysiadu nodau a ffyrdd o weithio Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a chydnabod bod y weledigaeth strategol newydd ar gyfer y sector Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol (AHO) a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2020 yn helpu i roi fframwaith polisi clir ar waith ar gyfer llawer o'r sefydliadau sy'n ymwneud â'r Fframwaith.

**Corff strategol newydd ar gyfer addysg a hyfforddiant ôl-16:** cyhoeddwyd deddfwriaeth ddrafft sy'n nodi cynigion i sefydlu corff rheoleiddio a chynllunio newydd ar gyfer y sector addysg a hyfforddiant ôl-16. Yn ddarostyngedig i ddeddfwriaeth, bydd ganddo bwerau ariannu, cynllunio a rheoleiddio sylweddol i'w helpu i wella ansawdd y ddarpariaeth ac i sicrhau effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd gwell ym mhob rhan o'r sector.

Un o ddibenion y ddeddfwriaeth arfaethedig, a'r corff y bydd yn ei sefydlu yw sicrhau mwy o gydlyniaeth i addysg a hyfforddiant ôl-16, ac er nad oedd y newidiadau yn amlwg yn y trafodaethau â chyfranogwyr allanol, roeddent yn ffactor yn y gweithdai â Llywodraeth Cymru. Yn benodol, ceir cyfle y gallai'r corff newydd helpu i greu mwy o gydlyniaeth ym mhob rhan o'r fframwaith yn gyffredinol ac mewn perthynas â gweithredoedd sefydliadau partner unigol. Er na wyddys i ba raddau y gallai corff newydd effeithio ar y fframwaith, byddai'n amlwg yn cael effaith ar sefydliadau gwahanol sy'n rhan o'r broses o gyflwyno'r Fframwaith a gallai effeithio ar y llinellau atebolrwydd. Byddai angen i Fframwaith diwygiedig fod yn ddigon hyblyg i allu addasu i'r amgylchiadau newidiol hyn.

**Gyrfaoedd a Phrofiadau Cysylltiedig â Gwaith:** un o'r datblygiadau polisi pwysicaf a welwyd yn nhymor diwethaf y Senedd oedd y gwaith deddfwriaethol a datblygu a wnaed i ddiwygio'r cwricwlwm ysgol. Yn yr hirdymor, mae cysylltiad clir rhwng y cwricwlwm a mynd i'r afael â phobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Bydd pedwar diben y cwricwlwm yn cael effaith hirdymor ar allu pobl ifanc i fanteisio ar gyfleoedd i gael hyfforddiant, addysg, a gwaith o ansawdd da.

Dibenion y cwricwlwm newydd yw creu a) dysgwyr uchelgeisiol, galluog sy’n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes, b) cyfranwyr mentrus, creadigol sy’n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a’u gwaith, c) dinasyddion egwyddorol, gwybodus sy’n barod i fod yn ddinasyddion i Gymru a’r byd ac ch) unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas. Er y caiff y rhain effaith hirdymor, gadarnhaol ar ddysgwyr, mae'r posibilrwydd hefyd o sicrhau budd penodol o'r broses o gyflwyno'r canllawiau **Gyrfaoedd a Phrofiadau Cysylltiedig â Gwaith.** Bydd yr elfen hon o'r cynnig cwricwlwm newydd, a'r dysgu proffesiynol cysylltiedig i staff addysgu, yn rhannau pwysig o sicrhau bod pobl ifanc sydd mewn perygl o beidio ag ymwneud ag addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn cael profiad gwaith priodol a chyngor ac arweiniad ar yrfaoedd cadarn a diduedd yn yr ysgol a thrwy'r cyfnod pontio i addysg ôl-orfodol a lleoliadau hyfforddiant pan fyddant yn 16 oed. Gall fod angen cymorth mwy dwys i bobl ifanc sydd mewn perygl er mwyn cyflawni hyn.

**Ymyriadau'r Adran Gwaith a Phensiynau:** ers i'r Fframwaith gael ei gyflwyno gyntaf, gwelwyd newidiadau yn y graddau y mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn ymyrryd a'r modd y mae'n gwneud hynny. Mae hyn yn cynnwys y broses barhaus o gyflwyno Credyd Cynhwysol a'r gwaith o ehangu'r ddarpariaeth mewn ymateb i'r pandemig (er enghraifft, Kickstart, mwy o gymorth gan hyfforddwyr gwaith, a Hybiau Ieuenctid). Er bod hyn yn cynnig mwy o amrywiaeth o gymorth i bobl ifanc, mae hefyd wedi creu tirwedd fwy cymhleth i'w llywio a llwybrau atgyfeirio mwy cymhleth o bosibl i sicrhau'r cymorth priodol i bobl ifanc.

Yn ystod y sesiynau i randdeiliaid allanol, mynegwyd rhai pryderon ynghylch yr anhawster i rannu data rhwng yr Adran Gwaith a Phensiynau a sefydliadau eraill a'r effaith roedd hyn yn ei chael ar y gallu i roi cymorth priodol i bobl ifanc 18-24 oed. Rhoddodd rhanddeiliaid enghreifftiau penodol o bartneriaethau lleol da â'r Adran Gwaith a Phensiynau a cheir

tystiolaeth glir o gydberthnasau gweithredol cryf rhwng yr Adran Gwaith a Phensiynau a Llywodraeth Cymru a Gyrfa Cymru. Fodd bynnag, bydd dulliau mwy effeithiol o rannu data a gwaith tracio a darpariaeth gydgysylltiedig yn elfennau pwysig o Fframwaith diwygiedig er mwyn mynd i'r afael â'r gwendidau presennol yn ystod y cam ôl-18.

**Tynnu cyllid Cronfa Gymdeithasol Ewrop yn ôl.** Mae llawer o'n pobl ifanc wedi cael cefnogaeth drwy raglenni Cronfa Gymdeithasol Ewrop wedi'u hanelu at bobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant neu sydd mewn perygl o fod felly. Mae rhaglenni cyllid yr UE ar gyfer 2014-2020 eisoes yn dechrau dirwyn i ben, ar ôl neilltuo'r holl gyllid oedd ar gael, ac mae prosiectau yn dod i ben yn 2023.

Nid yw Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi ei fframwaith ar gyfer Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU i ddisodli cyllid yr UE. Ar hyn o bryd, mae'n treialu Cronfa Adfywio Cymunedol ar gyfer 2021/22 sy'n werth £220m ledled y DU sy'n doriad sylweddol o gymharu â'r cyfanswm o £375m o leiaf y byddai Cymru wedi'i gael bob blwyddyn o fis Ionawr eleni pe byddai'r DU wedi aros yn yr UE.

Cred Llywodraeth Cymru y bydd cynlluniau Llywodraeth y DU yn creu buddsoddiadau nad ydynt yn gysylltiedig, bylchau mewn cyllid ar gyfer sawl ardal a sector, dyblygu gwaith, cystadleuaeth gostus, a chanlyniadau gwaeth i Gymru. Mae hefyd yn credu, drwy gefnogi awdurdodau lleol yn unigol, fod cynlluniau Llywodraeth y DU yn fygythiad i ymyriadau strategol allweddol fel Busnes Cymru, Banc Datblygu Cymru, y Rhaglen Sgiliau Cyflogadwyedd, a buddsoddiadau seilwaith yr ystyriwyd eu bod yn hanfodol i adferiad Cymru ar ôl pandemig Covid-19.

Cefnogwyd cynnig Llywodraeth Cymru yn nodi ei phryderon ynghylch cynlluniau Llywodraeth y DU gan y Senedd ar 15 Mehefin 2021, ac mae llywodraethau datganoledig yn yr Alban a Gogledd Iwerddon, dau Grŵp Hollbleidiol Seneddol a rhanddeiliaid ledled Cymru wedi codi pryderon tebyg.

**Cymru'n Gweithio:** ers 2019, mae Llywodraeth Cymru wedi cefnogi gwasanaeth cyngor ac arweiniad newydd i oedolion o bob oedran. Caiff Cymru'n Gweithio ei redeg gan Gyrfa Cymru fel porth i oedolion i raglenni cyflogadwyedd Llywodraeth Cymru ac i roi cyngor a chymorth gyrfaoedd a chyflogadwyedd ehangach.

Bydd y gwasanaeth yn borth pwysig i oedolion i amrywiaeth o wasanaethau ac yng nghyd-destun Fframwaith diwygiedig, dylai fod yn ganolog i'r cymorth a gynigir i'r grŵp 18-24 oed. Mae posibilrwydd y caiff Cymru'n Gweithio rôl ehangach ac y bydd yn darparu gwasanaeth i dracio cyfranogwyr hŷn y Fframwaith yn well.

**Dyfodol mwy Disglair:** mae Gyrfa Cymru wedi cyhoeddi cynllun strategol newydd ar gyfer 2021-26. Mae'n datblygu'r gwasanaeth o'r cyfnod a gwmpesir gan y cynllun strategol ac mae'n ymrwymo'n llwyr i gynnal y gefnogaeth i'r Fframwaith.

*'Byddwn yn cefnogi cyflwyno'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid gyda'n partneriaid mewn awdurdodau lleol, gan sicrhau bod pobl ifanc yn cael y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt wrth iddynt bontio o addysg i addysg bellach, gwaith neu hyfforddiant.'*[1]

Yn ogystal â'r ymrwymiad llwyr i'r Fframwaith gan Gyrfa Cymru, mae'r strategaeth newydd hefyd yn nodi'r ymrwymiad i roi cyngor ac arweiniad annibynnol o ansawdd uchel i bobl ifanc ac i gynnig gwasanaeth gwell (o gymharu â'r cyfnod blaenorol) i bobl ifanc ôl-16 oed. Bydd y cymorth yn cynnwys parhau â rhaglen Sbardun, yn ogystal â chymorth wedi'i dargedu i helpu pobl ifanc o gefndiroedd a chymunedau difreintiedig er mwyn sicrhau na chaiff neb ei adael ar ôl.

Er y bydd angen gweld effaith y dull newydd yn y ddarpariaeth yn ogystal ag yn y gwaith cynllunio strategol, bydd ffocws Gyrfa Cymru yn y dyfodol yn cyd-fynd â nodau'r Fframwaith a'r broses o'i gyflwyno'n ymarferol.

**Model Cymdeithasol o Anabledd:** mabwysiadwyd y model cymdeithasol o anabledd yng Nghymru yn 2002, sy'n golygu mai ni oedd un o'r gwledydd cyntaf yn y byd i wneud hynny. Yn *Gweithredu ar Anabledd: Yr Hawl i Fyw'n Annibynnol,* ymrwymodd Llywodraeth Cymru i *'ymgorffori'r model mewn ffordd weladwy ac effeithiol ym mhob maes gwaith, gan gynnwys fel cyflogwr, ac annog gwasanaethau cyhoeddus ac asiantaethau eraill yng Nghymru i wneud yr un peth.'*[2]

Mae'r Model Cymdeithasol, yn wahanol i'r model meddygol traddodiadol o anabledd, yn cydnabod bod gan bobl namau ond mai rhwystrau mewn cymdeithas (fel agweddau negyddol neu rwystrau corfforol) sy'n eu gwneud yn anabl. Mae'r pwyslais ar sefydliadau ac asiantaethau i ddileu rhwystrau ac i weithio gyda phobl anabl er mwyn nodi atebion.

Dylai unrhyw iteriad newydd o'r Fframwaith adlewyrchu cyfrifoldebau sefydliadau i roi'r model cymdeithasol ar waith. Er mwyn cyflawni hyn byddai angen i'r rhai sy'n cydlynu ac yn darparu'r gwasanaethau hynny i ddileu rhwystrau i fynediad a chyfranogiad a chynnwys pobl ifanc anabl yn y broses o ddarparu a dylunio gwasanaethau.

**Gwarant i Bobl Ifanc:** er y cyfeiriad at Warant Ieuenctid yn y Fframwaith gwreiddiol, nid yw wedi cael ei ddatblygu hyd yma. Gwnaed ymrwymiad ym maniffesto Llafur Cymru yn etholiad mis Mai 2021 i gyflwyno Gwarant newydd i Bobl Ifanc fel rhan o'r ymateb i'r pandemig a'r effaith ddilynol ar ddiweithdra ymysg pobl ifanc. Bydd y warant newydd yn cynnig y cyfle i bob person ifanc 16-24 oed gael cyflogaeth, addysg neu hyfforddiant. Bydd angen datblygu'r warant a'r Fframwaith newydd ar y cyd a sicrhau bod cymorth a chanllawiau priodol ar waith i ymgysylltu â phob person ifanc, yn cynnwys y rheini o gefndiroedd a grwpiau difreintiedig.

---

[1] https://gyrfacymru.llyw.cymru/amdanom-ni/dyfodol-disglair

[2] https://llyw.cymru/gweithredu-ar-anabledd-hawl-i-fywn-annibynnol-fframwaith-chynllun-gweithredu

**Teithio gan Ddysgwyr:** tynnodd rhanddeiliaid sylw at y ffaith bod anhawster i gael gafael ar drafnidiaeth yn rhwystro dysgwyr rhag manteisio ar y ddarpariaeth addysg sydd ar gael. Cydnabuwyd bod amrywiad ledled Cymru ond bod heriau penodol sy'n atal dysgwyr rhag cael mynediad i drafnidiaeth mewn cymunedau gwledig ac yn y Cymoedd. Mae her benodol arall o ran mynediad i drafnidiaeth i ddysgwyr ôl-16 oed am ei fod yn cael ei gynnig yn ôl disgresiwn ac y gall greu anghydraddoldebau pellach o ran mynediad rhwng ardaloedd awdurdodau lleol gwahanol. Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal adolygiad cychwynnol o'r Mesur Teithio gan Ddysgwyr presennol i Gymru, gydag argymhelliad y dylid cynnal adolygiad manylach yn ystod tymor newydd y Senedd.

Bydd yn bwysig ystyried yn benodol yr anawsterau a wynebir gan bobl ifanc anabl wrth geisio cael mynediad i drafnidiaeth i ddysgwyr. Cyfeiriwyd at hyn yn benodol gan randdeiliaid gwahanol yng nghyd-destun dileu rhwystrau a gweithio yn ôl egwyddorion y model cymdeithasol o anabledd.

**Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod:** rhoddwyd ffocws sylweddol ar brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod fel ffactor pwysig sy'n effeithio ar gyfleoedd bywyd yng Nghymru dros y pum mlynedd diwethaf. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru, Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, Llywodraeth Cymru a gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru wedi canolbwyntio'n fwy cyffredinol ar ddatblygu gwasanaethau sy'n ymwybodol o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod ac sy'n cael eu llywio gan drawma.

Mae hyn yn ystyried effaith profiadau niweidiol yn ystod plentyndod (fel camddefnyddio sylweddau, trais domestig a rhiant yn y carchar) ar gyfleoedd bywyd a phrofiadau unigolion. Yn ystod y gweithdai i randdeiliaid, trafodwyd gwerth profiadau niweidiol yn ystod plentyndod yn creu un o'r dangosyddion craidd at ddibenion nodi a chefnogi yn gynnar, yn seiliedig ar brofiad, gan sicrhau bod eu heffaith ar bobl ifanc yn cael ei deall a'i chefnogi'n well. Mae hwn yn faes polisi cymhleth a bydd yn dibynnu'n rhannol ar flaenoriaethau gweinidogol yn y dyfodol, ond mae tystiolaeth y gellid defnyddio profiadau niweidiol yn ystod plentyndod yn fwy effeithiol, ynghyd â dangosyddion eraill, er mwyn meithrin dealltwriaeth lawnach o'r heriau sy'n wynebu pobl ifanc. Dylai Fframwaith diwygiedig gael ei lywio gan waith Iechyd Cyhoeddus Cymru yn y maes hwn a cheisio ymgorffori profiadau niweidiol yn ystod plentyndod a thrawma wrth ddylunio'r gwasanaeth.

**Rhaglen Lywodraethu 2021-2026:** Mae'r ymrwymiadau yn Rhaglen Llywodraeth Cymru ar gyfer y 6ed Senedd yn canolbwyntio ar gefnogi pobl ifanc. Cyfeiriwyd at y Warant i Bobl Ifanc uchod, ac ymysg yr ymrwymiadau eraill mae:

- Cyflwyno ‘mewngymorth’ gwasanaethau iechyd meddwl i blant a'r glasoed mewn ysgolion ledled Cymru.
- Atgyfnerthu'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid
- Penodi gweinidog ar lefel Cabinet i ddatblygu cynigion Bwrdd Ieuenctid Cymru a'u rhoi ar waith.
- Deddfu ar gyfer fframwaith newydd ar gyfer gwasanaethau ieuenctid yng Nghymru.

Lle y bo'n berthnasol, bydd angen i ymrwymiadau a wneir yn y rhaglen lywodraethu gael eu hadlewyrchu yn y Fframwaith diwygiedig.

## Dull ymgynghori

Ymgynghori â rhanddeiliaid: ymgysylltwyd â rhanddeiliaid mewn cyfres o weithdai ar-lein strwythuredig. Roedd y rhain yn cynnwys dau weithdy ar gyfer swyddogion Llywodraeth Cymru ac wyth gweithdy thematig ar gyfer rhanddeiliaid allanol.

- **Ymgysylltu â chyfranogwyr a recriwtio**

  Rhoddodd Llywodraeth Cymru restr o gysylltiadau i'w gwahodd i gymryd rhan. Roedd hyn yn cynnwys y canlynol: Gyrfa Cymru, gwasanaethau ieuenctid awdurdodau lleol; cydlynwyr ymgysylltu a datblygu awdurdodau lleol, cydlynwyr digartrefedd ymysg pobl ifanc, ysgolion, y sector gwaith ieuenctid gwirfoddol; colegau AB; colegau arbenigol; darparwyr hyfforddiant annibynnol; gwasanaeth troseddwyr ifanc; partneriaethau sgiliau rhanbarthol; sefydliadau cymorth busnes a sefydliadau trydydd sector sy'n gweithio gyda phobl ifanc.

  Cafodd gwahoddiadau eu hanfon dros e-bost i ddarpar gyfranogwyr ac anfonwyd gohebiaeth ddilynol hefyd.

- **Cynllunio a chynnal gweithdai**

  Gwnaethom gynllunio'r gweithdai mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru. Roeddent wedi'u strwythuro o amgylch chwe elfen y Fframwaith:

  - Nodi'n gynnar
  - Broceriaeth
  - Tracio
  - Darpariaeth
  - Cyflogadwyedd a chyfleoedd cyflogaeth
  - Atebolrwydd.

  Er mwyn sicrhau y gellir archwilio pob un o'r elfennau hyn yn fanwl, cynlluniwyd y gweithdai ar gyfer rhanddeiliaid ehangach ar sail thematig a chynhaliwyd pob gweithdy ddwywaith. Roedd themâu pob gweithdy a'r niferoedd a gymerodd ran fel a ganlyn:

| Thema | Nifer y cyfranogwyr |
|---|---|
| Atebolrwydd a thracio | 80 |
| Nodi'n gynnar | 101 |
| Broceriaeth | 60 |
| Cyflogadwyedd a darpariaeth | 90 |

  Hefyd, cymerodd 22 o gyfranogwyr ran ym mhob un o'r gweithdai penodol ar gyfer swyddogion Llywodraeth Cymru.

Ychydig ddiwrnodau cyn pob gweithdy, anfonwyd agenda'r gweithdy a chwestiynau ymgynghori at y cyfranogwyr ynghyd â phapur briffio / ysgogi thematig byr i'w helpu i baratoi.

Cynhaliwyd y gweithdai dros Zoom a chawsant eu hwyluso gan y Sefydliad Dysgu a Gwaith. Roedd pob gweithdy yn cynnwys mewnbynnau rhagarweiniol llawn gan Lywodraeth Cymru a'r Sefydliad Dysgu a Gwaith. Yna, cafodd y cyfranogwyr eu rhannu mewn ystafelloedd ar wahân er mwyn rhoi cyfle gwell i bawb rannu eu barn. Cafodd y trafodaethau eu strwythuro o amgylch cwestiynau'r ymgynghoriad a'u recordio er mwyn sicrhau bod gennym gofnod cywir o'r adborth.

Ymgynghori â phobl ifanc: Defnyddiwyd cyfuniad o ddulliau i gasglu'r wybodaeth ofynnol, yn cynnwys grwpiau ffocws wedi'u hwyluso, cyfweliadau un i un a phorth ymgynghoriad ar-lein. Cysylltwyd ag amrywiaeth eang o sefydliadau sy'n cefnogi pobl ifanc, i weld a fyddent yn fodlon cynnal grwpiau ffocws; ymatebodd colegau addysg bellach a darparwyr hyfforddiant preifat gan gytuno i gynnal grwpiau.

Ar gyfer yr ymgynghoriad â phobl ifanc, un ffactor pwysig i'w ystyried oedd cynnwys pobl ifanc a allai fod wedi eu hymddieithrio ar ryw adeg, ac felly sy'n gwybod pa fath o gymorth sydd wedi gweithio neu a allai fod wedi gweithio iddyn nhw.

Ceir rhagor o fanylion yn Atodiad C.

## Diben yr adroddiad

Mae'r adroddiad yn rhoi crynodebau thematig o'r adborth o'r ymgynghoriad. Mae hefyd yn cynnwys crynodeb o'r prif bwyntiau sy'n codi o'r trafodaethau o'r grwpiau rhanddeiliaid ac o'r ymgynghoriad â phobl ifanc.

Un cafeat yn yr adroddiad yw'r anghydbwysedd rhwng y garfan 11-18 oed ac ôl-18 oed. Mae hyn yn adlewyrchu cydbwysedd y dystiolaeth a gafwyd, sydd, yn ei dro, yn debygol o adlewyrchu cydbwysedd y gweithgarwch a'r ddarpariaeth yn y Fframwaith ei hun. Mae hyn, ynddo'i hun, yn adlewyrchu canfyddiad pwysig ac yn tynnu sylw at y ffaith nad yw'r Fframwaith wedi'i ddatblygu cystal ar gyfer y garfan hŷn.

Mae cwestiynau'r ymgynghoriad a ddefnyddiwyd â rhanddeiliaid wedi'u cynnwys fel atodiad.

## Crynodeb o dystiolaeth o'r ymgynghoriad â rhanddeiliaid

Isod ceir crynodeb o rai o'r pwyntiau allweddol a godwyd yn y gweithdai i randdeiliaid. Nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr a chaiff y pwyntiau hyn eu cwmpasu'n fanylach ym mhrif gorff yr adroddiad.

- **Gwelwyd tystiolaeth o ymrwymiad cryf i nodau'r Fframwaith a dealltwriaeth ohonynt gan sefydliadau partner.** Ar draws yr amrywiaeth o randdeiliaid a gymerodd ran yn y digwyddiadau ymgynghori, gwelwyd llawer o gefnogaeth i nodau'r Fframwaith ac ymdeimlad ei bod yn bwysig i'r gwaith barhau yn y dyfodol. Roedd y cyfranogwyr yn deall ac yn rhannu nodau ac amcanion y Fframwaith, ac mae hyn yn rhoi sylfaen gadarn i adeiladu arni.

  Fodd bynnag, roedd meysydd lle gall fod angen eglurhad pellach o rolau a chyfrifoldebau yn y Fframwaith. Cafwyd enghreifftiau hefyd yn y sesiynau i randdeiliaid lle gwelwyd bylchau penodol yn y wybodaeth neu gamddealltwriaeth o'r modd y mae'r Fframwaith yn gweithio. Roedd rhywfaint o hyn yn canolbwyntio ar ddeall Gyrfa Cymru yn y fframwaith, ond nodwyd bylchau a heriau penodol eraill hefyd. Mae hyn yn awgrymu y gall fod gwerth mewn cynnal mwy o ddigwyddiadau rhwydweithio a gwybodaeth mewn perthynas â'r Fframwaith diwygiedig er mwyn gwella'r ddealltwriaeth.

- **Mae rhai elfennau o'r Fframwaith wedi cael eu datblygu yn fwy nag eraill ers iddo gael ei gyflwyno.** Mae pwysau'r dystiolaeth a gasglwyd yn dangos bod y fframwaith wedi ei ddatblygu'n dda ar gyfer pobl ifanc 11-18 oed ond nad yw wedi'i ddatblygu cystal ac nad yw mor effeithiol ar gyfer pobl ifanc ôl-18 oed. Yn rhannol, mae hyn yn adlewyrchu'r her o ymgysylltu ag oedolion o gymharu â chefnogi grwpiau oedran iau ar y fframwaith, ynghyd â'r her o rannu data â phobl ifanc ôl-18 oed ac effeithiolrwydd a phriodolrwydd tracio oedolion. Gwelwyd tystiolaeth o system aeddfed wedi'i datblygu'n dda i gefnogi pobl ifanc hyd at 18 oed a thystiolaeth o effeithiolrwydd ymyriadau cyn 11 oed (ym Mlynyddoedd 5 a 6) wrth helpu i gefnogi pobl ifanc yn ystod y cyfnod pontio i'r ysgol uwchradd.

- **Nododd cyfranogwyr sy'n gweithio ar linynnau gwahanol o'r fframwaith heriau o ran rhannu data.** Yn bwysig, mae hyn yn golygu ei bod yn anoddach tracio a chefnogi pobl ifanc. Er bod hyn yn her ar draws yr ystodau oedran gwahanol a gefnogir gan y Fframwaith, tynnwyd sylw at faterion penodol mewn perthynas â chymorth ar adegau pontio gwahanol, tracio pobl ifanc nad ydynt yn cael addysg yn yr ysgol mwyach, a deall cyrchfannau ôl-18 oed.

  Nododd cyfranogwyr fod yr heriau yn fwy sylweddol bellach ers cyflwyno GDPR (o ran y rhwystrau i rannu data ynghyd â'r canfyddiad o ofynion GDPR). Mae amrywiad rhwng rhannau gwahanol o Gymru ac ymysg yr enghreifftiau roedd heriau rhannu data rhwng adrannau gwahanol o fewn yr un awdurdod lleol, yn ogystal â mynediad amrywiol i ddata mewn ysgolion. Cafwyd cefnogaeth i ddull

cliriach a mwy cyson o rannu data a mwy o eglurder i bartneriaid ynghylch yr hyn a ddisgwylir ganddynt.

- **Gwelwyd tystiolaeth o systemau aeddfed wedi'u datblygu'n dda ar gyfer adnabod pobl ifanc sydd mewn perygl o fod yn NEET yn gynnar.** Nodwyd hyn gan gyfranogwyr fel un o gryfderau'r Fframwaith presennol, gyda gweithdrefnau cadarn ar waith sy'n defnyddio'r data sydd ar gael a safbwyntiau proffesiynol amlasiantaethol. Fodd bynnag, roedd cyfranogwyr yn y gweithdai i randdeiliaid hefyd o'r farn bod achos cryf dros gael mwy o safoni mewn dulliau gweithredu ledled Cymru (mewn perthynas â'r data a gesglir) er mwyn helpu i sicrhau mynediad mwy cyfartal i bobl ifanc. Fodd bynnag, byddai angen i'r lefel uwch hon o safoni gael ei chydbwyso gan lefel o hyblygrwydd i allu ymateb i amgylchiadau lleol penodol. Roedd cytundeb cyffredinol hefyd ynghylch pwysigrwydd safbwynt proffesiynol fel rhan o'r broses o sicrhau bod penderfyniadau priodol yn cael eu gwneud gan yr asiantaethau gwahanol dan sylw.

- Roedd cyfranogwyr o blaid Fframwaith diwygiedig sydd â llinellau atebolrwydd clir a chryf o ran perfformiad. **Fodd bynnag, er bod darparwyr a sefydliadau unigol yn deall eu rolau eu hunain yn y Fframwaith, roedd cyfranogwyr hefyd o'r farn nad oedd ymdeimlad o atebolrwydd ar y cyd ymysg yr holl bartneriaid sy'n gweithio yn y fframwaith.** Yn benodol, cafwyd pryderon gan awdurdodau lleol fod pobl yn ystyried mai nhw oedd yn bennaf atebol am lefel y NEETs ac nad oedd hyn yn cael ei rannu'n briodol â sefydliadau partner eraill.

  Mae'r dystiolaeth hefyd yn dangos bod cymhlethdod y dirwedd polisi a darparwyr (yn cynnwys darpariaeth a ariennir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop a chymorth a ariennir gan lywodraethau ac asiantaethau gwahanol) yn cyfrannu at ddiffyg atebolrwydd ar y cyd. Gwelwyd tystiolaeth bod sefydliadau a rhaglenni gwahanol yn gweithio yn ôl dangosyddion perfformiad allweddol ac amcanion gwahanol. Roedd cyfranogwyr yn cefnogi Fframwaith diwygiedig sy'n pwysleisio pwysigrwydd rhoi anghenion y person ifanc wrth wraidd gweithgarwch a chyn targedau rhaglenni neu ddangosyddion perfformiad allweddol sefydliadau unigol. Lle mae dangosyddion perfformiad allweddol a thargedau'n bodoli, ceir cefnogaeth iddynt gael eu perchenogi ar y cyd.

  O fewn awdurdodau lleol, gwelwyd tystiolaeth o effaith cyni, gydag ailstrwythuro a throsiant staff yn arwain at linellau atebolrwydd gwannach. Tynnodd cyfranogwyr sylw at werth cael llinellau atebolrwydd clir, wedi'u cefnogi gan ddata clir, i uwch-gyfarwyddwr a enwir yn yr awdurdod lleol.

- **Darpariaeth ar ôl Cronfa Gymdeithasol Ewrop:** ceir cryn bryder ac ansicrwydd ynghylch effaith colli Cronfa Gymdeithasol Ewrop ar ôl 2023 a'r bylchau y gallai hyn eu creu mewn cymorth i bobl ifanc. Gwelwyd tystiolaeth eisoes bod rhywfaint o ddarpariaeth yn dod i ben o ganlyniad i'r newidiadau a'r tebygolrwydd y byddai hyn

yn arwain at golli llwybrau cymorth penodol a staff profiadau sy'n gweithio yn y fframwaith.

Ynghyd â'r pryderon hyn gwelwyd hefyd gefnogaeth gan gyfranogwyr i sicrhau bod darpariaeth Cronfa Gymdeithasol Ewrop (a rhaglenni olynol) a chymorth gan sefydliadau trydydd sector yn cael eu hintegreiddio'n well yng ngweithgarwch y Fframwaith. Ceir pryderon y gall y gwerth ychwanegol y gall y trydydd sector ei gyflwyno i'r ddarpariaeth a gynigir i bobl ifanc gael ei golli gan mai yn y byrdymor y caiff prosiectau eu hariannu ac nad ydynt yn cael eu cydgysylltu o fewn system gyfan.

- **Cafwyd cefnogaeth gan gyfranogwyr i ystyried yr ystod oedran y mae'r Fframwaith yn ei chwmpasu.** Ceir enghreifftiau da mewn awdurdodau lleol gwahanol bod ymyriadau cynharach wedi cael effaith gadarnhaol ar bobl ifanc, yn cynnwys dechrau cael cefnogaeth ym Mlwyddyn 5 er mwyn helpu i gefnogi'r cyfnod pontio i'r ysgol uwchradd. O ystyried bod y Fframwaith wedi'i danddatblygu i raddau ar gyfer y grwpiau oedran hŷn a'r cynlluniau i gyflwyno Gwarant i Bobl Ifanc, cafwyd trafodaeth ymysg cyfranogwyr ynghylch ystyried dull mwy neilltuol rhwng elfennau cyn-18 oed ac ôl-18 oed y Fframwaith.
- **Wrth gydnabod y llwybrau gwahanol y gall fod angen i bobl ifanc a gefnogir o dan y Fframwaith eu dilyn neu y gallant fod am eu dilyn, roedd cyfranogwyr o blaid amrywiaeth ehangach a mwy hyblyg o opsiynau galwedigaethol.** Yn rhannol, dylid canolbwyntio ar sicrhau bod y rheini sy'n cydgysylltu cymorth yn ymwybodol o'r ddarpariaeth sydd ar gael eisoes, ond cafwyd cefnogaeth benodol i opsiynau mwy hyblyg ar gyfer pobl ifanc i brofi llwybrau galwedigaethol i'w paratoi'n well ar gyfer byd gwaith. Roedd hyn yn cynnwys cefnogaeth i lwybrau gwell at hunangyflogaeth fel opsiwn pwysig a ddylai fod ar gael yn haws i bobl ifanc.

## Crynodeb o dystiolaeth o'r ymgynghoriad â phobl ifanc

Mae adroddiad yr ymgynghoriad â phobl ifanc wedi'i gynnwys fel atodiad i'r adroddiad hwn. Mae crynodeb o'r prif ganfyddiadau wedi'i gynnwys isod, ac mae'n adlewyrchu'r themâu cyffredin a welwyd drwy gydol y broses.

- **Cydnabod y cymorth sydd ar gael mewn addysg ôl-orfodol.** Roedd llawer o bobl ifanc o'r farn bod argaeledd a hygyrchedd y cymorth i'w helpu i aros mewn addysg yn cynyddu'n sylweddol ar ôl iddynt adael addysg orfodol a symud ymlaen i goleg, coleg chweched dosbarth neu raglen hyfforddiant mewn gwaith fel Hyfforddeiaethau.

  Canmolodd y mwyafrif o'r bobl ifanc a oedd yn mynd i goleg neu hyfforddiant mewn gwaith y cymorth a gawsant, gan nodi'n benodol y gydberthynas â'u tiwtoriaid a/neu aelodau eraill o'r staff cymorth. Nododd sawl unigolyn, am fod y tiwtoriaid a'r staff

cymorth yn y coleg neu ar Hyfforddeiaethau yn fwy ‘agos atoch’, eu bod yn teimlo'n llawer mwy hyderus wrth ofyn am gymorth pan oedd angen.

- **Cymorth i archwilio opsiynau, mewn addysg orfodol ac ôl-orfodol.** Roedd cyferbyniad yn ymwybyddiaeth pobl ifanc o gymorth i archwilio eu hopsiynau mewn addysg cyn-orfodol ac ôl-orfodol, a'u profiad o gael gafael arno. Nododd y rhan fwyaf o'r bobl ifanc y gwnaethom ymgysylltu â nhw eu bod yn teimlo'n llawer mwy hyddysg am eu hopsiynau mewn coleg neu ar raglen fel Hyfforddeiaethau o gymharu â phan oeddent yn penderfynu ar eu hopsiynau adeg TGAU, a nododd sawl unigolyn eu bod o'r farn nad oeddent wedi cael digon o gefnogaeth na gwybodaeth ar yr adeg honno.

  Roedd sawl ymatebydd o'r farn na chawsant ddigon o wybodaeth am y modd y gallai eu hopsiynau adeg TGAU effeithio ar eu hopsiynau tymor hwy gan nodi y byddent wedi gwneud dewisiadau gwahanol pe byddent wedi cael gwybodaeth o'r fath. Roedd sawl un hefyd o'r farn bod eu hopsiynau adeg TGAU yn gyfyngedig iawn os oedd eu gallu academaidd yn is na myfyrwyr eraill.

- **Gwerthfawrogi pob dysgwr.** Un thema arbennig o gyffredin ymysg yr unigolion hynny sy'n dilyn Hyfforddeiaethau neu gymwysterau galwedigaethol oedd ymdeimlad eu bod wedi cael eu hesgeuluso yn yr ysgol o blaid myfyrwyr mwy academaidd, a bod hyn wedi cael effaith negyddol ar y modd roeddent yn gweld eu hunain, eu potensial, a'u rhagolygon ar gyfer y dyfodol.

- **Cefnogaeth yn ystod cyfnodau pontio.** Nododd nifer o gyfranogwyr hefyd fod angen mwy o gymorth i drafod cyfnodau pontio allweddol fel symud o'r ysgol i addysg ôl-orfodol a hefyd wrth symud o un lleoliad addysgol i un arall er mwyn diwallu eu hanghenion penodol.

- **Cefnogaeth i feithrin sgiliau ar gyfer bywyd fel oedolyn.** Un thema gyffredin arall a welwyd yn yr adborth oedd bod angen canolbwyntio mwy ar roi cymorth ymarferol er mwyn helpu pobl ifanc i bontio i fywyd fel oedolyn annibynnol. Codwyd hyn sawl gwaith gan grwpiau ac unigolion gwahanol, gyda llawer o bobl ifanc yn nodi nad oeddent o'r farn eu bod yn barod am ymarferoldeb bywyd fel oedolyn gan nodi y byddent wedi hoffi cael mwy o wybodaeth am faterion fel opsiynau tai, cyfrifon banc, slipiau cyflog a chyflogau, a threthi, biliau ac yswiriant, a dealltwriaeth o'r rhain.

- **Mae cydberthnasau cadarnhaol yn helpu i wella ymgysylltiad.** O blith yr unigolion hynny a siaradodd yn gadarnhaol am y cymorth a gawsant er mwyn helpu i gynnal diddordeb yn eu haddysg, nodwyd rhai themâu cyffredin, yn cynnwys pwysigrwydd cydberthnasau cadarnhaol ag athrawon a staff cymorth unigol, a'u bod

o'r farn bod y cymorth hwn wedi cyfrannu mewn modd hanfodol at eu llwyddiannau yn eu haddysg a'u cynnydd hirdymor.

- **Cymorth a chyngor ar gyflogaeth/hunangyflogaeth** Roedd llawer o'r farn, mewn perthynas â chymorth a chyngor ar gyflogaeth, eu bod wedi cael gwasanaeth da gan adrannau arbenigol a sefydlwyd i ddarparu'r cymorth hwn mewn colegau Addysg Bellach a darparwyr hyfforddiant eraill, ac roeddent o'r farn bod y cymorth a gawsant yn y maes hwn yn llawer gwell na'r cymorth a gawsant yn eu haddysg gynharach.

  Roedd nifer o bobl ifanc o'r farn eu bod wedi cael eu hannog yn gryf i barhau i ddysgu ymhellach, naill ai yn y coleg neu goleg chweched dosbarth, ac na chafodd opsiynau eraill, fel cyflogaeth neu brentisiaethau, eu trafod o gwbl, gyda llawer yn nodi y byddent wedi gwneud penderfyniadau gwahanol pe bai'r wybodaeth am yr holl opsiynau a oedd ar gael iddynt wedi cael ei rhoi yn gynharach. Roedd sawl person ifanc hefyd o'r farn y byddent wedi hoffi cael y cyfle i ddysgu mwy am opsiynau hunangyflogaeth a gwnaethant nodi, oni bai eu bod yn astudio Busnes, na chafodd llawer ohonynt yr opsiwn i'w wneud, nad oeddent yn gallu cael gafael ar unrhyw gymorth na gwybodaeth yn y maes hwn.

- **Cynnwys iechyd meddwl a digartrefedd ymysg pobl ifanc yn y Fframwaith.** Mewn perthynas â chymorth ar gyfer problemau iechyd meddwl, roedd y bobl ifanc yn gryf o blaid cael mwy o gymorth a gwell hygyrchedd o ran y cymorth hwn, ar bob cam o'u haddysg. Fodd bynnag, nododd llawer na wnaethant lwyddo i gael gafael ar gymorth o'r fath eu hunain pan oeddent mewn addysg orfodol ac, mewn nifer o achosion, nodwyd rhestrau aros hir i siarad â chwnselwyr ysgol, ac roedd rhai o'r farn nad oedd llawer o gymorth iechyd meddwl ar gael iddynt yn yr ysgol, os o gwbl. Mae hyn yn cyferbynnu â cholegau AB a darparwyr hyfforddiant yn y gwaith, lle'r oedd yr adborth yn fwy cadarnhaol, gydag ymatebwyr yn nodi eu bod yn fwy ymwybodol o'r cymorth iechyd meddwl a oedd ar gael iddynt, a'u bod wedi'u grymuso mwy i gael gafael arno, a bod y cymorth hwnnw wedi bod yn hanfodol iddynt barhau â'u haddysg. O ganlyniad, roedd ymatebwyr o'r farn bod problemau iechyd meddwl wedi cael mwy o sylw mewn colegau a gyda darparwyr hyfforddiant yn y gwaith.

  Roedd y bobl ifanc hefyd o blaid sicrhau bod y perygl o ddigartrefedd ymysg pobl ifanc yn cael ei gynnwys yn y Fframwaith, er bod yr ymatebion yn y maes hwn yn llai manwl nag ar gyfer yr agwedd iechyd meddwl.

- **Cymorth gan asiantaethau.** Mewn perthynas ag asiantaethau a chymorth allanol mewn ysgolion a cholegau, roedd yr adborth yn cynnwys amrywiaeth eang o ymatebion, sy'n golygu ei bod yn anodd dod i gasgliadau ynghylch ansawdd y cymorth a gafwyd yn y maes hwn. Aeth rhai unigolion ati i ganmol sefydliadau fel Gyrfa Cymru, y Gwasanaeth Ieuenctid neu'r Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer y cymorth roeddent wedi'i gael, ac roedd eraill yr un mor negyddol am argaeledd a/neu ansawdd y cymorth.

- **Gwarant i bobl ifanc.** Croesawodd y bobl ifanc y syniad o gael lle gwarantedig mewn ysgol, coleg, hyfforddiant neu brentisiaeth, a gwnaeth llawer nodi y byddai'r sicrwydd hwn yn eu galluogi i ganolbwyntio mwy ar eu perfformiad academaidd drwy ddileu llawer o'r ansicrwydd a'r gorbryder ynghylch y cyfnod pontio i addysg bellach/uwch, hyfforddiant neu gyflogaeth. Fodd bynnag, cododd yr ymatebwyr bryder ynghylch hyblygrwydd posibl unrhyw warant o'r fath ac, yn benodol, beth fyddai'n digwydd pe byddent yn newid eu meddyliau ar ôl penderfynu ar lwybr dewisol.

- **Roedd pandemig Covid-19**, ac yn benodol y modd y mae wedi effeithio ar y cyfleoedd sydd ar gael i bobl ifanc, yn thema gref a nodwyd drwy gydol y broses ymgynghori. Roedd llawer o'r farn bod eu cyfleoedd a'u hopsiynau wedi cael eu cyfyngu'n ddifrifol o ganlyniad i'r pandemig, a chyfeiriodd nifer o unigolion at y ffaith na fu'n bosibl iddynt ddatblygu ar yr un cyflymder â'u rhagflaenwyr na chael yr un amrywiaeth o gyfleoedd â nhw, ac roedd sawl un o'r farn eu bod yn colli allan ar agweddau ar ddatblygiad cymdeithasol gymaint ag ar eu datblygiad addysgol.

- **Cynnwys pobl ifanc.** O ran cynyddu a gwella gwaith ymgysylltu â phobl ifanc wrth gynllunio ar gyfer y dyfodol, roedd llawer o'r farn bod y broses o geisio adborth gan bobl ifanc yn uniongyrchol fel rhan o'r broses ymgynghori hon, ynddi ei hyn, yn gadarnhaol iawn, gan olygu eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac y gwrandewir arnynt. Mewn perthynas â'r fformat ar gyfer gwaith ymgysylltu o'r fath, er i'r bobl ifanc gydnabod bod y cyfryngau cymdeithasol a mathau eraill o gyfathrebu electronig yn ddefnyddiol wrth gyfathrebu'n gyflym â chynulleidfa fwy, teimlwyd bod dulliau cyfathrebu wyneb yn wyneb yn fwy personol ac felly'n llawer mwy tebygol o sicrhau proses ymgysylltu gref â phobl ifanc mewn perthynas â materion a phenderfyniadau ynghylch eu dyfodol.

# Canfyddiadau manwl rhanddeiliaid

## 1. Atebolrwydd a thracio

Gofynnwyd i'r rhanddeiliaid am eu safbwyntiau ynghylch effeithiolrwydd systemau a phrosesau presennol ar gyfer sicrhau atebolrwydd mewn perthynas â'r broses o roi'r Fframwaith ar waith ac ar gyfer tracio dysgwyr o bob oedran ac ar bob cam. Roedd trafodaethau'r ymgynghoriad yn canolbwyntio ar y pynciau allweddol canlynol:

- Atebolrwydd am roi'r Fframwaith ar waith
- Systemau a phrosesau tracio
- Rhannu data

### 1.1 Atebolrwydd am roi'r Fframwaith ar waith

Nod y Fframwaith yw creu atebolrwydd am leihau ffigurau NEET drwy ddwyn awdurdodau lleol a phartneriaid i gyfrif yn rheolaidd am roi'r Fframwaith ar waith. Gofynnwyd i gyfranogwyr a oes eglurder ynghylch llinellau atebolrwydd am y Fframwaith yn ei gyfanrwydd ac o ran y sefydliadau partner unigol.

#### 1.1.1. Atebolrwydd am y Fframwaith yn ei gyfanrwydd

**Nododd cyfranogwyr dro ar ôl tro bod angen diwygio ac atgyfnerthu prosesau gwaith amlasiantaethol wedi'u hategu gan ymdeimlad o atebolrwydd a rennir.** Cafwyd consensws yn y gweithdai bod y rhain yn nodweddion cryf o'r dull newydd pan roddwyd y Fframwaith ar waith i ddechrau. Fodd bynnag, dros amser, mae'r gwasanaethau awdurdodau lleol sydd ag atebolrwydd ffurfiol am y targed NEET wedi gweld dirywiad yn yr atebolrwydd am ddarparu'r Fframwaith hwn ymysg partneriaid allanol a mewnol.

> *"Pan sefydlwyd y Fframwaith, fe'i cynlluniwyd i gefnogi'r sawl sy'n NEET ac sydd mewn perygl o fod yn NEET. Helpodd y targed i awdurdodau lleol o ran cyrchfannau ar 31 Hydref bob blwyddyn a'r ffigurau NEET i sicrhau ffocws. Gallwn wella canlyniadau yn y dyfodol mewn perthynas â'r cymorth amlasiantaethol cydgysylltiedig hwnnw. Y gwendid a nodwyd gennyf yw sicrhau bod pob asiantaeth yn ymrwymo i gefnogi'r grŵp mwyaf bregus hwnnw o NEET neu sydd mewn perygl o fynd yn NEET."* (Cyfranogwr o awdurdod lleol)

> *"Mae'r awdurdod lleol, yn benodol tîm Fframwaith y Cydlynydd Ymgysylltu a Datblygu, yn dal i weithio'n gadarn tuag at y nod hwnnw o weithio o fewn y Fframwaith, ond nid yw'r bartneriaeth ehangach mor gefnogol ag yr arferai fod."* (Cyfranogwr o awdurdod lleol)

Cafwyd cytundeb cyffredinol ymysg y cyfranogwyr o rannau gwahanol o'r sector bod cyfuniad o'r ffactorau canlynol yn esbonio'r newid hwn.

**Nodwyd yn gyson mai'r prif rwystr i atebolrwydd a rennir yw'r ffaith nad yw dangosyddion perfformiad allweddol y Fframwaith yn annog dull amlasiantaethol mewn modd digonol.** Ystyrir mai'r gwasanaeth awdurdod lleol sy'n arwain y Fframwaith sy'n bennaf atebol am y ffigur NEET blynyddol.

> *"Fel awdurdod lleol, rydym yn dwyn partneriaid i gyfrif ond yr awdurdodau lleol sydd bob amser yn gyfrifol am mai yn eu herbyn nhw y mesurwyd y ffigur NEET. Er bod y partneriaid eraill yn rhan o'r gwaith, nid yn eu herbyn nhw y mesurwyd y ffigur NEET.* (Cyfranogwr o awdurdod lleol)

Fodd bynnag, nodwyd hefyd, er gwaethaf y canfyddiad hwn, fod gan randdeiliaid eraill sy'n gweithredu o fewn y Fframwaith ddangosyddion perfformiad allweddol penodol sy'n gysylltiedig â gostwng nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Efallai fod diffyg dealltwriaeth o'r ffyrdd y caiff partneriaid gwahanol eu dwyn i gyfrif (yn fewnol ac yn allanol) ynghyd ag ymdeimlad gan rai awdurdodau lleol eu bod yn bennaf atebol am brif ddangosyddion perfformiad allweddol y Fframwaith er bod y Fframwaith wedi'i ddylunio fel rhaglen amlasiantaethol, gydweithredol.

Awgrymodd y cyfranogwyr fod hyn wedi arwain at bartneriaid yn blaenoriaethu dangosyddion perfformiad allweddol sy'n gysylltiedig â gweithgarwch arall a ariennir. **Tynnodd y cyfranogwyr sylw yn benodol at effaith Cronfa Gymdeithasol Ewrop**[3] **a chyllid arall ar feithrin dull cystadleuol o gefnogi pobl ifanc, yn arbennig rhai 18 oed a hŷn.**

> *"Yr hyn sydd wedi digwydd dros amser yw ein bod wedi creu model cystadleuol yn lle model atebolrwydd, drwy gyflwyno Cronfa Gymdeithasol Ewrop a chyllid ôl-16 statudol. Yn anfwriadol, rydym yn cystadlu yn erbyn ein gilydd heb fod yn atebol i'r Fframwaith. Felly rydym yn dod i'r cyfarfodydd hyn ac yn trafod unigolion, ac yn gweithio mewn ffordd gydweithredol, ond rydym yn dal i ystyried cynaliadwyedd ein gwasanaethau ein hunain. Diffyg dangosyddion perfformiad allweddol sy'n ysgogi hynny i raddau helaeth. Yn erbyn y model pum haen, nid ydym yn gweld y dangosyddion perfformiad allweddol ac mae angen iddynt fod yn glir iawn i'r holl sefydliadau oherwydd gallai hynny helpu i ymdrin â rhywfaint o'r natur gystadleuol honno."* (cyfranogwyr sy'n Ddarparwr Hyfforddiant Annibynnol)

Dylid pwysleisio nad oedd y cyfranogwyr yn awgrymu y dylai fod llai o ymrwymiad i gefnogi pobl ifanc, ond yn hytrach ei bod yn ymddangos bod partneriaid yn canolbwyntio'n llai penodol ar weithio gydag arweinwyr awdurdodau lleol i gyflwyno'r Fframwaith. Fodd bynnag, nododd rhai o'r cyfranogwyr yn glir, er bod y dewis a roddir i ddysgwyr yn bwysig, fod rhywfaint o **gystadleurwydd diangen yn ystod y cam ôl-16 oed yn tanseilio ffocws cyson ar ddiwallu anghenion pobl ifanc unigol.** Nododd un Cydlynydd Ymgysylltu a Datblygu:

> *"Mae darpariaeth ac ymyriadau'r Fframwaith wedi'u llunio o brosiectau unigol a ariennir drwy fyrdd o ffynonellau, yn cynnwys Cronfa Gymdeithasol Ewrop, ac fe welwch weithiau fod gan bob prosiect ac ymyriad ei gyfres ei hun o nodau, targedau*

[3] Bydd pob prosiect a ariennir drwy Gronfa Gymdeithasol Ewrop wedi dod i ben erbyn diwedd 2023.

*a chanlyniadau, lle mae darpariaethau gwahanol yn cystadlu yn erbyn ei gilydd, ac weithiau'n tueddu i ddal gafael mewn person ifanc, yn hytrach nag edrych mewn modd cyfannol ar ba ddarpariaeth sydd fwyaf addas i'r person ifanc penodol hwnnw. Gall fod yn eithaf anodd cydlynu hynny."* (Cyfranogwr o awdurdod lleol)

Roedd sawl cyfranogwr yn dadlau bod sefyllfa eithaf paradocsaidd yn bodoli lle mae'r Fframwaith wedi gwella gallu partneriaid i sicrhau cyllid i weithio gyda phobl ifanc, ond unwaith y bydd wedi'i sicrhau, fod hynny'n annog ymddygiad sy'n niweidiol i'r broses o roi'r Fframwaith ar waith. Nodwyd sawl gwaith bod y math hwn o gystadleuaeth hyd yn oed yn bodoli rhwng adrannau o fewn awdurdodau lleol unigol.

Awgrymodd y cyfranogwyr hefyd **bod y gostyngiad amlwg mewn ffigurau NEET ers cyflwyno'r Fframwaith wedi golygu bod rhai partneriaid wedi rhoi llai o flaenoriaeth iddo.**

*"Ar y dechrau ac am y tair neu bedair blwyddyn gyntaf, roedd yn beth newydd ac roedd pawb yn ei gefnogi ac am chwarae eu rhan. Ond pan welwyd y ffigurau, dechreuwyd llaesu dwylo."* (Cyfranogwr o awdurdod lleol)

Er mwyn dangos y pwynt hwn, eglurodd cyfranogwr o awdurdod lleol fod eu ffigurau NEET wedi dechrau cynyddu'n ddiweddar, a'i fod yn priodoli hynny i ddirywiad yn y prosesau cydweithio rhwng tîm y Fframwaith yn eu hawdurdod lleol a Gyrfa Cymru. Pan gyflwynwyd amrywiaeth o brosesau i ail-feithrin y gydberthynas, yn cynnwys cyfarfodydd Cadw mewn Cysylltiad wythnosol, lle mae Gyrfa Cymru yn adrodd ar ddata ar bobl ifanc sydd mewn perygl o ymddieithrio fel y gellir rhoi ymyriadau priodol ar waith yn gyflym, roedd y ffigurau NEET wedi dechrau gostwng eto. Nodwyd bod penaethiaid gwasanaethau o'r ddau sefydliad yn rhan o'r broses o ailgreu'r bartneriaeth.

Yn un o'r grwpiau gweithdai, cytunodd y cyfranogwyr fod **y canllawiau cenedlaethol ar drefniadau llywodraethu'r Fframwaith wedi arwain at hyblygrwydd lleol ar draul annog strwythurau cadarn i sicrhau atebolrwydd a rennir.** Teimlwyd bod hyn wedi bod yn arbennig o andwyol yng nghyd-destun cyni yr oedd y cyfranogwyr yn cytuno ei fod wedi arwain at drosiant staff nas gwelwyd ei debyg o'r blaen ym mhob rhan o'r system cymorth ieuenctid gan golli uwch-arweinwyr sy'n deall y Fframwaith ac sydd ag ymdeimlad o berchenogaeth ohono. Awgrymwyd bod angen fframwaith atebolrwydd cliriach i liniaru effeithiau hyn.

*"Rydym wedi gweld ailstrwythuro cyson ym mhob sefydliad a gwasanaeth, felly cafwyd newidiadau sefydliadol cyson a sylweddol. Mae hynny'n arwain at ddwy effaith. I ddechrau, amherir ar gysondeb cydberthnasau yn rheolaidd ac mae'n llawer anoddach cynnal y cydberthnasau cadarnhaol hynny ar bob lefel. Yn ail, yn benodol lle rydym wedi gweld llawer o newid yn ein harweinyddiaeth strategol, rydym yn colli llawer o'r cof sefydliadol hwnnw ac mae gennym lawer o uwch-arweinwyr newydd nad ydynt yn gyfarwydd â'r Fframwaith. Os nad oes gennych y cysondeb hwnnw, mae'n golygu ei bod yn llawer anoddach ateb heriau ynghylch pethau fel rhannu data am nad oes gennych yr ymddiriedaeth honno."* (Cyfranogwr o awdurdod lleol)

### 1.1.2 Atebolrwydd rhannau gwahanol o'r sector

Archwiliodd cyfranogwyr i ba raddau roedd yn glir beth y mae sefydliadau mewn rhannau gwahanol o'r sector yn atebol amdano mewn perthynas â rhoi'r Fframwaith ar waith.

Gan adeiladu ar y trafodaethau a grynhoir uchod, **cafwyd cytundeb cyffredinol bod angen adolygu ac egluro atebolrwydd ar draws y sector fel rhan o'r broses o ddiwygio'r Fframwaith.** Nododd y cyfranogwyr eu bod yn deall sefyllfa awdurdodau lleol am mai nhw sy'n atebol am ddangosyddion perfformiad allweddol NEET. Fodd bynnag, mae'r dirywiad yn y dull amlasiantaethol oedd â'r nod o ategu'r Fframwaith yn dangos pwysigrwydd adolygu ac ailnodi'r modd y caiff atebolrwydd ei rannu ar draws asiantaethau. Arsylwodd sawl cyfranogwr mai nod y Fframwaith oedd adlewyrchu dealltwriaeth y gall ymyriadau gan sawl sefydliad a sawl gwasanaeth effeithio ar gyfleoedd bywyd person ifanc a rhannu rhywfaint o'r atebolrwydd am ganlyniadau. Codwyd sawl mater allweddol mewn perthynas ag atebolrwydd partneriaid gwahanol.

**Ar draws y gweithdai, trafododd cyfranogwyr bryderon ynghylch atebolrwydd mewn perthynas â'r model pum haen.** Roeddent yn cytuno ar y cyfan, pan gyflwynwyd y Fframwaith, fod pawb yn deall yr atebolrwydd yn erbyn yr haenau amrywiol o fewn y model yn glir. Fodd bynnag, nododd cyfranogwyr o'r awdurdodau lleol ac o Gyrfa Cymru fod y darlun wedi "pylu" ers hynny. Gwnaethant nodi bod trawsgroesi mewn cyfrifoldeb mewn gwirionedd, ac ar y cyfan, roeddent o'r farn y dylai hyn gael ei adlewyrchu mewn atebolrwydd a rennir yn y fframwaith. Nododd cyfranogwyr o awdurdodau lleol mewn un gweithdy **bod gwendidau penodol o ran atebolrwydd pan fydd pobl ifanc yn symud rhwng haenau.**

> *"Mae problem ynghylch atebolrwydd pan fydd pobl yn symud rhwng haenau, ac yn enwedig mewn ffordd negyddol. Pwy sy'n atebol am y rhain? Yr hyn sy'n digwydd yw, pan fyddant yn mynd yn is i lawr yr ysgol, y gwasanaethau ieuenctid sy'n gyfrifol amdanynt, ond efallai o safbwynt adnabod ac atal yn gynnar y gellid bod wedi gwneud rhywbeth yn gynharach i helpu'r bobl ifanc hynny. Mae angen i ni feddwl am hynny."* (Cyfranogwr o awdurdod lleol)

Nododd y cyfranogwyr fod gwasanaethau awdurdodau lleol ledled Cymru sy'n cael eu dwyn i gyfrif am ffigurau NEET lleol yn ystyried bod atebolrwydd am dracio pobl ifanc yn fater allweddol. Mynegwyd pryderon ynghylch ansawdd data, yn enwedig ar haenau un a dau. Nodwyd bod data yn aml wedi dyddio neu ar goll a bod angen llawer o amser ac adnoddau i lenwi'r bylchau hyn er mwyn gallu cysylltu â phobl ifanc.

Nodwyd ers 2018 fod y cyflenwad o ddata CYBLD/SIMS (o Flwyddyn 10 ymlaen) i Gyrfa Cymru wedi bod yn anghyson ac y bu'n anodd cael gafael ar ddata. Mae'r anghysondebau hyn yn amharu ar effeithlonrwydd y Fframwaith yn yr ystyr nad yw newidiadau i statws pobl ifanc bob amser yn cael eu diweddaru, sy'n golygu bod y data'n llai cadarn nag y dylent fod. Er bod rhai cyfranogwyr o'r farn mai Gyrfa Cymru ddylai fod yn atebol am y broses hon, nodwyd bod y cyfrifoldeb am hwyluso'r broses o rannu data yn cael ei rannu ar draws y Fframwaith, yn cynnwys gyda Chydlynwyr Ymgysylltu a Datblygu a gyda darparwyr.

Nodwyd hefyd y gall anawsterau penodol godi o ran cadw mewn cysylltiad â phobl ifanc a'u teuluoedd, yn arbennig pan fyddant wedi ymddieithrio o wasanaethau.

Fodd bynnag, mae'n amlwg bod rhanddeiliaid ym mhob rhan o'r Fframwaith wedi nodi bod angen dull mwy effeithiol o gasglu, diweddaru a rhannu gwybodaeth mewn Fframwaith diwygiedig. Dylai hyn gynnwys llinellau atebolrwydd cliriach ar draws pob sefydliad dan sylw.

> *“Mae'r tracio yn anodd iawn oherwydd y data nad oes gennym ar y dechrau. Mae'n ceisio tracio unigolion sydd yn haen un neu haen dau, pan fydd y cyfeiriadau a'r rhifau ffôn ac ati yn anghywir. Mae'n llafurus iawn i'r sawl sy'n gyfrifol. Mae hwn yn fwlch anferth yn y broses sydd ei hangen arnom i dracio pobl ifanc. Ar ryw adeg mae angen i ni fynd yn ôl i sicrhau bod y data'n gywir am eu bod yn diflannu i haen un ac yna allwn ni ddim dod o hyd iddyn nhw.”* (Cyfranogwr o awdurdod lleol)

Cododd trafodaethau ychwanegol ar atebolrwydd asiantaethau a sefydliadau mewn rhannau gwahanol o'r sector y pwyntiau allweddol canlynol:

- **Mae'r graddau y mae ysgolion yn ymgysylltu â'r Fframwaith ac yn cymryd atebolrwydd yn amrywio'n sylweddol rhwng ardaloedd lleol yn ogystal â rhwng ysgolion unigol.** Nododd rhai cyfranogwyr, pan gyflwynwyd y Fframwaith, eu bod wedi dangos lefel uchel o ymrwymiad ond bod hyn wedi lleihau ers hynny. Gwnaethant briodoli'r newid hwn i amrywiaeth o ffactorau yn cynnwys: effaith y pandemig ar flaenoriaethau a gallu ysgolion i ymgysylltu; a phrosiectau Cronfa Gymdeithasol Ewrop lleol a gyflwynwyd yn targedu pobl ifanc o oedran ysgol (e.e. TRAC yn y gogledd) sy'n cynnig darpariaeth ac sydd wedi tynnu sylw ysgolion oddi ar y Fframwaith. Fodd bynnag, ceir tystiolaeth o ffocws o'r newydd ar sicrhau mwy o ymgysylltu amlasiantaethol dros y deuddeg mis diwethaf. Roedd hyn yn cynnwys Gyrfa Cymru yn gofyn i bob Cydlynydd Ymgysylltu a Datblygu sicrhau bod cynghorwyr gyrfaoedd mewn ysgolion yn cael eu gwahodd i gyfarfodydd amlasiantaethol i sicrhau bod y rhestrau o bobl ifanc sydd mewn perygl o fod yn NEET yn gyson ar gyfer pob partner.

Ar yr un pryd, nododd rhai cyfranogwyr o awdurdodau lleol fod ganddynt gydberthnasau cryf â'u hysgolion lleol ynghylch yr agenda NEET, er iddynt gydnabod nad oedd y Fframwaith o reidrwydd yn ategu hyn. Nododd sawl cyfranogwr eu bod wedi gweld mwy o ymgysylltu â'r Fframwaith gan ysgolion oherwydd pryderon ynghylch cyfnodau pontio'r rhai sy'n gadael yr ysgol. Mae'r adborth yn awgrymu mai'r pandemig neu newid i system drydyddol yw cyd-destun y pryderon hyn.

- **Mae gan sefydliadau trydydd sector ran fawr i'w chwarae yn y broses o roi cymorth i bobl ifanc ond nid ydynt yn rhan o'r Fframwaith.** Roedd cyfranogwyr o'r sector gwaith ieuenctid gwirfoddol yn cytuno i raddau helaeth bod angen ymwreiddio'r sector yn well yn y Fframwaith gan sicrhau atebolrwydd priodol. Pwysleisiodd y cyfranogwyr y byddai hyn yn helpu wrth gydgysylltu darpariaeth a chymorth rhwng y sector cyhoeddus a'r trydydd sector, ac y byddai'n arbennig o fuddiol wrth leihau achosion o ddyblygu a chystadleuaeth ar draws prosiectau ac ymyriadau.

## 1.2 Systemau a phrosesau tracio

Nod y Fframwaith yw gwella prosesau tracio ar bob oedran ac ar draws cyfnodau pontio drwy atgyfnerthu systemau a phrosesau a hyrwyddo mwy o brosesau effeithiol o rannu a defnyddio data. Trafododd y cyfranogwyr y rhwystrau i dracio effeithiol gan **nodi oedrannau a chyfnodau allweddol** lle nad yw'r gwaith tracio yn gweithio cystal ag y dylai. Nodwyd bod tracio cyrchfannau oedolion ar draws sawl lleoliad yn arwain at broblemau o ran ymarferoldeb yn ogystal ag at y cwestiwn ynghylch priodoldeb tracio oedolion yn y ffordd hon.

### 1.2.1 Cyfnodau pontio i bobl ifanc 18 oed a throsodd

**Nododd y cyfranogwyr ym mhob gweithdy mai cyfnodau pontio i bobl ifanc 18 oed a throsodd oedd y rhai mwyaf heriol i'w tracio, a gwnaethant gadarnhau y ceir cydnabyddiaeth gyffredinol bod hyn yn broblem ar draws y sector.** Mae hyn yn adlewyrchu pa mor anodd yw'r gwaith o dracio oedolion ar draws sawl lleoliad a'u dulliau o gyfathrebu â sefydliadau a darparwyr llywodraethol ac anllywodraethol.

> *"Mae'r gwaith tracio yn amrywio yn ôl oedrannau gwahanol ar draws y Fframwaith. Mae systemau ar waith mewn ysgolion i fonitro lleoliad pobl ifanc ac maent yn yr ysgol yn bennaf. Wrth i'r oedrannau gynyddu, ceir cronfeydd data a systemau gwahanol. Er enghraifft, yn ein maes ni, cronfa ddata Gyrfa Cymru yw'r Beibl i bob pwrpas ar ôl blwyddyn 11 hyd at 18 oed. Mae pethau'n mynd yn amwys iawn ar ôl 18 oed. Nid yw'r broblem ar ôl 18 oed wedi cael ei datrys. Dyna ble mae'r bwlch."* (cyfranogwr o Awdurdod Lleol)

Cafodd y gwaith tracio ar y cam hwn ei ddisgrifio fel tir peryglus ac fel gwaith caled. **Roedd y cyfranogwyr yn priodoli hyn i anawsterau rhannu data yng nghyd-destun system dameidiog a chystadleuol o roi darpariaeth a chymorth i bobl ifanc dros 18 oed. Tynnodd rhai cyfranogwyr hefyd sylw at briodolrwydd tracio cyrchfannau a gweithgareddau oedolion yn y ffordd hon, nid dim ond yr ymarferoldeb cysylltiedig.**

**Cyfeiriwyd yn benodol at** y rhwystrau hirsefydlog sy'n gysylltiedig â'r heriau y mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn eu hwynebu wrth rannu data ar y bobl ifanc y mae'n eu cefnogi, ac felly nad oes unrhyw drefniadau ar waith ar gyfer rhannu data.

> *"Ar ôl 18 oed y mae'r bwlch bob amser wedi bod yn fy marn i o ran cydgysylltu data a rhoi'r protocol hwnnw i rannu gwybodaeth ar waith."* (cyfranogwr o awdurdod lleol)

Nododd cyfranogwyr o awdurdodau lleol eu bod yn **dibynnu ar atgyfeiriadau i brosiectau a arweinir gan awdurdodau lleol er mwyn tracio unigolion.**

> *"Rydyn ni'n mynd i'r afael â'r gwaith tracio ar gyfer y grŵp oedran hwnnw drwy geisio cyfuno'r sawl sy'n gyfranogwyr o fewn ein prosiectau ond nid yw hwn yn rhoi darlun cyflawn o'r angen."* (cyfranogwr o awdurdod lleol)

Cafwyd cytundeb ar y cyfan mai gwybodaeth dameidiog ac anfoddhaol a geir drwy'r dull hwn, a waethygir gan anwadalwch y llif o atgyfeiriadau, yn dibynnu ar y ddarpariaeth o ran cyflogadwyedd sydd ar gael mewn ardal leol.

*“Pan nad oes gan yr Adran Gwaith a Phensiynau a phartneriaid eraill unrhyw gyllid ar gyfer prosiectau penodol, yna gall y llwybrau atgyfeirio fod yn eithaf prysur, ond pan fyddant yn cael prosiect newydd sy'n cynnwys gweithio gyda charfanau penodol, maent yn anfon eu holl atgyfeiriadau i'w prosiectau ac ni chaiff ein llwybrau ni eu defnyddio.”* (Cyfranogwr o awdurdod lleol)

### 1.2.2 Pobl ifanc sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref

**Mynegodd y cyfranogwyr bryder cyffredinol ynghylch eu gallu i dracio a chefnogi'r nifer cynyddol o ddisgyblion sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref.** Dywedodd un cyfranogwr:

*“Allwn ni ddim gorbwysleisio pwysigrwydd y broblem hon mewn perthynas â disgyblion sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref.” (*Cyfranogwr o awdurdod lleol)

Nodwyd fod cynnydd sylweddol wedi bod yn nifer y disgyblion sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref yn ystod y pandemig a phwysleisiodd y cyfranogwyr y gellir “colli” pobl ifanc sy'n cael eu tynnu oddi ar gofrestrau ysgolion yn hawdd. Caiff hyn ei adlewyrchu yn y data presennol a gyflenwyd gan Lywodraeth Cymru, sy'n dangos cynnydd o 37% yn nifer y plant sy'n cael eu haddysgu gartref yn y flwyddyn hyd at fis Chwefror 2021, sy'n dod â'r cyfanswm cyffredinol i ychydig o dan 4,000.

*“Fy mhrif bryder ar gyfer y dyfodol yw mai dim ond ysgrifennu llythyr a rhoi rhybudd o wythnos sydd angen iddynt ei wneud er mwyn tynnu allan o'r system. A phwy sy'n gyfrifol amdanyn nhw wedyn ar ôl i'r ysgol eu tynnu oddi ar eu cofrestrau? Mae gennym fwy na 100 o fyfyrwyr sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref ar hyn o bryd, ac un unigolyn sy'n gyfrifol am eu tracio. Mae rhai ohonyn nhw yn symud i gael addysg ddewisol yn y cartref am eu bod wedi ymddieithrio, a gall fod gan y rhieni eu rhesymau eu hunain dros ymddieithrio, felly fyddan nhw ddim yn gwrando ar unrhyw un a ddaw i guro ar eu drws, fel petai.”* (Cyfranogwr o awdurdod lleol)

Roedd y cyfranogwyr yn cytuno bod y gair “dewisol” yn dechrau peri problemau. Er eu bod yn cydnabod bod rhai pobl ifanc yn ffynnu pan gânt addysg ddewisol yn y cartref pan fydd hynny'n benderfyniad cadarnhaol, roeddent yn ofni y gall llawer o'r cynnydd presennol fod yn deillio o nifer o ffactorau negyddol

- Mae rhai pobl ifanc yn cael eu tynnu allan o'r ysgol am fod y rhieni am osgoi talu dirwyon am lefelau presenoldeb gwael.
- Tystiolaeth anecdotaidd y gall ysgolion fod yn annog teuluoedd i addysgu eu plant gartref oherwydd lefelau ymddygiad, cyrhaeddiad neu bresenoldeb gwael.
- Problemau iechyd meddwl a lles sy'n gysylltiedig â'r cyfyngiadau symud.

### 1.2.3 Bylchau mewn data gan Gyrfa Cymru

Nododd cyfranogwyr o awdurdodau lleol yn y gweithdai fod **manylion cyswllt coll neu anghywir yn y data a gânt gan Gyrfa Cymru yn rhwystr sylfaenol i dracio pobl ifanc 16 i 18 oed yn effeithiol.**

*"Mae'r tracio yn anodd iawn oherwydd y data nad oes gennym ar y dechrau. Mae'n ceisio tracio unigolion sydd yn haen un neu haen dau, pan fydd y cyfeiriadau a'r rhifau ffôn ac ati yn anghywir. Mae'n llafurus iawn i'r sawl sy'n gyfrifol. Mae hwn yn fwlch anferth yn y broses sydd ei hangen arnom i dracio pobl ifanc. Ar ryw adeg mae angen i ni fynd yn ôl i sicrhau bod y data'n gywir am eu bod yn diflannu i haen un ac yna allwn ni ddim dod o hyd iddyn nhw."* (Cyfranogwr o awdurdod lleol)

Cydnabu'r cyfranogwyr yr her sy'n wynebu Gyrfa Cymru wrth reoli'r broses hon gan fod llawer o bobl ifanc yn newid eu rhifau ffôn yn rheolaidd. Awgrymwyd hefyd mai un o'r prif resymau pam y mae rhai pobl ifanc yn "diflannu" yw am eu bod wedi ymddieithrio tuag at ddiwedd eu cyfnod yn yr ysgol felly nid yw Gyrfa Cymru wedi eu gweld er mwyn diweddaru unrhyw fanylion.

*"O 15 oed ymlaen, maen nhw'n dechrau ymddieithrio, ac yna maen nhw'n llithro drwy'r rhwyd oherwydd erbyn iddynt gyrraedd y cyfnod ôl-16, allwn ni ddim dod o hyd iddyn nhw am fod y data mor hen."* (Cyfranogwr o awdurdod lleol)

Cafwyd cydnabyddiaeth hefyd mai un o'r prif resymau dros golli data oedd y ffaith nad oedd darparwyr yn rhannu data â Gyrfa Cymru (caiff hyn ei drafod yn fanylach yn nes ymlaen). Mae'n amlwg bod y rhwystrau ynghylch rhannu data â Gyrfa Cymru wedyn yn effeithio ar ansawdd y data a rennir ag awdurdodau lleol.

Cafwyd cydnabyddiaeth gyffredinol fod awdurdodau lleol yn buddsoddi llawer o adnoddau wrth geisio tracio pobl ifanc yn haen 1. Bydd gwasanaethau ieuenctid, prosiectau Cronfa Gymdeithasol Ewrop a rhai trydydd sectorau yn curo ar ddrysau ar ôl 6pm, er nad oedd hyn yn bosibl yn ystod y pandemig. Pwysleisiwyd hefyd fod prinder data o ansawdd da i gefnogi'r gwaith o dracio pobl ifanc dan 18 oed yn arwain at broblemau diogelu. Nododd rhai o'r cyfranogwyr eu bod yn ymwybodol o bobl ifanc nad yw'r gwasanaethau cymorth wedi cysylltu â nhw ers cryn amser.

### 1.2.4 Pobl Ifanc sy'n "tynnu allan"

Mae'r adborth o ddau o'r gweithdai yn awgrymu nad yw'r prosesau ar gyfer tracio pobl ifanc sy'n gadael eu cwrs yn gynnar bob amser yn gweithio'n effeithiol. Nododd y cyfranogwyr nad oeddent yn ymwybodol bod proses ffurfiol ar waith ar gyfer sicrhau bod coleg neu ddarparwr hyfforddiant yn hysbysu Gyrfa Cymru os bydd person ifanc yn gadael ei gwrs cyn ei gwblhau. Gwnaethant nodi bod elfen o siawns ynghylch p'un a fydd yr awdurdod lleol yn dod yn ymwybodol ei fod wedi ymddieithrio a all arwain at oedi cyn rhoi cymorth ar waith ar gyfer y person ifanc a'i helpu i gael gafael ar rywbeth mwy addas.

Fodd bynnag, dylid nodi, er gwaethaf y safbwyntiau hyn a gaiff eu mynegi gan rai cyfranogwyr, fod proses ffurfiol ar waith i bob coleg, coleg chweched dosbarth a darparwr hyfforddiant hysbysu Gyrfa Cymru pan fydd person ifanc yn tynnu allan o ddarpariaeth. Dylai hyn gynnwys y rhesymau dros adael â'r haen newydd arfaethedig. Mae'r ffaith nad oedd rhai cyfranogwyr yn ymwybodol o'r broses ar gyfer hysbysu Gyrfa Cymru neu nad oeddent yn siŵr ohoni yn adlewyrchu diffyg dealltwriaeth o bosibl ymhlith darparwyr gwahanol ynghylch agweddau ar y Fframwaith.

### 1.2.5 Datrysiadau posibl ac sy'n dod i'r amlwg

Nododd sawl cyfranogwr y byddent yn hoffi gweld **enghreifftiau o arferion effeithiol wrth dracio pobl ifanc** y gallent eu defnyddio i ddatblygu eu gwaith eu hunain yn y Fframwaith. Soniwyd am nifer o ddulliau sy'n cael eu defnyddio neu eu datblygu yn yr adborth, yn cynnwys:

- Disgrifiodd un awdurdod lleol y modd y mae'n gweithio gyda'i awdurdod iechyd i archwilio'r posibilrwydd o ddefnyddio rhif GIG unigolyn fel dyfais adnabod a fydd yn sicrhau bod ei ymgysylltiad yn cael ei dracio ar draws gwasanaethau ac ymyriadau.
- Nododd Gyrfa Cymru ei fod wedi llwyddo'n flaenorol i ddod i gytundeb rhannu data â'r Adran Gwaith a Phensiynau ar gyfer pobl ifanc sy'n cael Lwfans Ceisio Gwaith, ond daeth hyn i rym pan gyflwynwyd Credyd Cynhwysol ac nid oedd hyn yn cael ei gwmpasu gan y cytundeb.

## 1.3 Rhannu data

**Roedd y sgyrsiau ynghylch rhannu data yn canolbwyntio'n bennaf ar y bylchau a'r rhwystrau sy'n rhwystro gwaith monitro a thracio effeithiol.** Roedd llawer o'r adborth yn canolbwyntio ar yr heriau yn y cyfnod ôl-18 oed ac mae wedi'i nodi uchod. Fodd bynnag, archwiliodd y cyfranogwyr hefyd y problemau ynghylch rhannu data yn fwy eang, a chodwyd y pwyntiau allweddol ychwanegol canlynol.

**Cafwyd cytundeb cyffredinol bod y dull lleol presennol o rannu data rhwng awdurdodau lleol, Gyrfa Cymru a darparwyr yn golygu bod y trefniadau'n anghyson ledled Cymru, a bod eu heffeithiolrwydd yn amrywio llawer.** Pwysleisiodd y cyfranogwyr eu bod yn ceisio gwneud i bethau weithio ar lefel leol a disgrifiodd rhai y modd maent wedi rhoi protocolau rhannu gwybodaeth ar waith gyda phartneriaid. Fodd bynnag, pwysleisiwyd dro ar ôl tro bod y graddau y mae trefniadau lleol wedi cael eu rhoi ar waith yn effeithiol yn dibynnu ar gydberthnasau rhyngbersonol rhwng unigolion allweddol o fewn sefydliadau rhanddeiliaid.

> *"Mae gennym gydberthynas dda iawn â Gyrfa Cymru ond mae'n bwysig cydnabod bod hyn yn seiliedig ar gydberthnasau personol a'r bobl dan sylw. Mae gennym brosesau ar waith bellach am fod y bobl dan sylw wedi bod yno ers cryn amser."* (Cyfranogwr o awdurdod lleol)

> *"Mae angen i brosesau rhannu data fod yn fwy seiliedig ar y fframwaith a llai ar gydberthnasau personol, am fod y cydberthnasau hynny'n newid ac yna nid yw'r prosesau rhannu data mor gadarn. Ni ddylai fod ots pwy sydd yn y rôl."* (Cyfranogwr o awdurdod lleol)

**Nododd sawl cyfranogwr fod GDPR wedi dwysáu'r heriau ynghylch rhannu data, gan effeithio'n andwyol ar weithgarwch gweithredol.** Er i rai o'r cyfranogwyr nodi heriau ymarferol o ganlyniad i GDPR, tynnodd eraill sylw at y ffaith bod hyn yn rhannol o ganlyniad i'r ofn o rannu data ac amgylchedd sy'n fwy tebygol o osgoi risgiau.

> *"Rydym wedi cael problemau oherwydd GDPR yn ein maes ni, a'r ofn o rannu a phryderon. Mae darparwyr wedi rhoi'r gorau i rannu rhywfaint o wybodaeth gyda*

*Gyrfa Cymru ac mae'n golygu nad yw eu data'n gyfredol. Mae hyn yn effeithio ar ein gwaith ni yn haen un a haen dau. Mae'r hyn y gellir ei rannu â Gyrfa Cymru yn cael ei gamddeall neu ei gamddehongli. Byddai eglurder ynghylch yr hyn y mae'r awdurdod lleol neu'r ysgol yn cael ei rannu â nhw neu'r hyn y mae'n ofynnol iddo gael ei rannu yn cael effaith.”* (Cyfranogwr o awdurdod lleol)

**Yn y gweithdai, cafwyd cytundeb ymysg y cyfranogwyr bod angen ymgorffori prosesau rhannu data mewn modd systematig yn y Fframwaith.** Gwnaethant awgrymu y byddai canllawiau cenedlaethol i ategu mwy o eglurder, cysondeb a phendantrwydd wrth rannu data yn cael ei groesawu'n fawr ac y byddai'n helpu i oresgyn anawsterau a gafwyd ar adegau gyda rhai awdurdodau lleol unigol.

*“Byddai'n ddefnyddiol wrth ddiwygio'r Fframwaith i gael canllawiau gwell i gefnogi mwy o brosesau rhannu rhwng systemau”.* (Cyfranogwr o awdurdod lleol)

Roedd pob cyfranogwr yn cefnogi'r syniad y gallai Llywodraeth Cymru roi arweinyddiaeth i helpu gyda hwyluso cytundebau rhannu data mewn modd safonol a chyson.

*”Y prif rwystr sy'n ein hatal rhag gallu gweithio'n effeithiol yw'r ffaith na allwn rannu data. Os ceir deddfwriaeth, a chymorth polisi ar gyfer rhannu data mewn modd effeithiol ac amserol, yn arbennig ar gyfer sefydliadau nad oes ganddynt arbenigedd yn y maes hwn ac nad ydynt yn gwybod beth y gellir ei rannu, bydd popeth yn llawer symlach. Un darn clir iawn o ddeddfwriaeth sy'n nodi sut, pam a phryd y dylid gwneud pethau.”* (Cyfranogwr o awdurdod lleol)

## 2. Nodi'n gynnar

Gofynnwyd i randdeiliaid roi adborth ar effeithiolrwydd systemau a phrosesau nodi'n gynnar. Roedd gweithdai'r ymgynghoriad, a oedd yn canolbwyntio'n bennaf ar nodi'n gynnar a'r cyfnod pontio ar gyfer disgyblion ôl-16 oed, yn cynnwys y meysydd allweddol canlynol:

- Dangosyddion nodi'n gynnar.
- Cysondeb cenedlaethol a hyblygrwydd lleol.
- Rhannu data.
- Nodi'n gynnar.
- Defnyddio data nodi'n gynnar at ddibenion eraill.

Mae'n werth nodi bod y cyfranogwyr yn un o'r pedwar grŵp trafod yn cytuno'n gyffredinol â chyfranogwr o'r sector gwirfoddol a'r sector cymunedol a awgrymodd mai nodi'n gynnar yw'r elfen o'r Fframwaith sydd wedi cael ei rhoi ar waith yn fwyaf llwyddiannus hyd yma. Roeddent o'r farn bod gwelliannau sylweddol wedi bod mewn cyfnod eithaf byr.

### 2.1 Dangosyddion nodi'n gynnar

#### 2.1.1. Dangosyddion craidd

Mae'r Fframwaith yn nodi y dylai systemau nodi'n gynnar ganolbwyntio'n bennaf ar ddangosyddion presenoldeb, ymddygiad (gwahardd) a chyflawniad, gan roi'r hyblygrwydd i ardaloedd lleol ddefnyddio dangosyddion lleol perthnasol eraill. Y cytundeb cyffredinol ymysg y cyfranogwyr yn y gweithdai oedd bod y tri dangosydd craidd yn briodol ac y dylid eu cadw. Fodd bynnag, pwysleisiodd y cyfranogwyr fod y chwyldro yn y byd addysg a achoswyd gan y pandemig yn cyflwyno her ddifrifol ar hyn o bryd o ran defnyddio'r dangosyddion craidd hyn. Gan nad yw pobl ifanc wedi bod yn yr ysgol am y rhan fwyaf o'r flwyddyn ddiwethaf, mae prinder data cadarn ar lefelau presenoldeb, gwahardd a chyrhaeddiad. Nododd sawl cyfranogwr o awdurdodau lleol nad ydynt yn bwriadu defnyddio presenoldeb fel dangosydd nodi'n gynnar ar gyfer y dyfodol rhagweladwy gan fod y data'n rhy annibynadwy. Tynnodd cyfranogwr sylw at fwy o brinder o ddata presenoldeb ac esboniodd y gall fod gan berson ifanc sy'n dilyn cynllun cymorth bugeiliol gofnod presenoldeb ardderchog, ond mai dim ond ychydig oriau yr wythnos yw hynny mewn gwirionedd.

Gwnaeth y ffocws ar ddata presenoldeb, ymddygiad a chyrhaeddiad annog trafodaeth ym mhob gweithdy ar addysg ddewisol yn y cartref. Roedd y pryderon a godwyd yn adlewyrchu'r rheini a grynhowyd yn adran 1.2.2 uchod, er i'r cyfranogwyr awgrymu bod oblygiadau penodol i'r heriau o dracio pobl ifanc sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref o ran nodi'n gynnar:

*“Mater o amser ydyw a bydd yn gwaethygu, ac mae'n peri pryder o ran nodi'n gynnar. Rydych chi'n nodi disgybl ac, yn sydyn, allwch chi ddim cysylltu na chyfathrebu ag ef”.* (Cyfranogwr o awdurdod lleol)

Nododd Gyrfa Cymru ei fod yn wynebu rhwystrau penodol o ran darparu cymorth i bobl ifanc y tu allan i'r system ysgolion am na all ymweld â chartrefi pobl ifanc heb gael caniatâd yr unigolyn i wneud hynny.

> *“Rydyn ni mewn sefyllfa anodd iawn yn Gyrfa Cymru. Gallwn ni gael y rhestr gan yr awdurdod lleol o'r plant sy'n cael eu haddysgu gartref yna rydyn ni'n anfon gwybodaeth at bob un ohonyn nhw ac os byddant am ymgysylltu â ni, gallwn ni gynnig y gwasanaeth iddyn nhw. Ond os na fyddwn ni'n clywed yn ôl ganddyn nhw, allwn ni ddim cynnig y gwasanaeth, ac allwn ni ddim rhannu unrhyw ddata â Chydlynwyr Ymgysylltu a Datblygu.”* (Cyfranogwr o Gyrfa Cymru).

O ganlyniad, mae pobl ifanc yn tynnu allan o'r system nodi'n gynnar ac yn colli allan ar gymorth gyrfaoedd.

### 2.1.2 Dangosyddion risg eraill

Nododd y cyfranogwyr amrywiaeth o ffactorau eraill y gellid eu hystyried fel dangosyddion allweddol i wella'r broses o nodi pobl ifanc yn gynnar sydd mewn perygl o beidio â chael cyfnod pontio llwyddiannus i fyd addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant. **Tynnwyd sylw at y ffaith bod tystiolaeth yn dod i'r amlwg o'r defnydd o ddangosyddion gwahanol mewn meysydd gwahanol, yn ogystal â chefnogaeth i fwy o gysondeb ledled Cymru.**

Mae'r adborth yn awgrymu **bod cefnogaeth gyffredinol ymysg rhanddeiliaid i wneud defnydd mwy systematig o ddata ar brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod yn y broses nodi'n gynnar, yn ogystal â'r dangosyddion craidd ac fel rhan o'r broses o sicrhau bod y dull ehangaf a mwyaf cyfannol posibl yn cael ei ddefnyddio.**

Mae rhai ALlau yn nodi eu bod yn trafod profiadau niweidiol yn ystod plentyndod fel rhan o gyfarfodydd adolygu ysgolion ac mae'r dangosyddion yn chwarae rhan i nodi'r bobl ifanc hynny sydd mewn perygl o fod yn NEET.

Nododd y cyfranogwyr fod rhai awdurdodau lleol eisoes yn defnyddio dangosyddion o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod yn llwyddiannus er mwyn helpu i nodi pobl ifanc sydd mewn perygl o fod yn NEET. Er enghraifft, maen nhw wedi llwyddo i ehangu eu dangosyddion bregusrwydd a'u dulliau o asesu bregusrwydd i gynnwys nodweddion sy'n canolbwyntio ar brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod fel rhan o gyfarfodydd adolygu ysgolion. Er bod cyfranogwyr yn cydnabod bod pryderon mewn ysgolion ac y gallai hyn arwain at stigmateiddio pobl ifanc, at ei gilydd, roeddent yn teimlo bod y buddiannau tebygol yn gwrthbwyso’r risgiau.

*Pan fydd yr ysgol wedi cydnabod bod gan rywun brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod, mae'n anoddach i'r ysgol ymddieithrio yn ddiweddarach pan na fydd yr unigolyn yn debygol o lwyddo o safbwynt TGAU.* (Cyfranogwr o awdurdod lleol)

Byddai hefyd yn helpu i hyrwyddo cyfrifoldeb a rennir ar draws gwasanaethau ac asiantaethau ar gyfer cefnogi cyfnodau pontio llwyddiannus pobl ifanc.

Pwysleisiodd y cyfranogwyr y byddai angen mynd i'r afael â chwestiynau ynghylch pryd a sut y defnyddir data ar brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod er mwyn gwneud y mwyaf o'r data hynny a'u cyfraniad i'r broses nodi'n gynnar. Er enghraifft:

- Mae llawer o ddata ar brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod yn seiliedig ar farn broffesiynol, sy'n codi cwestiynau ynghylch sut a ble y dylid cofnodi'r wybodaeth er mwyn sicrhau ansawdd a chysondeb.
- Mae amseru yn hanfodol. Er mwyn iddo fod ar ei fwyaf effeithiol, awgrymwyd y dylai sgrinio profiadau niweidiol yn ystod plentyndod ddigwydd wrth bontio o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd, a fyddai'n golygu y gellid rhoi cymorth ataliol ar waith o Flwyddyn 7.

Cafwyd cytundeb cyffredinol hefyd **fod angen ystyried anghenion lles yn fwy systemataidd.** Dadleuwyd y gall fod gan bobl ifanc y nodwyd nad ydynt mewn perygl anghenion llesiant sy'n gweithredu fel ffactorau risg ond sy'n cael eu colli os yw'r ffocws yn gadarn ar feini prawf addysgol.

Tynnwyd sylw at yr enghreifftiau canlynol o fentrau lleol sy'n dangos arferion sy'n esblygu yn y defnydd o ddangosyddion nodi'n gynnar yn y gweithdai.

- **Mae Abertawe wedi datblygu dull proffil asesu bregusrwydd** sydd â chwmpas ehangach na dim ond nodi pobl sydd mewn perygl o fod yn NEET. Ei nod yw casglu data ar amrywiaeth eang o benderfynyddion bregusrwydd er mwyn llywio trafodaethau amlasiantaethol. Ochr yn ochr â'r tri dangosydd craidd, mae'r dull proffil asesu bregusrwydd yn defnyddio data sy'n cynnwys: prydau ysgol am ddim; mynegai amddifadedd lluosog Cymru; a symud ysgol
- Mae **Rhondda Cynon Taf yn defnyddio model cyfanredol wedi'i bwysoli** sy'n cynnwys tua 15 o ddangosyddion gyda chwech neu saith dangosydd craidd sy'n gysylltiedig ag agweddau ar ymddieithrio. Defnyddir y canlyniadau i neilltuo unigolion i un o bedwar categori – gwyn, gwyrdd, oren a choch – sy'n pennu'r broses o dargedu gwasanaethau. Caiff pobl ifanc yn y categorïau oren a choch eu trosglwyddo i Gydlynwyr Ymgysylltu a Datblygu. Caiff data eu trosglwyddo'n ôl i ysgolion ar sail cofnodion unigol a'u rhannu â cholegau lleol a Gyrfa Cymru. Roedd hyn yn gweithio'n dda hyd at Covid-19, ac yna nid oedd data ar rai o'r nodweddion allweddol - presenoldeb, gwahardd, cymorth AAA - ar gael yn yr un ffordd. Mae'r awdurdod lleol wedi penderfynu dros dro i ddefnyddio pum dangosydd Llywodraeth

Cymru i dargedu gwasanaethau cymdeithasol (ar y gofrestr amddiffyn plant, cynllun gofal a chymorth, derbyn gofal, gofalwr ifanc, AAA).

- **Mae'r consortiwm o awdurdodau lleol yn y gogledd sy'n rhan o raglen TRAC Cronfa Gymdeithasol Ewrop yn defnyddio dull cyffredin o nodi'n gynnar.** Rhoddir y pwysoliad uchaf i'r tri dangosydd craidd sef presenoldeb, ymddygiad a chyrhaeddiad. Ymysg y dangosyddion eraill a ddefnyddir mae: prydau ysgol am ddim; pan na fydd Cymraeg na Saesneg yn iaith gyntaf; anghenion addysgol arbennig; statws Sipsiwn / Teithwyr; ac a yw person ifanc yn hysbys i'r gwasanaethau cymdeithasol. Mae'r dangosydd "hysbys i'r gwasanaethau cymdeithasol" yn sgorio statws derbyn gofal ac mae hefyd yn cynnwys unrhyw ymgysylltiad â CAMHS (Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed). Mae hyn yn sicrhau dull mwy cyson ar draws yr awdurdodau lleol o ran y modd maent yn nodi pobl ifanc sydd mewn perygl o fod yn NEET.

### 2.2 Cysondeb cenedlaethol a hyblygrwydd lleol

O ystyried y dangosyddion gwahanol a ddefnyddir gan awdurdodau lleol i fesur y perygl y bydd pobl ifanc yn mynd yn NEET, gofynnwyd i'r rhanddeiliaid a fyddai'n werth cael dull mwy cyson.

Mae'r adborth yn dangos **bod cefnogaeth gyffredinol mewn egwyddor i fframwaith cyffredinol safonol i nodi'n gynnar, gyda rhywfaint o le ar gyfer hyblygrwydd lleol.** Gellir datblygu hyn drwy adeiladu ar arferion gorau sy'n bodoli eisoes.

> *Byddai templed ar gyfer dull Cymru gyfan o nodi'n gynnar yn ddefnyddiol iawn.* (Cyfranogwr o goleg AB)

Mynegodd y cyfranogwyr bryderon y gall y system bresennol greu elfen o fynediad anghyfartal o ran gallu pobl ifanc i gael gafael ar wasanaethau. Er bod y defnydd o'r 'dangosyddion craidd' yn helpu i liniaru yn erbyn rhywfaint o hyn, roedd teimlad cryf gan gyfranogwyr y byddai mwy o gysondeb cenedlaethol yn fuddiol i ddarparwyr a phobl ifanc.

> *Nid yw'n dderbyniol cael lefelau gwahanol o wasanaeth a chymhwystra ledled Cymru.* (Cyfranogwr o awdurdod lleol)

Ystyriwyd bod diffyg dull cyffredin yn rhwystr i gasglu data cenedlaethol dibynadwy ar raddfa'r anghenion cymorth a'r math o anghenion cymorth ac i feincnodi mewn modd ystyrlon.

> *Er mwyn gwneud unrhyw fath o gymariaethau cenedlaethol, mae angen nodi sawl person ifanc ym mhob categori a geir ledled Cymru. Os byddwch yn edrych ar afalau yn Rhondda Cynon Taf ac orenau yn Sir Ddinbych, yna bydd unrhyw fath o feincnodi yn anodd iawn. Rhaid bod rhyw ffordd y gallwn greu cyfres graidd o ddangosyddion.* (Cyfranogwr o awdurdod lleol)

Ar yr un pryd, pwysleisiodd cyfranogwyr nad oeddent am weld dull a oedd yn gwbl ragnodol. O fewn fframwaith cenedlaethol, byddai'n hanfodol cael digon o hyblygrwydd i alluogi awdurdodau lleol i ystyried newidynnau allweddol y gwyddys eu bod yn ffactorau risg i bobl ifanc yn y maes, fel natur wledig, iaith a nifer yr ysgolion uwchradd.

> *Bydd angen i chi fod wedi pennu fframwaith er mwyn cael cysondeb, ond mae angen sicrhau bod cyfle o hyd i gyflwyno gwybodaeth a dealltwriaeth leol. Rydym yn gweithio drwy nifer gymharol fawr o siroedd gwahanol a gydag atgyfeiriadau, mae amrywiaeth enfawr yn swm y wybodaeth a gawn. Mae angen i ni gael rhywfaint o wybodaeth benodol, ond mae angen cyfle i gael gwybodaeth leol.* (Cyfranogwr sy'n ddarparwr hyfforddiant annibynnol)

Ar y cyfan, cytunodd y cyfranogwyr y dylai fod yn bosibl cysoni symud tuag at ddull cenedlaethol mwy safonol â chadw hyblygrwydd yn lleol. Teimlwyd bod dealltwriaeth gyffredinol o'r ffactorau sy'n nodi bod rhywun mewn perygl, ond ar hyn o bryd gellir dehongli'r rhain yn wahanol mewn ardaloedd gwahanol. Byddai safoni yn creu mwy o gysondeb ac felly yn gwella cymorth i bobl ifanc.

> *Felly, pe byddai person ifanc yn trosglwyddo o un ardal awdurdod lleol i un arall, pan fyddai ei ddata'n cael eu trosglwyddo, pe byddai gennych faner yn erbyn dangosydd risg, er enghraifft, iechyd meddwl, yna byddai'r awdurdod lleol y byddai'n mynd iddo yn deall yn union beth oedd goblygiadau hynny.* (Cyfranogwr o awdurdod lleol)

Awgrymwyd, fel man cychwyn, y gellid datblygu rhestr graidd o ddangosyddion unigol gyda phwysoliad y cytunwyd arno'n genedlaethol.

Er bod y cyfranogwyr o blaid mwy o safoni, **lleisiodd rhai cyfranogwyr amheuon ynghylch y graddau y gellir cyflawni hyn yn ymarferol.** Nodwyd y materion canlynol:

- Mae'r cyfrifoldeb am y Fframwaith mewn llefydd gwahanol mewn perthynas â gwasanaethau cymorth ehangach mewn awdurdodau lleol gwahanol. Mae hyn yn adlewyrchu'r amrywiadau mawr yn y ffordd y caiff awdurdodau lleol eu strwythuro, ac, yn ei dro, mae'n deillio o amrywiaeth ardaloedd lleol.
- Mae pwysoliad yn cyflwyno her fawr, oherwydd y gwahaniaethau yn lefelau'r anfantais ledled Cymru. O ganlyniad, gellir colli unigolion y mae angen cymorth arnynt. Er enghraifft, efallai na fyddai unigolyn y nodwyd ei fod yn yr 20% uchaf sydd mewn perygl mewn awdurdod lleol cefnog yn cael ei gofrestru fel unigolyn mewn perygl pe byddai'n symud i ardal lai cefnog. Yn yr un modd, gallai ysgol mewn ardal wledig nodi ffactor risg fel un coch na fyddai'n cael ei nodi mewn ysgol fawr, drefol gyda nifer cymharol uchel o bobl ifanc sydd mewn perygl o fod yn NEET.
- Mae'n debygol y bydd cyfansoddiad y grŵp sydd mewn perygl o fod yn NEET yn wahanol ar draws awdurdodau lleol gwahanol.

Awgrymodd cyfranogwyr o Gyrfa Cymru y gall fod ffyrdd eraill o wella cysondeb wrth nodi'n gynnar a fyddai'n llai heriol yn ymarferol i'w datblygu o gymharu â fframwaith a phroses genedlaethol. Gwnaethant awgrymu: canllaw arferion da i nodi'n gynnar; a chyfres o nodweddion allweddol a gaiff eu mynegi drwy ddangosyddion perfformiad allweddol.

### 2.3 Rhannu data

Mae'r canllawiau ar gyfer rhoi'r Fframwaith ar waith yn nodi y dylai systemau nodi'n gynnar gael eu harwain gan ddata, felly bod angen rhoi cytundebau rhannu data ar waith. Fodd bynnag, gan fod arwyddion clir nad yw data'n cael eu rhannu'n gyson ledled Cymru, gofynnwyd i'r rhanddeiliaid am eu safbwyntiau ar yr heriau a'r rhwystrau sy'n atal sefydliadau rhag rhannu data ar nodi'n gynnar.

#### 2.3.1 Heriau a rhwystrau

Mae'r adborth o'r gweithdai yn nodi bod y pryderon allweddol ynghylch rhannu data mewn perthynas â nodi'n gynnar yn fras yn ategu'r rhai a drafodwyd yn adran 1.3 uchod sef bod diffyg cysondeb ledled Cymru, gyda thystiolaeth gyfyngedig o arferion effeithiol; mae GDPR wedi ychwanegu at yr anawsterau wrth sefydlu cytundebau rhannu data; a byddai rhanddeiliaid yn croesawu dull cenedlaethol wedi'i gydgysylltu i ddod â mwy o eglurder a chysondeb i drefniadau lleol.

**Yn ogystal, nododd y cyfranogwyr y prif heriau a rhwystrau canlynol o ran rhannu data yn effeithiol sy'n ymwneud yn benodol â nodi unigolion yn gynnar sydd mewn perygl o fod yn NEET.**

- **Mae anawsterau o ran cael data gan ysgolion mewn modd amserol a chyson.** Gan fod partneriaid allweddol fel awdurdodau lleol a cholegau yn dibynnu ar ysgolion i gael eu data ar nodi'n gynnar, mae hyn yn creu problem sylweddol. Mae nifer o ffactorau yn cyfrannu at yr anawsterau hyn.

  Nododd cyfranogwyr o golegau AB nad yw ysgolion bob amser yn rhannu data ar yr adeg pan fydd pobl ifanc yn gwneud cais i fynd i'r coleg, ond eu bod yn aros nes iddynt gofrestru cyn gwneud hynny. O safbwynt nodi'n gynnar, mae hyn yn golygu bod oedi cyn sefydlu pa gymorth sydd ei angen ar bobl ifanc unigol, sy'n golygu ei bod yn bosibl na fydd cymorth pontio priodol ar gael tan ymhell i mewn i dymor yr hydref.

  Nododd cyfranogwr o awdurdod lleol:

  *"Rydym wedi cael anawsterau wrth gael data [am gyrchfannau] gan ysgolion mewn perthynas â disgyblion blwyddyn 11, 12 a 13 sy'n gadael yr ysgol. Nid yw'r Protocolau Rhannu Gwybodaeth wedi cael eu cymeradwyo felly nid yw'r data wedi dod drwodd atom ni ac mae'n rhaid i ni fynd ar ôl nifer mawr iawn o bobl ifanc ym mis Hydref heb gyrchfannau. Wedyn bydd gan weithwyr ieuenctid lwyth gwaith o*

*300 o bobl ifanc yn fy awdurdod lleol lle mae angen iddyn nhw fynd i guro ar ddrysau, am nad ydyn ni'n gwybod ble maen nhw.* (Cyfranogwr o awdurdod lleol)

Mae sylwadau gan gyfranogwyr eraill yn awgrymu nad oedd y math hwn o brofiad yn anghyffredin, ond nid oedd yn berthnasol i bawb a cheir enghreifftiau o arferion da.

Mae amrywiadau enfawr hefyd yn y dull a ddefnyddir i rannu data gan ysgolion unigol mewn rhai ardaloedd awdurdodau lleol. O ganlyniad, gall awdurdodau lleol gael data tameidiog iawn.

*Mae pob ysgol yn wahanol. Mae gennym saith ysgol uwchradd yn ein hardal a bydd rhai yn rhoi mynediad llawn i SIMS i ni, bydd rhai yn cyfyngu ar rai meysydd, a bydd eraill yn gwrthod yn llwyr."* (Cyfranogwr o awdurdod lleol)

At hynny, ni cheir un system ar gyfer casglu data ar ddisgyblion ysgol ledled Cymru ac adrodd arnynt. SIMS yw'r system a ddefnyddir fwyaf, ond ni chaiff ei defnyddio gan bawb.

- **Tynnodd cyfranogwyr o Gyrfa Cymru sylw at yr anawsterau a wynebir gan y sefydliad o ganlyniad i orfod gwneud trefniadau unigol ar gyfer rhannu data â phob un o'r 22 o awdurdodau lleol.** Awgrymwyd bod lefelau gwahanol o aeddfedrwydd yn y prosesau rhannu gwybodaeth ledled Cymru, gyda swyddogion data mewn rhai awdurdodau lleol yn cael trafferth i gyfleu manteision cytundebau rhannu data i'r rheini sy'n gyfrifol am eu cymeradwyo.
- **Mae'r ffaith y ceir sawl system data wahanol**, nid yn unig rhwng sefydliadau ond hefyd rhwng gwasanaethau gwahanol o fewn awdurdod lleol, yn creu amrywiaeth o faterion am nad yw setiau data yn gydnaws iawn â'i gilydd a gall fod yn anodd nodi a chyfateb data ar unigolion. Mae rhai awdurdodau lleol wrthi'n ystyried sut y gellir rhoi un system ar waith i fynd i'r afael â hyn.
- **Mewn rhai achosion, caiff plant sy'n derbyn gofal eu lleoli mewn awdurdod lleol o'r tu allan i'r ardal heb sicrhau bod y cynlluniau pontio angenrheidiol ar waith.** O ganlyniad, nid oes gwybodaeth am eu hanghenion ar gael i alluogi'r awdurdod lleol sy'n eu derbyn i gymryd y camau priodol i sicrhau eu bod yn cael eu lleoli mewn lleoliadau addysgol priodol a'u bod yn cael cymorth perthnasol arall.
- Gall **anawsterau godi pan na fydd sefydliadau partner wedi cael caniatâd i drafod pobl ifanc unigol** mewn cyfarfodydd amlasiantaethol.

#### 2.3.2 Cyfyngiadau data

Yn sgil trafodaeth am y materion a'r heriau ynghylch rhannu data, cafodd cyfranogwyr yn y gweithdai eu hannog i fyfyrio ar y mathau o ddata sy'n werthfawr yn y broses nodi'n gynnar. Y safbwynt cyffredinol oedd, er bod y wybodaeth y gellir ei chael o'r setiau data

sydd gan ysgolion a phartneriaid eraill yn bwysig, dim ond y cam cyntaf yw'r dangosyddion ar gyfer deall pa unigolion sydd mewn perygl a'r cymorth sydd ei angen arnynt. Mae angen i'r wybodaeth gael ei hehangu drwy farn broffesiynol a sgyrsiau manwl rhwng gweithwyr proffesiynol sy'n adnabod y bobl ifanc ac yn gwybod am eu hamgylchiadau.

> *Mae'r dangosyddion craidd hynny yn sbardun. Pan fyddwch chi'n siarad am bobl ifanc sydd mewn perygl o dynnu allan o systemau prif ffrwd, yn aml bydd nifer o amgylchiadau cymhleth yn gysylltiedig â'r unigolion hynny. Felly, maen nhw'n dda fel man cychwyn, ond mae sgwrs gyfoethog, amlasiantaethol yn allweddol i nodi'r math cywir o becynnau o gymorth. Pwy sydd â'r cydberthnasau gorau â'r bobl ifanc hynny? Pa ffactorau allai effeithio ar y bobl ifanc hynny? Rydych yn tueddu i nodi rhai o'r ffactorau allweddol ar gyfer pobl ifanc unigol pan gewch drafodaethau cyfoethog â thîm partneriaeth amlasiantaethol mewn modd cyson ac adeiladol, ar draws y cyfnod pontio.* (Cyfranogwr o awdurdod lleol)

Gan ategu'r pwynt hwn, disgrifiodd un cyfranogwr dystiolaeth o astudiaeth hydredol o Sir Benfro lle y canfuwyd na chafodd 40% o'r disgyblion a adawodd yr ysgol a aeth yn NEET yn 2018 eu nodi fel rhai mewn perygl mewn unrhyw set ddata.

Roedd cytundeb cyffredinol ymysg y cyfranogwyr mai'r hyn sy'n allweddol i sicrhau'r cydbwysedd a'r cymysgedd cywir o ddata a barn broffesiynol yw'r grwpiau amlasiantaethol a arweinir gan Gydlynwyr Ymgysylltu a Datblygu lle mae gweithwyr proffesiynol yn dadansoddi'r data gyda'i gilydd ac yna'n rhannu eu gwybodaeth a'u harbenigedd ehangach er mwyn llywio dealltwriaeth o statws risg pobl ifanc. Yn wir, **nododd sawl cyfranogwr mai'r deialog y mae'r Fframwaith wedi'i meithrin rhwng sefydliadau yw ei nodwedd fwyaf gwerthfawr.**

> *"Pan awn ati i geisio sicrhau bod prosesau rhannu gwybodaeth yn gliriach yn y Fframwaith newydd, mae angen i hynny gynnwys sefydliadau trydydd sector bach. Pan fyddwn wedi gweithio gyda llawer o bobl ifanc nad ydynt wedi bod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant ac nad ydym wedi gallu nodi ble y byddent ar y* Proffil Asesu Bregusrwydd, *a byddai cael y ddealltwriaeth honno yn ein galluogi i fynd at weithiwr arweiniol yr awdurdod lleol ac ystyried cydweithio ac edrych ar gynlluniau cymorth sydd ar waith er mwyn sicrhau na chaiff gwasanaethau eu dyblygu ac nad oes unrhyw beth yn amharu ar y cymorth a gaiff y person ifanc gan y ddau sefydliad."* (Cyfranogwr o'r Trydydd Sector)

### 2.4 Nodi'n gynnar

Mae'r Fframwaith yn cwmpasu pobl ifanc 11 i 25 oed. Gofynnwyd i'r rhanddeiliaid a ddylai Fframwaith diwygiedig ystyried nodi'n gynharach a beth fyddai manteision ac anfanteision dull o'r fath.

**Yn ddieithriad, mynegodd y cyfranogwyr gefnogaeth i nodi'n gynharach.** Gwnaethant ddadlau po gynharaf y caiff risg ei nodi ac y caiff cymorth priodol ei roi ar

waith, y mwyaf buddiol fydd hyn i'r person ifanc. Nodwyd sawl gwaith hefyd y dylid trin gwaith nodi'n gynnar fel proses barhaus sy'n digwydd mewn cyd-destun sy'n newid yn gyson. Byddai dechrau'n gynharach yn helpu i nodi anghenion yn gyflymach.

> *Mae cyfansoddiad y grŵp NEET yn newid dros amser a gall amgylchiadau unigolion newid unrhyw bryd, felly mae angen i'r broses nodi ddigwydd dro ar ôl tro.* (Cyfranogwr o Gyrfa Cymru)

**Cafwyd cytundeb y dylai'r broses nodi'n gynnar ddechrau yn yr ysgol gynradd, ym Mlwyddyn 5 neu 6.** Byddai hyn yn galluogi ymyriadau ataliol i gael eu gwneud yn gynt ac i gymorth gael ei roi ar waith dros y cyfnod pontio hanfodol o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd. Roedd y cyfranogwyr o'r farn bod y ffaith nad yw'r trefniadau presennol yn cwmpasu'r cyfnod pontio allweddol hwn yn wendid sylweddol. Awgrymwyd hefyd, am fod gweithgarwch y Fframwaith yn canolbwyntio ar y cyfnod addysg uwchradd, y gall ganolbwyntio ar gynlluniau pontio Blwyddyn 11 gan fethu nodi risg yn ddigon cynnar.

> *Mae angen nodi rhai o'r ffactorau risg allweddol ar gyfer pobl ifanc unigol ar draws y cyfnod pontio. Mae hynny'n golygu dechrau yn yr ysgol gynradd. Mae'n rhy hwyr eu nodi ym mlwyddyn 10 ac 11. Mae angen nodi'r materion hyn yn llawer cynharach, eu monitro a'u tracio, cyn iddynt ddechrau mynd yn argyfyngus erbyn blwyddyn 11 ac ni fydd gan y person ifanc gyrchfan ac mae gennych dri mis i fynd i'r afael â hynny cyn i'w addysg ffurfiol ddod i ben.* (Cyfranogwr o awdurdod lleol)

Cydnabu pob cyfranogwr fod gan **broses nodi'n gynnar oblygiadau o ran adnoddau**, gan y byddai angen ariannu'r seilwaith angenrheidiol.

- Byddai angen datblygu'r gweithlu nodi'n gynnar. Yn ogystal â nifer y staff, mae hyn hefyd yn golygu sicrhau bod y staff yn meddu ar y sgiliau i weithio gyda grwpiau iau. Nodwyd bod gan weithwyr ieuenctid mewn awdurdodau lleol y sgiliau a'r profiad o weithio gyda phobl ifanc 11-25 oed fel arfer, felly byddai angen adolygu'r cymysgedd a'r cydbwysedd o sgiliau yn y timau.

- Rhaid i'r gwasanaethau priodol fod ar waith i roi cymorth i bobl ifanc a'u teuluoedd / gofalwyr pan gaiff angen ei nodi. Codwyd rhywfaint o bryder y byddai disgwyl i ysgolion roi cymorth, ac o ganlyniad y byddai unigolion yn parhau i gael eu nodi fel rhai sydd mewn perygl.

Roedd rhai cyfranogwyr yn dadlau na fyddai'n briodol adolygu'r Fframwaith i gynnwys proses nodi'n gynharach heb fynd i'r afael hefyd â'r angen am gyllid ychwanegol. Fodd bynnag, er gwaethaf yr heriau o ran adnoddau, teimlwyd y byddai hyn yn newid gwerth chweil a fyddai'n cael ei groesawu.

Er mwyn pwysleisio buddiannau posibl nodi'n gynharach, tynnodd y cyfranogwyr sylw at amrywiaeth o enghreifftiau o arferion presennol lle caiff y dull hwn ei ddefnyddio eisoes.

- **Yn Abertawe, mae'r proffil asesu bregusrwydd wedi'i sefydlu'n dda.** Caiff ei ddefnyddio gyda phobl ifanc o oedran ysgol gynradd a chaiff ei dracio a'i ddiweddaru wrth i ddisgyblion symud drwy system yr ysgol. Y proffil yw sail y trafodaethau yn y cyfnodau pontio ac mae'n cefnogi'r broses o atgyfeirio at wasanaethau eraill hefyd. Pwysleisiodd cyfranogwyr oedd â phrofiad o'r proffil asesu bregusrwydd fod dangosyddion clir iawn fel arfer ar gam cynnar sy'n dangos bod angen ymyrraeth a chymorth, ac y byddai gadael hyn tan ychydig cyn y cyfnod pontio rhwng ysgolion yn rhy hwyr.

- **Yn Sir Fynwy, mae'r defnydd o'r dull nodi'n gynnar wedi'i ehangu i ddechrau ym Mlwyddyn 5.** Mae cynllun peilot yn mynd rhagddo i gefnogi'r cyfnod pontio o Flwyddyn 5/6 i'r ysgol uwchradd. Dangoswyd bod angen sylweddol yn y maes hwn, gan ddyblu nifer y bobl ifanc y nodir bod angen cymorth arnynt. Mae Covid-19 wedi cyflwyno heriau o ran rhoi'r broses hon ar waith, ond mae'r profiad hyd yma yn awgrymu, wrth weithio gyda grwpiau oedran iau, fod y cydberthnasau, y trafodaethau a barn broffesiynol hyd yn oed yn fwy hanfodol o ran y dull nodi'n gynnar.

- **Mae Rhaglen TRAC Cronfa Gymdeithasol Ewrop yn y gogledd** yn targedu pobl ifanc 11 i 24 oed. Mae'n defnyddio hyn fel cyfle i ddechrau gweithio gyda phobl ifanc ym Mlwyddyn 6, gyda'r nod o roi cymorth gwell yn y cyfnod pontio o Gyfnod Allweddol 2 i 3 i'r rheini y nodwyd eu bod mewn perygl. Mae'r rhaglen yn defnyddio dull nodi'n gynnar wedi'i addasu sy'n seiliedig ar y fethodoleg ar gyfer Blynyddoedd 7-11 ac mae “hysbys i'r gwasanaethau cymdeithasol” yn ddangosydd allweddol. Mae gweithwyr cymdeithasol yn y byd addysg wedi bod mewn sefyllfa dda i roi gwybodaeth yng nghyfarfodydd paneli atgyfeirio TRAC. Yr arwyddion cynnar yw bod mantais bendant i'r dull hwn o nodi'n gynharach.

  *Yn anecdotaidd, maent yn gweld pan fyddant yn symud drwy Gyfnod Allweddol 3, nad ydym o reidrwydd yn eu nodi fel rhan o'n cynnig TRAC craidd, neu pan fyddwn yn gwneud hynny, mai cymorth ysgafnach sydd ei angen arnyn nhw o gymharu â'u cyfoedion nad ydynt wedi cael yr ymgysylltiad hwnnw.*

  Byddai'r rhaglen yn hoffi gallu ymgysylltu â phobl ifanc yn gynharach ond nid yw'r meini prawf cyllid yn caniatáu hynny.

### 2.5 Defnyddio data nodi'n gynnar at ddibenion eraill

Gofynnwyd i randdeiliaid i ba raddau y maent yn credu y gellid defnyddio data nodi'n gynnar sy'n dangos pobl ifanc sydd mewn perygl o fod yn NEET i lywio dull nodi'n gynnar ar gyfer pobl ifanc sydd mewn perygl o fod yn ddigartref neu sydd mewn perygl o ddatblygu problemau iechyd meddwl.

**Roedd cyfranogwyr y gweithdai o'r farn, mewn egwyddor, y byddai dwyn data ynghyd o'r holl feysydd polisi hyn mewn modd effeithiol yn fuddiol iawn.** Roeddent

yn dadlau bod gorgyffwrdd clir rhwng y dangosyddion ar gyfer y perygl o fod yn NEET, bod yn ddigartref a datblygu anawsterau iechyd meddwl. Dywedwyd fod tystiolaeth anecdotaidd yn dod i'r amlwg sy'n awgrymu fod pob un o'r tri risg yn gysylltiedig gyda phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod ac y gallai ystyried hynny **fel rhan o set ehangach o ddangosyddion** helpu i gefnogi datblygu dadansoddiad mwy cynhwysfawr o'r heriau sy'n wynebu pobl ifanc yn eu bywydau. Awgrymodd y cyfranogwyr ei bod yn bosibl bod yr holl weithwyr proffesiynol a allai gefnogi'r broses hon yn lleol eisoes wedi'u nodi. O safbwynt y person ifanc unigol, teimlwyd y gallai dull mwy cydnaws neu integredig eu harbed rhag gorfod ailadrodd eu hanes ac y byddai'n arwain at gymorth mwy cydlynol.

Ynghyd â chefnogaeth gyffredinol i'r egwyddor o rannu data ar draws meysydd polisi, mynegodd y cyfranogwyr rywfaint o bryder ynghylch sut y byddai'n gweithio'n ymarferol. Yn bennaf gwnaethant nodi bod yr heriau o rannu data hyd yn oed o fewn y cyd-destun addysg a chyflogaeth yn sail dros amau pa mor effeithiol y gellid rhannu data yn ehangach. Disgrifiodd un cyfranogwr y mathau o fylchau sy'n bodoli ar hyn o bryd yn y system.

> *Pan gaiff teulu ei osod mewn llety dros dro gyda phobl ifanc ni chaiff ysgolion na'r gwasanaethau ieuenctid eu hysbysu, er bod y bobl ifanc hynny yn llawer mwy tebygol o fod yn ddigartref eu hunain yn y dyfodol. Nid oes llif o wybodaeth. Felly yn ogystal â'r posibilrwydd nad oes ganddyn nhw fynediad i Wi-Fi neu TG yn y llety hwnnw, efallai na fyddan nhw'n gallu cyrraedd yr ysgol. Nid oes llif o wybodaeth i'r ysgolion nac o'r ysgolion yn ôl i dîm digartrefedd yr awdurdod lleol er mwyn iddo allu gwneud unrhyw beth am y sefyllfa. Yn fy marn i, dylai fod dyletswydd ar adrannau tai i hysbysu ysgolion neu wasanaethau ieuenctid ynghylch lleoliad.* (Cyfranogwr o awdurdod lleol)

Nododd cyfranogwyr o awdurdodau lleol bwysigrwydd trefniadau gweithio effeithiol a chydweithredol gydag ysgolion uwchradd a cholegau. Tynnodd rhai cyfranogwyr sylw at eu cydberthnasau cryf ag ysgolion a bod hyn yn cynnwys proses barhaus o feithrin ymddiriedaeth a dealltwriaeth ar y cyd. Nododd y dystiolaeth nad oedd y cydberthnasau mor gryf â phob ysgol ac y gellid datblygu hyn ymhellach. Fodd bynnag, nodwyd hefyd fod anghenion iechyd meddwl neu anghenion tai yn codi pan oedd unigolion yn cyrraedd tua 21 oed, sy'n golygu mewn llawer o achosion na fydd data ysgol presennol yn bodoli er mwyn gallu triongli.

Nodwyd rhai mentrau a allai fod,yn ôl y cyfranogwyr, yn sail ddefnyddiol i gydlynu a defnyddio data yn well ar draws gwasanaethau sy'n rhan o'r dull nodi'n gynnar ar gyfer pobl ifanc sydd mewn perygl o gael canlyniadau gwael.

- Cyhoeddwyd **Fframwaith ar sefydlu dull ysgol gyfan ar gyfer lles emosiynol a meddyliol** ym mis Mawrth 2021. Bydd yn golygu y caiff swyddogion lles eu lleoli mewn ysgolion a ddylai gysylltu ag awdurdodau lleol, gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymorth eraill, ynghyd â phum arweinydd gweithredu yn y byrddau

iechyd lleol a fydd yn gweithredu fel cyswllt ag ysgolion a gwasanaethau eraill. Mae hyn yn rhan o ddull system gyfan sy'n cynnwys Rhaglen Law yn Llaw dros Blant a Phobl Ifanc sy'n cynnwys Fframwaith Help Cynnar a Chymorth Gwell. Nodwyd bod angen i'r Fframwaith gysylltu â'r Dull Ysgol Gyfan, er mwyn sicrhau nad ydynt yn datblygu fel prosesau dau lwybr.

- **Mae'r tîm Iechyd Meddwl a Lles a Digartrefedd Ymysg Pobl Ifanc mewn un awdurdod lleol** wedi dechrau gweithio ar draws yr adran dai a'r gwasanaethau cymdeithasol er mwyn rhannu gwybodaeth am bobl ifanc sy'n mynd yn ddigartref. Caiff y wybodaeth hon hefyd ei rhannu â'r cydgysylltydd NEET a all ei rhannu yng nghyfarfodydd adolygu ysgolion a chynnal sgyrsiau ag ysgolion i sicrhau eu bod yn ymwybodol o unrhyw faterion sy'n effeithio ar y person ifanc. Datblygwyd llwybr digartrefedd newydd â'r gwasanaeth ieuenctid a'r gwasanaethau cymdeithasol ac mae'r camau cyntaf o'i roi ar waith yn mynd rhagddynt.

- **Yn Rhondda Cynon Taf, mae'r awdurdod lleol wedi datblygu trefniadau rhannu data er mwyn galluogi prif bartneriaid i gydweithio ac mae bellach yn ystyried sut y gall weithio'n fwy effeithiol gyda'r gwasanaeth iechyd.** Cododd y diddordeb hwn wrth iddo ddatblygu system nodi'n gynnar o ran digartrefedd ac mae hyn wedi tynnu sylw at y ffaith bod cysylltiad cryf â ffactorau iechyd ac iechyd meddwl. Mae trafodaethau'n mynd rhagddynt â'r gwasanaeth iechyd ynghylch defnyddio'r rhif GIG fel y ddyfais adnabod allweddol i gysylltu'r systemau data gwahanol â'i gilydd. Mae materion llywodraethu wedi cael eu datrys ac mae cwestiynau technegol wrthi'n cael eu trafod.

- **Mae'r adnodd Upstream Cymru ar gyfer nodi'n gynnar y perygl o ddigartrefedd ymysg pobl ifanc yn cael ei dreialu mewn dau awdurdod lleol.** Disgrifiodd cyfranogwyr yn y gweithdai y ffordd y mae'r adnodd yn dechrau o safbwynt y person ifanc i ddatblygu naratif sy'n tynnu sylw at feysydd allweddol y mae gweithwyr proffesiynol yn eu cydnabod fel dangosyddion risg ar gyfer mynd yn ddigartref. Awgrymwyd y dylid datblygu'r Fframwaith i roi mwy o gyfle i'r bobl ifanc eu hunain gyfrannu at y data.

## 3. Broceriaeth

Ceisiwyd safbwyntiau rhanddeiliaid ynghylch y modd y mae gwaith brocera effeithiol yn cael ei wneud i sicrhau cymorth cydgysylltiedig i bobl ifanc sydd wedi ymddieithrio neu sydd mewn perygl o ymddieithrio o fyd addysg, hyfforddiant a chyflogaeth. Roedd y gweithdai'n canolbwyntio ar y tair agwedd ganlynol ar froceriaeth:

- Cydgysylltu cymorth;
- Rôl y gweithiwr arweiniol;
- Gwella ansawdd.

### 3.1 Cydgysylltu cymorth

Mae'r weledigaeth ar gyfer brocera a nodir yn y Fframwaith yn seiliedig ar sicrhau bod swyddogaethau'r cydlynydd ymgysylltu a datblygu a'r gweithiwr arweiniol yn cydweithio. Pwysleisiodd y rhanddeiliaid, yn ymarferol, **fod sicrhau cymorth effeithiol i bobl ifanc yn galw am i amrywiaeth eang o asiantaethau a sefydliadau gwahanol gydweithio**, yn cynnwys llywodraeth leol, Llywodraeth Cymru, ysgolion, darparwyr addysg a hyfforddiant, Gyrfa Cymru, y gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid, yr Adran Gwaith a Phensiynau a sefydliadau gwirfoddol a sefydliadau cymunedol. Gofynnwyd iddynt roi adborth ar ba mor effeithiol y caiff cymorth i bobl ifanc ei gydgysylltu, ac i nodi unrhyw rwystrau neu fylchau cydgysylltu y mae angen mynd i'r afael â nhw. Yn anochel, roedd y trafodaethau'n canolbwyntio'n bennaf ar nodi ac archwilio heriau cydgysylltu. Fodd bynnag, dylid nodi **bod rhai cyfranogwyr wedi tynnu sylw at agweddau ar gydgysylltu a weithiodd yn dda yn eu profiad nhw.** Er enghraifft:

- Nododd Cydlynydd Ymgysylltu a Datblygu broses effeithiol o gydgysylltu cymorth ar gyfer pobl ifanc cyn-16 ac ôl-16 oed. Gwnaethant briodoli hyn i'r cyfarfodydd cadw mewn cysylltiad misol a gynhelir ag ysgolion a thimau amlasiantaethol sy'n cynnwys Gyrfa Cymru a phartneriaid eraill.
- Nododd un cyfranogwr o awdurdod lleol fod y cyfarfodydd cadw mewn cysylltiad sy'n cynnwys Gyrfa Cymru, colegau a darparwyr eraill yn gweithio'n dda iawn.
- Nododd cyfranogwr arall o awdurdod lleol eu bod wedi gwneud cynnydd da o ran dwyn Cydlynwyr Ymgysylltu a Datblygu, gydlynwyr digartrefedd a phrif swyddogion ieuenctid ynghyd, er y byddent yn hoffi gwneud mwy. Cyflawnwyd hyn hyd yma drwy wahodd cynrychiolwyr mewn rolau eraill i ymuno mewn cyfarfodydd tîm er mwyn rhannu gwybodaeth ac arbenigedd.

Er hyn, ar y cyfan, roedd y cyfranogwyr o'r farn **bod arferion cydgysylltu effeithiol yn anghyson a bod gwahaniaethau mawr rhwng ardaloedd lleol.** Gwnaethant nodi nifer o heriau allweddol, a drafodir yn fanylach isod.

### 3.1.1 Rhannu data

Cafwyd cytundeb cyffredinol mai effeithiolrwydd systemau a phrosesau rhannu data yw'r prif ffactor o ran penderfynu pa mor effeithiol y caiff cymorth ei gydgysylltu. Codwyd hyn yn gyson ac fe'i trafodwyd yn helaeth yn y pedwar gweithdy. Cododd y cyfranogwyr faterion a heriau o ran rhannu data a oedd yn adlewyrchu'r rheini a grynhowyd eisoes yn adran 1.3 uchod. Gwnaethant bwysleisio mai bylchau a gwendidau yn y trefniadau rhannu data oedd y prif rwystr i froceriaeth effeithiol.

> *"Y prif rwystr rydyn ni'n ei wynebu yw gallu rhannu gwybodaeth mor effeithiol ag y byddem yn ei hoffi. Rydych chi am allu cynnig y cymorth i'r bobl ifanc cyn gynted â phosibl, oherwydd os byddant yn syrthio drwy'r bwlch, bydd yn anoddach ailgysylltu â nhw. Y broblem yw, erbyn i ni gael y wybodaeth ac yna'r wybodaeth gyswllt, bydd sawl wythnos neu fis wedi mynd heibio a bydd yn anoddach ailgysylltu â nhw i drafod unrhyw beth o sylwedd."* (Cyfranogwr o awdurdod lleol)

Nododd cyfranogwr o'r Trydydd Sector sy'n gweithio mewn sefydliad sy'n cefnogi cadernid meddwl pobl ifanc fod y gwaith o gyflwyno prosiect partneriaeth â byrddau iechyd lleol wedi cael ei ohirio gan nad oedd trefniadau rhannu data ar waith. Bwriadwyd i'r prosiect gael ei gynnal am dri mis o fis Ionawr i fis Mawrth 2021 ond hyd yma ni lwyddwyd i gael unrhyw atgyfeiriadau gan nad yw'r problemau o ran rhannu data wedi cael eu datrys. Dylid nodi nad oedd y prosiect hwn yn rhan o'r Fframwaith, ond, er hyn, mae'n dangos rhai o'r heriau ehangach o ran rhannu data.

Fel y nodwyd eisoes, mae goblygiadau o ran adnoddau pan fydd gwybodaeth gyswllt ar goll ar gyfer pobl ifanc unigol. Er bod y rhesymau dros ddata anghyflawn wedi'u hamlinellu eisoes, nododd y cyfranogwyr fod hyn yn rhwystro eu hymdrechion i nodi anghenion cymorth pobl ifanc a mynd i'r afael â nhw.

> *"Mae'r ffaith nad oes gennym unrhyw ffordd o wybod ble mae'r bobl ifanc hyn yn creu her a bwlch enfawr i ni o ran brocera. Mae'r gweithwyr ieuenctid, sy'n gwneud y gwaith yn haen un a haen dau i ni yn bennaf, yn gorfod troi'n ymchwilwyr."* (Cyfranogwr o awdurdod lleol)

Er nad yw hyn yn gyffredin efallai, mynegwyd rhywfaint o rwystredigaeth mewn rhai ardaloedd, nad yw'r manylion cyswllt yn cael eu diweddaru ar y system, hyd yn oed pan fydd y manylion cyswllt cywir wedi'u canfod.

> *"Mae llawer iawn o waith yn cael ei wneud gan weithwyr arweiniol, lle caiff y wybodaeth ei throsglwyddo mewn cyfarfodydd amlasiantaethol a'i rhoi ar daenlen, ac yna bydd y wybodaeth a gawn y mis canlynol yn anghywir neu ar goll."* (Cyfranogwr o awdurdod lleol)

Ar y cyfan, roedd y sylwadau'n dangos bod pobl yn cytuno bod angen ym mhob rhan o'r system i wella ansawdd y data a'r prosesau rhannu data yn fwy cyffredinol, yn ogystal â rôl bwysig Gyrfa Cymru fel rhan o'r broses hon.

### 3.1.2 Cwmpas a ffocws y Fframwaith

Tynnodd y cyfranogwyr sylw at ddau fater yn ymwneud â chwmpas a ffocws strategol y Fframwaith lle roeddent yn credu y gellid gwneud mwy a fyddai'n helpu i gydgysylltu data ar lawr gwlad.

- Nododd y cyfranogwyr fod angen cysoni meysydd polisi gwahanol yn well yn strategol, ac yn benodol rhwng y Fframwaith a gwaith ieuenctid arall a ddarperir. Nodwyd nad oedd digon o drafod yn digwydd rhyngddynt. Teimlwyd bod y diffyg cysondeb yn broblem gyffredinol, ond bod y gwahaniaethau yn arbennig o amlwg pan na fydd y Fframwaith yn cael ei gynnwys mewn gwasanaethau ieuenctid mewn awdurdod lleol

- Nid yw'r Fframwaith yn cydnabod y sector gwaith ieuenctid gwirfoddol nac yn ymgysylltu ag ef yn ddigonol. Gellid gwneud mwy i nodi sut y gallai fod yn haws brocera yn y cymorth mwy arbenigol y gallai rhai sefydliadau Trydydd Sector ei gynnig, heb roi'r her iddynt o ymgymryd â chwmpas cyfan rôl gweithiwr arweiniol. Nododd un cyfranogwr o'r Trydydd Sector:

  *"Ceir teimlad cyffredinol bod y sector gwirfoddol yn edrych o'r tu allan am i mewn ar y Fframwaith yn hytrach na bod yn rhan o'r Fframwaith ei hun."* (Cyfranogwr o'r Trydydd Sector)

  Awgrymwyd y byddai'n fuddiol cael prosesau cydweithio agosach rhwng Cydlynwyr Ymgysylltu a Datblygu a rhai o arweinwyr y sector gwaith ieuenctid gwirfoddol. Teimlwyd bod hyn yn arbennig o bwysig am fod llawer o'r cymorth a roddir drwy'r Sector Cymunedol Gwirfoddol yn seiliedig ar gyllid byrdymor a all beri risg o fylchau mewn rhywfaint o ddarpariaeth a dyblygu gwaith mewn meysydd eraill. Disgrifiodd un cyfranogwr o awdurdod lleol ei fod yn cynnal cyfarfodydd anffurfiol er mwyn dwyn ynghyd yr amrywiaeth o sefydliadau o'r Sector Cymunedol Gwirfoddol sy'n gweithio gyda phobl ifanc.

Er mai dim ond mewn un gweithdy y codwyd pob un o'r pwyntiau hyn, roedd y cyfranogwyr eraill yn cytuno â nhw ar y cyfan yn y sesiynau hynny.

### 3.1.3. Adnoddau a gallu

Nododd y cyfranogwyr yr heriau canlynol o ran adnoddau a all effeithio ar waith cydgysylltu effeithiol.

- **Heriau gallu presennol mewn gwasanaethau ieuenctid awdurdodau lleol:** Nododd y cyfranogwyr fod hyn eisoes yn wir cyn y pandemig a'i fod yn fwy acíwt

oherwydd anghenion cymorth cynyddol pobl ifanc sydd wedi ymgysylltu o ganlyniad i'r cyfyngiadau symud.

- **Mae gorddibyniaeth ar gyllid byrdymor i roi cymorth i bobl ifanc,** fel rhywfaint o'r cymorth a ddarperir drwy'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid a thrwy brosiectau Cronfa Gymdeithasol Ewrop. Mae gwasanaethau'n mynd yn ymatebol gan nad yw'r cyllid yn annog gweithio yn y tymor hwy gyda phobl ifanc i ddatblygu eu cadernid. Mae amserlenni gwahanol prosiectau unigol yn ychwanegu at yr heriau o ran cydgysylltu. Mynegodd y cyfranogwyr bryderon penodol ynghylch y ffaith bod cyllid Cronfa Gymdeithasol Ewrop yn dod i ben.

  *“Mae'r gwaith cydgysylltu braidd yn glogyrnaidd. Rydyn ni'n defnyddio ein harian Ewropeaidd tan fis Mai ... Mae'n sefyllfa anodd iawn ar ôl Covid-19 a cheisio cael pobl ifanc i fanteisio ar ba gyfleoedd bynnag sydd ar gael yn y byd lletygarwch er enghraifft, ac nad oes staff ar gael i wneud y gwaith ymgysylltu ac ysgogi hwnnw.”* (Cyfranogwr o'r awdurdod lleol)

### 3.1.4 Bylchau mewn perthynas ag oedrannau / cyfnodau

Gofynnwyd i'r rhanddeiliaid a oes bylchau yn y gwaith cydgysylltu cymorth i bobl ifanc mewn perthynas ag oedrannau / cyfnodau. Gwnaeth pob gweithdy gytuno yn gyffredinol mai'r cyfnodau pontio allweddol ôl-16 ac ôl-18 yw'r rhai sy'n peri'r problemau mwyaf o ran cydgysylltu.

Mewn perthynas â **chyfnodau pontio ôl-16,** nododd y cyfranogwyr fod y gwaith o drosglwyddo data yn effeithiol yn hanfodol ar y cam hwn er mwyn galluogi'r bobl ifanc i symud rhwng sefydliadau, systemau a llifau cyllid a sicrhau bod y bobl ifanc y nodwyd bod angen cymorth arnynt yn parhau i gael ymyriadau priodol. Nododd cyfranogwr o wasanaeth ieuenctid awdurdod lleol:

> *“Yr her fwyaf rydym yn ei hwynebu yw pan fyddan nhw'n gadael yr ysgol. Mae honno'n broblem sydd gennym yn yr awdurdod lleol lle na chaiff y data cyrchfannau eu cyfathrebu'n effeithiol am nad yw'r [gwasanaeth ieuenctid] yn rhan o'r byd addysg. Mae hynny'n rhywbeth rydyn ni wedi bod yn gweithio arno, er mwyn ceisio gwella'r wybodaeth a gawn yn ôl fel y gallwn weithredu cyn gynted â phosibl.”* (Cyfranogwr o awdurdod lleol)

Awgrymwyd bod yr heriau o ran rhannu data a'r heriau cydgysylltu ehangach ar y cam hwn yn adlewyrchu cyd-destunau a diwylliannau gwahanol y byd addysg a hyfforddiant sy'n bodoli cyn ac ar ôl 16 oed.

> *“Pan fydd person ifanc yn cyrraedd 16 oed, bydd yn symud o addysg statudol lle ceir ymdeimlad bod pawb yn yr un cwch, a phawb yn cydweithio i gefnogi'r dysgwyr sydd mewn perygl. Yn sydyn, pan fydd yn gadael yr ysgol yn 16 oed, bydd yn symud i farchnad gystadleuol lle ceir partneriaid gwahanol sy'n cystadlu ar gyfer y dysgwyr*

*hyn. Mae'r holl weithgarwch yn denu cyllid ychwanegol i'r partneriaid hynny, ac ar adegau bydd yr elfen gystadleuol honno yn colli'r ethos a'r gwerthoedd craidd sy'n sail i'r hyn rydyn ni'n ceisio ei gyflawni gyda'n gilydd drwy'r Fframwaith."* (Cyfranogwr o awdurdod lleol)

Mae hyn yn adlewyrchu'r sylw a gafwyd gan gyfranogwr o goleg AB a awgrymodd fod y gystadleuaeth rhwng colegau a chweched dosbarth mewn ysgolion yn amharu ar y gwaith cydgysylltu effeithiol ar y cam hwn.

Mynegodd sawl cyfranogwr o awdurdodau lleol bryderon fod y pandemig wedi ychwanegu at yr anawsterau o ran cefnogi pobl drwy'r cyfnod pontio hwn. Mae'r diffyg cyfleoedd i gysylltu wyneb yn wyneb wedi golygu ei bod yn anodd iawn meithrin cydberthnasau â phobl ifanc 16 i 17 oed sydd newydd gael eu hatgyfeirio i gael cymorth a dim ond rhannol lwyddiannus fu'r ymgais i ddefnyddio dulliau digidol amgen.

*"Yr her fwyaf yn y cyfnod ôl-16 yw cysylltu yn ystod y pandemig. O ran y broses gychwynnol honno o frocera cydberthynas i gydweithio â nhw, mae'n arbennig o anodd ar atgyfeiriadau oer, lle nad yw'r person ifanc wedi bod yn cydweithio â neb o'r blaen neu lle mae wedi ymddieithrio ers cryn amser."* (Cyfranogwr o awdurdod lleol)

Awgrymodd y cyfranogwyr hefyd ei bod yn debygol na fydd rhai pobl ifanc ym Mlwyddyn 11 sydd wedi ymddieithrio dros flwyddyn y cyfyngiadau symud yn dychwelyd i'r ysgol ar ôl gwyliau'r Pasg.

Ar gyfer gwaith gyda **phobl ifanc 18+ oed,** nododd y cyfranogwyr fod y bylchau o ran cydgysylltu yn codi oherwydd yr anawsterau wrth gael data gan yr Adran Gwaith a Phensiynau / y Ganolfan Byd Gwaith, nad oes gan y Fframwaith lawer o ddylanwad drostynt.

*"Yn y cyfnod ôl-18 y ceir y bwlch mwyaf. Nid ydym yn cael gwybodaeth yn yr un ffordd. Mae'r prosesau'n edrych yn wahanol iawn, ynghyd â'r gwasanaethau a'r cymorth. Yn y cyfnod ôl-18, dydyn ni ddim hyd yn oed yn gwybod pwy yw hanner y bobl ifanc sydd angen cymorth oherwydd y rhwystrau o ran rhannu data."* (Cyfranogwr o awdurdod lleol)

Nodwyd sawl enghraifft o ffyrdd y mae awdurdodau lleol wedi datblygu ffyrdd newydd o weithio er mwyn mynd i'r afael â'r mater hwn, ac mae'n amlwg o'r trafodaethau bod diddordeb i archwilio'r rhain ymhellach. Er enghraifft, disgrifiodd un cyfranogwr y modd y mae gweithwyr ieuenctid wedi'u cydleoli mewn Canolfannau Gwaith am un neu ddau ddiwrnod yr wythnos. Mae staff y Ganolfan Byd Gwaith yn rheoli eu dyddiaduron ac yn trefnu apwyntiadau ar gyfer pobl ifanc sydd angen cymorth i weld gweithiwr ieuenctid. Mae'r broses atgyfeirio hon yn cynnig ffordd o ddatrys problemau rhannu data a nodwyd ei bod yn wych. Nododd y cyfranogwyr hefyd fod argaeledd cyllid Cronfa Gymdeithasol Ewrop i gefnogi pobl ifanc hyd at 24 oed wedi helpu i ryddhau rhai o'r sianelau o weithio

gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau. Er enghraifft, mae gweithwyr arweiniol Cronfa Gymdeithasol Ewrop wedi darparu capasiti ychwanegol i gefnogi'r nifer cynyddol o oedolion ifanc sy'n hawlio Credyd Cynhwysol. Cadarnhaodd adborth gan gyfranogwr o'r Adran Gwaith a Phensiynau bwysigrwydd y gydberthynas hon:

> *"Rydyn ni wedi gweld effaith enfawr ar bobl ifanc ers y pandemig. Rydyn ni'n dibynnu'n llwyr ar y darparwyr a ariennir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop i weithio gyda'n pobl ifanc 18-24 oed. Fydden ni ddim yn gallu gwneud y gwaith heb hyn."* (Cyfranogwr o'r Adran Gwaith a Phensiynau)

Lleisiodd y cyfranogwyr bryder, pan fydd y llif cyllid yn dod i ben, y bydd hyn yn tanseilio'r gwaith y mae Cydlynwyr Ymgysylltu a Datblygu wedi ei wneud i geisio ymgysylltu â'r Adran Gwaith a Phensiynau ac y bydd yn golygu y bydd angen cwtogi'r cymorth sydd ar gael i grwpiau oedran iau.

### 2.1.5 Grwpiau sydd mewn perygl

Gofynnwyd i'r cyfranogwyr a oes unrhyw fylchau yn y cymorth cydgysylltiedig a ddarperir i grwpiau penodol o bobl ifanc. **Ran amlaf o lawer, ac ym mhob gweithdy, y grŵp a drafodwyd fwyaf oedd pobl ifanc oedd yn cael addysg ddewisol yn y cartref.** Roedd y pwyntiau a wnaed yn adlewyrchu'r rheini a grynhowyd yn adran 1.2.2 uchod i raddau helaeth.

**Y grŵp arall a grybwyllwyd sawl gwaith yn y gweithdai lle mae bwlch o ran cydgysylltu cymorth yw graddedigion,** yn benodol raddedigion diweddar sydd wedi dychwelyd i gartref eu rheini ac sy'n aros yno oherwydd y pandemig.

> *"Rydyn ni wedi gweld llawer o raddedigion yn dod i mewn. Byddech chi'n synnu faint sy'n dod i mewn o'r brifysgol ac sy'n methu dod o hyd i swydd. Maen nhw'n cael llawer o help gan y gwasanaeth gyrfaoedd yn eu prifysgol, ond oherwydd y pandemig, maen nhw wedi gorfod gohirio'r hyn maen nhw am ei wneud. Felly mae bwlch bach yno." (Cyfranogwr o'r Adran Gwaith a Phensiynau)*

Pwysleisiwyd bod graddedigion yn garfan na fyddai'n defnyddio'r gwasanaethau hyn dan amgylchiadau arferol. Mae ganddynt anghenion gwahanol i'r rheini y mae gwasanaethau cymorth i bobl ifanc yn cydweithio â nhw fel arfer, ac mae bylchau yn sgiliau'r staff i ddarparu cymorth priodol. Er enghraifft, gall sgiliau i reoli disgwyliadau fod yn bwysig. Nododd cyfranogwyr o'r Adran Gwaith a Phensiynau eu bod yn cefnogi llawer o raddedigion cymwys i wneud cais am swyddi gwag Kickstart.

Yn dilyn y drafodaeth am anghenion cymorth graddedigion a phobl ifanc sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref, gwnaeth rhai o'r cyfranogwyr fyfyrio ar y ffaith bod y pandemig wedi golygu bod grwpiau newydd wedi dod i'r amlwg fel y rhai sydd angen cymorth ychwanegol fwyaf ac sydd mewn perygl o fod yn NEET, ac nid yw'r strwythurau wedi bod ar waith o reidrwydd i weithio gyda nhw. Nododd un cyfranogwr o awdurdod lleol fod y grwpiau sydd

fwyaf tebygol o fod mewn perygl fel arfer, fel pobl ifanc sydd yng ngofal y gwasanaethau cymdeithasol neu'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid, wedi cael cysylltiad statudol o leiaf y maent wedi llwyddo i gynnal rhyw lefel o ymgysylltu drwyddo dros y flwyddyn ddiwethaf.

## 3.2 Rôl y Gweithiwr Arweiniol

### 3.2.1 Neilltuo Gweithwyr Arweiniol

Gweithwyr Arweiniol yw unigolion a enwir sy'n gyfrifol am gadw mewn cysylltiad â phobl ifanc sydd mewn perygl o fod yn NEET ac sy'n brocera cymorth priodol ar eu cyfer. Mae disgwyl i'r broses o neilltuo Gweithwyr Arweiniol ar gyfer pobl ifanc ddechrau ym Mlynyddoedd 10 ac 11. Ar gyfer pobl ifanc dan 16 oed, daw Gweithwyr Arweiniol yn bennaf o'r gwasanaeth ieuenctid, ac ar gyfer pobl ifanc dros 16 oed, bydd amrywiaeth o sefydliadau'n ymgymryd â'r rôl, yn dibynnu ble y lleolwyd y person ifanc ym model pum haen Gyrfa Cymru.

Gofynnwyd i'r rhanddeiliaid pa heriau a wynebir wrth neilltuo Gweithwyr Arweiniol. Mae'n werth egluro y cafodd y cwestiwn hwn ei ddehongli i olygu neilltuo sefydliadau i ymgymryd â swyddogaeth Gweithwyr Arweiniol, nid Gweithwyr Arweiniol unigol. Nododd y cyfranogwyr fod hyn yn adlewyrchu'r hyn sy'n digwydd ar lawr gwlad yn well. Gan esbonio'r dull, nododd cyfranogwr o awdurdod lleol:

> *"Mae'n fwy o asiantaeth arweiniol na Gweithiwr Arweiniol yn ein maes ni."*

a disgrifiodd y modd maent wedi cymryd y cysyniad o Weithiwr Arweiniol ac wedi rhannu'r rôl rhwng asiantaethau partner yn cynnwys y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid, y gwasanaeth ieuenctid a'r Sector Cymunedol Gwirfoddol. Yna, mae'r sefydliadau hyn yn gyfrifol am roi cymorth drwy swyddogaeth y Gweithiwr Arweiniol ar gyfer pobl ifanc sydd o fewn eu cylch gwaith, a chaiff y gwaith ei gydlynu drwy gyfarfodydd amlasiantaethol. Gan ddefnyddio dull llwyth achosion, bydd yr asiantaethau atebol wedyn yn neilltuo mentor neu weithiwr cymorth i bob person ifanc i feithrin cydberthynas a chyflawni rôl y Gweithiwr Arweiniol.

Mewn sefyllfaoedd lle mae **trefniadau cymorth statudol ar waith** - er enghraifft, ar gyfer pobl ifanc sydd mewn cysylltiad â'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid neu'r gwasanaethau cymdeithasol - bydd y darlun yn gymharol syml gan mai'r gwasanaeth hwnnw sy'n darparu eu Gweithiwr Arweiniol. Fel arall, mae'r adborth yn nodi, **yn enwedig yn y cyd-destun ôl-16 oed, y gall fod elfen gref o gyd-drafod yn lleol wrth benderfynu pa sefydliad fydd yn cyflawni swyddogaeth y Gweithiwr Arweiniol.** Nododd un cyfranogwr fod y broses hon yn heriol yn lleol. Roedd y cyfranogwyr yn cytuno'n gyffredinol fod cyfarfodydd amlasiantaethol ôl-16 yn hanfodol er mwyn sicrhau bod yr asiantaeth gywir yn cyflawni rôl y Gweithiwr arweiniol, ac y dylai Cydlynwyr Ymgysylltu a Datblygu eirioli ar ran y person ifanc er mwyn sicrhau bod y cymorth cywir ar gael.

**Nodwyd mai problemau wrth gyflawni rôl y Gweithiwr Arweiniol o ran gallu ac adnoddau oedd y prif rwystr i neilltuo'n effeithiol.** Pwysleisiodd y cyfranogwyr dro ar ôl tro lefel uchel a chynyddol yr angen a maint yr her o safbwynt gallu. Cytunwyd bod y darlun a ddisgrifiwyd gan gyfranogwr o un awdurdod lleol yn gymharol nodweddiadol:

> *"Dangosodd ffigurau mis Mawrth fod gennym 102 o bobl ifanc yn haen 2, 16-17 oed. Mae 71 ohonynt yn cael eu cefnogi gan y tîm ôl-16, sy'n dangos faint rydym yn ei fuddsoddi yn y gwaith hwnnw fel gwasanaeth a her hyn o ran adnoddau a gallu. Ac mae'r rhan fwyaf o'r bobl ifanc hynny yn wynebu heriau sylweddol. Mae llawer o'r rheini yn haen 2 wedi bod yno ers mwy na 90 diwrnod, ac rydym yn dal i gael llif cyson o atgyfeiriadau newydd bob mis." (Cyfranogwr o awdurdod lleol)*

Nododd sawl cyfranogwr o awdurdod lleol, yn ystod y pandemig, eu bod wedi gallu adleoli staff o waith ieuenctid cyffredinol i ddarparu capasiti ychwanegol gan fod hynny wedi'i atal dros dro, ond nid yw hyn yn ddatrysiad hirdymor.

Awgrymodd y cyfranogwyr **y byddai rhai sefydliadau mewn sefyllfa dda i ymgymryd â swyddogaeth y Gweithiwr Arweiniol gan fod carfanau penodol o bobl ifanc yn amharod i gyflawni'r rôl.** Gwnaethant nodi bod cyfle da i sefydliadau yn y sector gwirfoddol gael eu neilltuo'n ffurfiol fel Gweithwyr Arweiniol pan fydd eu staff eisoes wedi meithrin cydberthnasau llawn ymddiriedaeth â phobl ifanc, er enghraifft fel gweithwyr cymorth mewn prosiectau tai â chymorth.

> *"Mae angen annog yr unigolion hynny i ymgymryd â'r rôl fel y person canolog ym mywyd y person ifanc hwnnw. Mae angen iddynt ystyried mai nhw yw'r gweithiwr arweiniol, a bod y gweddill ohonon ni'n rhoi help a chefnogaeth i wneud hynny. Mae angen i ni ddod at ein gilydd yn amlach a chael y sgyrsiau hynny."* (Cyfranogwr o awdurdod lleol)

Roedd ymdeimlad cyffredinol y gall fod yn heriol ymgysylltu â sefydliadau lle na chaiff hyn ei ategu gan gyfrifoldeb statudol. Fodd bynnag, cydnabu'r cyfranogwyr hefyd ei **bod yn anodd disgwyl i sefydliadau ymgymryd â rôl y Gweithiwr Arweiniol heb gael cyllid ychwanegol i'w helpu.** Mewn awdurdodau lleol, mae swyddogaeth y Gweithiwr Arweiniol wedi golygu bod angen i staff presennol wneud mwy fel rhan o'u rôl. Awgrymodd rhai cyfranogwyr fod penderfyniadau yn aml yn seiliedig ar adnoddau yn hytrach na pha asiantaeth yw'r un orau i roi cymorth i berson ifanc unigol. Defnyddiwyd cyllid Cronfa Gymdeithasol Ewrop i hwyluso'r gwaith o ymgysylltu ag asiantaethau allanol, ond eto, mae'r ffaith bod y cyllid hwnnw'n dod i ben yn codi cwestiynau ynghylch beth fydd yn digwydd yn y dyfodol. Ochr yn ochr â hyn, roedd rhai cyfranogwyr o'r farn, **heb linellau atebolrwydd clir i gefnogi'r broses o neilltuo Gweithwyr Arweiniol ar draws sefydliadau, ei bod yn well cadw'r rôl o fewn yr awdurdod lleol.**

> *"Ar gyfer gweithwyr arweiniol ôl-16, mae'r holl bobl y gallaf droi atyn nhw yn gyflogeion awdurdod lleol. Byddai'n wych gallu neilltuo gweithwyr arweiniol o'r trydydd sector. Yr her yw os bydda i'n neilltuo gweithiwr o'r awdurdod lleol, y gallaf*

*ei ddwyn i gyfrif yn llawer haws na phe byddai'n aelod o staff a gyflogir rywle arall. Mae disgrifiad swydd gweithiwr arweiniol yn ddi-ben-draw, ac mae'n anodd disgwyl i sefydliadau eraill ymgymryd â hynny." (Cyfranogwr o awdurdod lleol)*

Mewn perthynas â materion yn ymwneud â gallu ac adnoddau, nododd y cyfranogwyr hefyd **fod targedau sefydliadol yn effeithio ar y broses o neilltuo rôl y Gweithiwr Allweddol.** Gyrfa Cymru yw'r asiantaeth arweiniol sy'n darparu Gweithwyr Arweiniol ar gyfer pobl ifanc yn haen 3. Nododd cyfranogwr o Gyrfa Cymru, er nad nhw yw'r sefydliad gorau i roi'r cymorth hwnnw ar waith bob tro, bod eu contract yn eu hannog i beidio â neilltuo'r rôl i rywun arall:

*"Efallai fod y person ifanc eisoes yn gweithio gyda sefydliad arall ar ei sgiliau cyflogadwyedd a bod pethau'n mynd yn dda iawn. Fydden ni ddim am amharu ar y gydberthynas honno, ond mae'n anodd. Mae gennym Ddangosyddion Perfformiad Allweddol sy'n golygu bod yn rhaid i bawb gael eu symud i addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth o fewn 90 diwrnod a bydd cwestiynau'n cael eu gofyn os na fydd hynny'n digwydd. Felly allwn ni ddim gofyn i bartneriaid eraill weithio tuag at ein nodau ni."* (Cyfranogwr o Gyrfa Cymru)

Nodwyd bod sefydliadau yn aml yn awyddus i weithio gyda phobl ifanc os ydynt wedi'u lleoli yn haen 3 ac felly eu bod yn gymharol agos at y farchnad lafur yn nhyb y sefydliadau hynny.

Gofynnwyd i'r cyfranogwyr hefyd a yw Gweithwyr Arweiniol yn gallu diwallu anghenion byrdymor pobl ifanc a rhoi cymorth i adeiladu cadernid tymor hwy. **Cafwyd cytundeb nad yw cyllid byrdymor a phwysau targedau i symud pobl ifanc ymlaen cyn gynted â phosibl yn annog ffocws ar adeiladu cadernid hirdymor.** Roedd y cyfranogwyr yn dadlau bod y pandemig wedi cynyddu'r angen am gymorth gyda chadernid yn sylweddol, gyda niferoedd cynyddol o bobl ifanc yn cael anawsterau iechyd meddwl.

### 3.3 Gwella ansawdd

Gofynnwyd i'r cyfranogwyr beth y gellid ei wneud i atgyfnerthu'r diwylliant gwella yn y llinyn Brocera. Er mwyn rhoi cyd-destun i'w hymatebion, nododd sawl cyfranogwr fod gan sefydliadau partner ddiwylliannau hunanwella a phrosesau ar waith i gefnogi hyn, ac mae gwaith y Fframwaith yn cyd-fynd â hynny. Dylid nodi na neilltuwyd llawer o amser i drafod y cwestiynau ynghylch gwella ansawdd yn y gweithdai.

**Y farn gyffredinol oedd bod y model pum haen yn rhoi mesur cul a chyfyngedig o lwyddiant, am nad yw'n cydnabod cynnydd o fewn haen.** Er enghraifft, gall person ifanc yn haen 2 fod allan o addysg a hyfforddiant o hyd ond efallai ei fod wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran ei iechyd meddwl neu gadernid personol. Er y gellir cofnodi ac adolygu'r amrywiadau hyn o fewn haenau drwy brosesau fel cyfarfodydd cadw mewn cysylltiad amlasiantaethol, byddai'n ddefnyddiol cael ffordd fwy cyson o gydnabod cynnydd o fewn haenau. Er nad oedd y cyfranogwyr am weld rhagor o haenau yn cael eu creu,

gwnaethant awgrymu y gallai is-gategorïau o fewn haenau fod yn ddefnyddiol i nodi lefelau gwahanol o ymgysylltiad, er enghraifft.

Yn yr un modd, cytunodd y cyfranogwyr **nad yw'n ddigon i ddefnyddio dim ond nifer y bobl ifanc sy'n NEET ar ôl Blwyddyn 11 i fesur canlyniadau.** Roedd sawl cyfranogwr yn dadlau y dylid nodi'r nifer “anhysbys” (haen 1) hefyd.

**Cafwyd cefnogaeth gyffredinol i brosesau mwy cyson o rannu arferion da rhwng ardaloedd lleol.** Ar hyn o bryd, mae'r adborth yn awgrymu bod y broses o rannu arferion da o ran y Fframwaith yn tueddu i ddigwydd o ganlyniad i'r ffaith bod pobl yn cwrdd, yn ystyried ac yn gofyn cwestiynau, yn hytrach nag unrhyw broses ffurfiol (er y cyfeiriad at y ffaith bod mwy o rwydweithio cenedlaethol wedi digwydd yn ystod y pandemig, wedi'i hwyluso gan gyfarfodydd ar-lein). Soniodd sawl cyfranogwr yn benodol am y broses o rannu data a'r broses o ddatblygu protocolau rhannu gwybodaeth fel pynciau y byddent yn hoffi gweld enghreifftiau o arferion effeithiol yn cael eu datblygu a'u rhannu ar eu cyfer. Nodwyd hefyd y bydd bron pob prosiect Cronfa Gymdeithasol Ewrop sy'n gysylltiedig â'r Fframwaith yn cael ei werthuso a fydd yn creu llawer o enghreifftiau o arferion da a'r hyn sydd wedi gweithio'n dda a gyhoeddir dros y flwyddyn nesaf. Pwysleisiodd y cyfranogwyr y bydd yn bwysig sicrhau bod y canfyddiadau'n cael eu rhannu mewn modd systemataidd a'u bod yn llywio'r hyn fydd yn digwydd nesaf ar lefel weithredol.

Pwysleisiodd cyfranogwyr o awdurdodau lleol fod **ymgysylltu â phobl ifanc wrth ddylunio a darparu gwasanaeth yn ganolog i'w ffordd o weithio.**

> *“Mae cyfranogiad yn rhan annatod o waith ieuenctid a fydden ni ddim yn ceisio gwneud unrhyw beth heb gynnwys pobl ifanc fel ein cwsmeriaid wrth ddylunio'r gwasanaeth. Mae ceisio rhoi rhywbeth iddyn nhw nad ydyn nhw ei eisiau yn golygu bod y gwaith ymgysylltu ddwywaith mor anodd. Mae egwyddorion a dibenion gwaith ieuenctid yng Nghymru yn sail i'n gwaith.”* (Cyfranogwr o awdurdod lleol)

> *“Rydyn ni'n wasanaeth ieuenctid ac mae cyfranogiad pobl ifanc yn allweddol.”* (Cyfranogwr o awdurdod lleol)

Nododd cyfranogwyr o awdurdodau lleol amrywiaeth o enghreifftiau i ddangos yr ymrwymiad hwn:

- Mae gan wasanaethau cymorth ieuenctid Nodau Ansawdd efydd, arian ac aur ar gyfer cynnwys pobl ifanc yn y gwaith o gasglu eu dymuniadau ynghylch y ffordd y caiff y gwasanaeth ei redeg.
- Caiff darpariaeth newydd ei chyflwyno am gyfnod prawf fel y gall pobl ifanc roi cynnig arni a rhoi adborth i hwyluso'r broses gyflwyno derfynol.
- Mae pobl ifanc yn rhan o'r broses o gyfweld staff newydd.

- Gwneir mwy o ymdrech i gynnwys pobl ifanc o'r grŵp addysg heblaw yn yr ysgol mewn unrhyw ymgyngoriadau a fforymau perthnasol i ddeall yr heriau a wynebir ganddynt wrth ddysgu.
- Cynhelir arolygon o bobl ifanc er mwyn deall eu diddordebau a'u dyheadau.
- Mae fforymau ieuenctid yn cwrdd i drafod a rhoi adborth ar bynciau gwahanol.
- Fodd bynnag, cydnabuwyd bod dulliau cyfranogol fel arfer yn tueddu i gynnwys y rheini sydd wedi ymgysylltu ac sy'n edrych fel straeon llwyddiant, ac mae'n her barhaus i gyrraedd pobl ifanc sydd wedi'u hallgáu yn fwy.

## 4. Cyflogadwyedd a darpariaeth

Mae'r Fframwaith yn cynnwys nodau allweddol i sicrhau bod mwy o bobl ifanc yn symud i gyflogaeth fedrus. Ei nod yw atgyfnerthu ymgysylltiad cyflogwyr a datblygu darpariaeth sy'n hyrwyddo sgiliau cyflogadwyedd. Mae darparwyr a phartneriaid yn gweithio drwy'r Fframwaith i wella'r arlwy i bobl ifanc drwy fapio darpariaeth a datblygu cyfleoedd newydd sy'n mynd i'r afael ag anghenion sydd heb eu diwallu. Mae'r ddarpariaeth dan sylw yn cynnwys yr hyn a geir mewn ysgolion, colegau a gan ddarparwyr hyfforddiant eraill ac mae'n cwmpasu cyrsiau a chymwysterau fel TGAU, Safon Uwch, BTEC ac NVQ, rhaglenni yn y gwaith yn cynnwys Prentisiaethau, rhaglenni cyflogadwyedd fel Hyfforddeiaethau, a chyngor ac arweiniad manwl ar gyflogadwyedd gan Cymru'n Gweithio.

Gofynnwyd i randdeiliaid roi adborth ar yr agweddau canlynol ar gyflogadwyedd a darpariaeth:

- Bylchau yn y ddarpariaeth bresennol.
- Goblygiadau colli cyllid Cronfa Gymdeithasol Ewrop.
- Yr arlwy i bobl ifanc sy'n NEET.
- Ymgysylltu â chyflogwyr.
- Gwybodaeth, cyngor ac arweiniad.
- Gwersi a ddysgwyd o ran darpariaeth o'r pandemig.

### 4.1 Bylchau yn y ddarpariaeth bresennol

Roedd rhan helaeth o'r trafodaethau yn y gweithdai yn canolbwyntio ar nodi bylchau yn y ddarpariaeth bresennol. Cafwyd cytundeb cyffredinol ymysg cyfranogwyr o bob math o sefydliad a gynrychiolir ar y meysydd allweddol o anghenion heb eu diwallu a phwysigrwydd mynd i'r afael â'r rhain er mwyn gwella canlyniadau i bobl ifanc.

#### 4.1.1 Iechyd meddwl a lles

Nododd y cyfranogwyr **fod bwlch cynyddol mewn perthynas â darpariaeth sy'n cefnogi pobl ifanc sydd ag anawsterau iechyd meddwl ysgafn i gymedrol i ymgysylltu ag addysg a hyfforddiant.** Cytunwyd yn gyffredinol fod y pandemig wedi bod yn ffactor pwysig o ran y cynnydd yn y niferoedd sydd ag iechyd meddwl gwael. Mae'r adborth yn awgrymu bod yr angen am fwy o gymorth gydag iechyd meddwl yn gymwys ar draws yr ystod oedran.

> *“Ar ôl y pandemig, mae mwy na £100 miliwn yn cael ei sianelu drwy ysgolion heb unrhyw arweiniad penodol ynghylch sut y dylid ei ddefnyddio. Mae'r angen mwyaf o ran iechyd meddwl a lles emosiynol ac mae'n rhaid i'r model newid er mwyn mynd i'r afael â hynny. Mae llawer o ysgolion yn awyddus i recriwtio mwy o athrawon i*

*ddarparu mwy o addysg lle dylen ni fod yn ystyried anghenion eraill – lles, meithrin hyder, mwynhau'r ysgol eto."* (Cyfranogwr o awdurdod lleol)

*"Bydd llawer o'r canghennau o gymorth iechyd meddwl ar gyfer pobl ifanc yn dod i ben pan fyddwch chi'n gadael yr ysgol. Dydych chi ddim mewn cysylltiad rheolaidd â seicolegwyr addysgol, cwnselwyr mewn ysgolion, gweithwyr ieuenctid mewn ysgolion. Felly rydyn ni'n gweld bod pobl ifanc ôl-16 yn ei chael hi'n anodd dod o hyd i bobl sy'n hawdd mynd atynt a fydd yn eu helpu gyda'u hiechyd meddwl cyn iddynt gyrraedd lefel argyfyngus."* (Cyfranogwr o awdurdod lleol)

*"Rwyf wedi sylwi ar y broblem iechyd meddwl yn fy llwyth achosion. Mae'n enfawr. Mae gan y mwyafrif o'r bobl ifanc a welwn ryw fath o orbryder, iselder, straen. Gallai hyn fod o ganlyniad i flwyddyn o gyfyngiadau symud a bod hynny wedi effeithio'n fawr ar gyflwr meddwl pobl ifanc. Mae bwlch. Rwy'n gweld eu bod yn cael trafferth dod o hyd i wasanaethau cwnsela oni fydd ganddyn nhw broblem iechyd meddwl eithafol. Os yw'n broblem iechyd meddwl eithafol, yna mae'r tîm iechyd meddwl cymunedol yn wych. Ond fel arall, does dim ar gael iddyn nhw."* (Cyfranogwr o'r Adran Gwaith a Phensiynau)

Disgrifiodd y cyfranogwyr y ffordd maent wedi defnyddio'r Grant Cymorth Ieuenctid a chyllid Cronfa Gymdeithasol Ewrop i bontio rhywfaint o'r bylchau, a nodwyd bod colli Cronfa Gymdeithasol Ewrop yn golygu y disgwylir y bydd mwy o anghenion heb eu diwallu. Mae llawer o'r anghenion hyn yn cael eu diwallu drwy gyllid a ddarperir i gefnogi darpariaeth iechyd meddwl mewn AB, yn cynnwys buddsoddiad ychwanegol a ddarparwyd yn ystod y pandemig. Roedd y cyfranogwyr hefyd yn cytuno bod y cynnydd presennol mewn anghenion cymorth o ran iechyd meddwl a lles yn ymwneud â mwy na dim ond tlodi. Gwnaethant bwysleisio y gellid colli llawer o bobl ifanc y gall fod angen cymorth arnynt drwy dargedu ardaloedd difreintiedig.

### 4.1.2 Darpariaeth ymarferol, galwedigaethol ac yn seiliedig ar waith

Nododd y cyfranogwyr fod **bwlch sylweddol yn bodoli ar gyfer darpariaeth sy'n cynnig cyfleoedd ar gyfer dysgu ymarferol, galwedigaethol ac yn seiliedig ar waith i bobl ifanc nad yw ysgolion prif ffrwd a darpariaeth coleg yn addas iddynt.** Gwnaethant bwysleisio na all rhai pobl ifanc ymdopi ag amgylcheddau ysgolion a cholegau, am eu bod yn fawr, yn codi ofn arnynt ac yn canolbwyntio ar arddull dysgu academaidd nad yw'n adlewyrchu eu diddordebau a'u galluoedd. Gwnaed pwynt penodol ynghylch argaeledd darpariaeth i bobl ifanc ag anhawster dysgu a'r angen dybryd i'w cefnogi ar gyfnodau pontio penodol.

Clywyd barn gref fod angen amrywiaeth eang o opsiynau er mwyn galluogi pobl ifanc i ymgysylltu neu ail-ymgysylltu, yn cynnwys prentisiaethau ar gyfer pobl ifanc.

*"Rydyn ni'n ceisio cyflawni rhywbeth amhosibl. Does gennyn ni ddim darpariaeth amgen i'r bobl ifanc hynny sydd wedi ymddieithrio. Yn fy marn i, mae angen*

*rhywbeth nad yw'n seiliedig ar gwricwlwm yr ysgol, ond sy'n fwy ymarferol. Mae'n ymddangos bod obsesiwn llwyr â cheisio cael plant i ddysgu mewn ffordd benodol. I lawer o'r rheini nad ydyn nhw'n academaidd ac sydd wedi ymddieithrio ers peth amser, byddai sesiynau blasu ymarferol yn opsiwn gwell. Mae'n amser i roi cynnig ar rywbeth newydd."* (Cyfranogwr o Wasanaeth Troseddau Ieuenctid)

Roedd hyn yn adlewyrchu safbwyntiau nifer o gyfranogwyr (bod angen darpariaeth amgen ar gyfer rhai pobl ifanc oedd wedi ymddieithrio) ond efallai ei fod hefyd yn tynnu sylw at y gwaith sydd ei angen i godi ymwybyddiaeth o ddarpariaeth sy'n bodoli ar hyn o bryd (er enghraifft, caiff darpariaeth blasu alwedigaethol ei chynnig mewn AB a thrwy Hyfforddeiaethau).

Yn benodol i'r rheini sydd wedi ymddieithrio fwyaf neu sy'n wynebu'r risg fwyaf o ymddieithrio, gall dulliau amgen fel gallu rhoi cynnig ar bethau mewn sesiynau blasu heb ymrwymo'n llwyr a dysgu mewn lleoliadau grŵp bach fod yn hanfodol i'w helpu i aros ym myd addysg.

*"Ceir bwlch mewn darpariaeth ar gyfer pobl ifanc â gallu isel, sgiliau isel a phroblemau ymddygiad. Mae'r amgylchiadau cyn 16 oed ac ar ôl 16 oed yn wahanol iawn. Efallai eu bod nhw'n dod o UCDau er enghraifft, a gall fod yn heriol iawn iddyn nhw gael eu lleoli mewn coleg gydag ystafelloedd dosbarth mawr ac amserlenni. Yn flaenorol yn yr awdurdod lleol, roedd Canolfannau Adnoddau yn llwyddiannus iawn ar gyfer y garfan honno o bobl ifanc oedd yn dechrau arbrofi â sgiliau dysgu a'r crefftau drwy gael sesiynau blasu mewn grwpiau llai oedd yn cynnig cymorth uniongyrchol. Mae hynny'n un peth sydd wir ar goll yn ein hardal leol."* (Cyfranogwr o awdurdod lleol)

Dylid nodi bod Hyfforddeiaethau a rhywfaint o ddarpariaeth cyflogaeth â chymorth yn cynnig rhywfaint o'r cymorth y mae rhai cyfranogwyr wedi gofyn amdano, a allai adlewyrchu bylchau mewn dealltwriaeth, gwybodaeth a llwybrau hygyrch.

Nodwyd sawl gwaith **bod gan ddarparwyr hyfforddiant annibynnol gryfderau wrth gynnig cyfleoedd fel hyn i bobl ifanc sy'n agored i niwed ac y dylent chwarae mwy o ran yn y Fframwaith.** Mynegwyd y farn hon gan Ddarparwyr Hyfforddiant Annibynnol (ITP) ac eraill. Cafwyd cytundeb cyffredinol nad oes digon yn cael ei wneud i hyrwyddo dysgu seiliedig ar waith i bobl ifanc a sicrhau ei fod ar gael ac yn hygyrch i bobl ifanc 14 a throsodd. Awgrymodd y cyfranogwyr bod y graddau y mae ysgolion yn darparu gwybodaeth am ddysgu seiliedig ar waith fel opsiwn yn amrywio cryn dipyn. Disgrifiodd un cyfranogwr ITP yr anawsterau a gafodd wrth gyrraedd pobl ifanc 14 a 15 oed ac ymgysylltu â nhw am fod ysgolion yn aml yn eu hannog i symud i'w chweched dosbarth eu hunain neu i goleg. Pwysleisiodd y cyfranogwyr fod amlygrwydd ac argaeledd cyfyngedig darpariaeth dysgu seiliedig ar waith sy'n fwy ymarferol ar y cam hwn yn addysg pobl ifanc yn peri pryder penodol gan ei fod yn hysbys mai dyna'r adeg y bydd y rheini sydd mewn perygl o ymddieithrio yn fwy tebygol o wneud hynny.

Yn ogystal â thynnu sylw at faint y bwlch hwn, nododd y cyfranogwyr enghreifftiau o arferion effeithiol. Yn y ddau weithdy, trafodwyd y **rhaglen Prentisiaeth Iau** yn fanwl ac roedd sawl cyfranogwr yn rhan o'r broses o gyflwyno'r ddarpariaeth hon. Mae'n cynnig dysgu seiliedig ar sgiliau mewn grwpiau bach wedi'i strwythuro o amgylch meysydd galwedigaethol megis adeiladu, moduro a gofal plant, gan barhau i gefnogi pobl ifanc i weithio tuag at TGAU Mathemateg a Saesneg. Mae'r rhaglen wedi'i thargedu at bobl ifanc ym Mlwyddyn 10 a Blwyddyn 11 sydd mewn perygl o fod yn NEET a'i nod yw cynnal eu diddordeb a'u hannog i barhau i ddysgu a dilyn llwybr tuag at gyflogaeth. Er mai mewn colegau y darperir hyn, caiff y bobl ifanc eu rhoi mewn “swigod” bach. Maent yn mynychu am bum diwrnod yr wythnos am hyd at ddwy flynedd. Nododd un cyfranogwr fod ei gyfradd cynnydd yn 97% ar gyfer y garfan o 82 o ddysgwyr ar y rhaglen y llynedd. Nodwyd enghreifftiau eraill o ddarpariaeth hyblyg wedi'i theilwra i hyrwyddo ymgysylltiad, yn cynnwys gweithdai galwedigaethol a chyrsiau chwaraeon. Nododd sawl cyfranogwr, er bod yr enghreifftiau hyn yn llwyddiannus, mai dim ond cyfraniad bach a wnânt o gymharu â maint yr angen. Nodwyd hefyd **nad yw'r math hwn o ddarpariaeth yn aml ar gael i bobl ifanc mewn ardaloedd gwledig oherwydd y diffyg trafnidiaeth.**[4] Nodwyd hefyd fod hygyrchedd o ran trafnidiaeth i bobl ifanc yn broblem fawr a bod hyn yn amlygu ymhellach yr anghydraddoldeb o ran mynediad i ddarpariaeth.

#### 4.1.3 Entrepreneuriaeth a hunangyflogaeth

Nododd y cyfranogwyr **bod bwlch mewn cymorth i bobl ifanc mewn perthynas ag entrepreneuriaeth a hunangyflogaeth.** Cafwyd ymdeimlad cyffredinol o'r gweithdai nad yw'r Fframwaith yn adlewyrchu potensial y llwybrau hyn fel ffyrdd i mewn i waith i rai pobl ifanc ar hyn o bryd. Awgrymwyd, er bod cydnabyddiaeth gynyddol ymysg asiantaethau sydd mewn cysylltiad â phobl ifanc y gall hyn fod yn opsiwn deniadol ac ymarferol, nad ymdrinnir ag ef fel mater o drefn mewn cymorth cyflogadwyedd. Pwysleisiodd cyfranogwyr sy'n cynrychioli sefydliadau sy'n cefnogi pobl ifanc o ran entrepreneuriaeth a hunangyflogaeth mai'r rhain yw'r prif fathau o gyflogaeth mewn sectorau fel diwydiannau creadigol. Cafwyd cydnabyddiaeth yn y drafodaeth â chyfranogwyr y byddai cyflwyno Cwricwlwm i Gymru (yn benodol gan ganolbwyntio ar ddatblygu ‘cyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith’ yn helpu yn yr hirdymor) yn ddatblygiad pwysig yn y cyd-destun hwn.

Ochr yn ochr â hyn, mae'n werth sylwi ar ymrwymiad Llywodraeth newydd Cymru (a wnaed ar ôl i'r grwpiau rhanddeiliaid gael eu cynnal) i Warant newydd i Bobl Ifanc. Yn

[4] Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n gweithio ar gynllun ar gyfer bysiau yng Nghymru a fydd yn datblygu Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2021, Llwybr Newydd. Bydd y broses hon yn cynnwys y cyfle i randdeiliaid gyfrannu eu safbwyntiau fel rhan o'r broses ymgynghori.

ogystal â ffocws ar sicrhau mynediad i addysg, cyflogaeth a hyfforddiant, bydd y warant hefyd yn cynnwys cynnig mynediad i hunangyflogaeth.

Cydnabuwyd y gall hunangyflogaeth fod yn llwybr gyrfa heriol, ac y bydd angen cymorth penodol i ddatblygu hunanhyder a chadernid ymysg pobl ifanc. Mae angen i ymarferwyr allu nodi pobl ifanc sydd â'r diddordeb a'r doniau i ymgymryd â hunangyflogaeth a'u cefnogi i feithrin yr hyder a'r creadigrwydd i gredu y gallent ddechrau eu busnes eu hunain, yn cynnwys drwy eu cysylltu â sefydliadau cymorth fel y Prince's Trust a Syniadau Mawr Cymru. Tynnodd y cyfranogwyr sylw at bwysigrwydd amseru ymyriadau pan fydd pobl ifanc rhwng 14 ac 16 oed yn paratoi i adael yr ysgol a chymryd eu camau nesaf, fel nad yw hunangyflogaeth ond yn cael ei godi mewn modd ymatebol pan na all person ifanc ddod o hyd i swydd yn dilyn hynny. Fodd bynnag, teimlwyd yn gyffredinol y gellid gwneud mwy mewn ysgolion i gefnogi hunangyflogaeth. Nododd cyfranogwr o Gyrfa Cymru eu bod yn trafod hunangyflogaeth â chleientiaid wrth roi arweiniad gyrfaoedd a rhoddodd awdurdodau lleol enghreifftiau o waith maent yn ei wneud gyda Gyrfa Cymru a Syniadau Mawr Cymru i roi gwybodaeth a chyngor i bobl ifanc.

#### 4.1.4 Cymorth â chyfnodau pontio

Gan adeiladu ar y pwyntiau yn adran 4.1.2 sy'n ymwneud yn fras â'r cyfnod pontio o amgylch Blwyddyn 11, mae adborth arall yn cadarnhau **bod bylchau mewn darpariaeth yn aml yn gysylltiedig â'r angen am gymorth ar draws cyfnodau pontio allweddol.**

Nodwyd yn gyffredinol bod **y cyfnod pontio o Flwyddyn 6 i Flwyddyn 7** yn gyfnod lle byddai ehangu cymorth pontio yn sicrhau bod pobl ifanc sydd mewn perygl o ymddieithrio yn symud i'r ysgol uwchradd. Nododd cyfranogwr o awdurdod lleol fod eu gweithwyr ieuenctid mewn ysgolion bellach yn cefnogi pobl ifanc o ddiwedd Blwyddyn 6 hyd at ddiwedd Hydref yn lle Medi, am eu bod yn cydnabod bod rhai pobl ifanc yn ymddieithrio yn ystod eu hwythnosau cyntaf yn yr ysgol uwchradd. Mae hyn yn cyflwyno heriau o ran gallu yn y system gyfan am fod ysgolion am i'r gweithwyr ieuenctid weithio yno, ond nodwyd y bu'r dull newydd yn hanfodol wrth leihau nifer y bobl ifanc a oedd yn mynd yn NEET yn y cyfnod pontio hwn.

**Nododd y cyfranogwyr y gall cyfnodau pontio ôl-16 fod yn heriol.** Awgrymwyd bod pobl ifanc sydd mewn perygl o ymddieithrio yn aml yn gwneud hynny pan fyddant yn cyrraedd tua 14 i 15 oed. Nododd Cydlynydd Ymgysylltu a Datblygu fod ei goleg lleol wedi dweud nad yw llawer o bobl ifanc sy'n dod o'r ysgol yn barod am gyrsiau AB llawn amser a bod angen help arnynt i gymryd y cam pontio hwnnw. Mae cyrsiau paratoi byr chwe wythnos o hyd yn cael eu datblygu er mwyn ceisio cau'r bwlch hwn.

**Nodwyd yn gyson bod y cyfnod pontio ôl-18 yn faes lle ceir anghenion sylweddol a lle ceir bylchau ar hyn o bryd.** Awgrymwyd bod mynediad i wasanaethau ar sail oedran yn y bôn yn gweithio yn erbyn anghenion y bobl ifanc sydd wedi ymddieithrio fwyaf, a bod hyn yn fwyaf amlwg ymhlith pobl ifanc 18 oed a mwy. Roedd y cyfranogwyr yn cytuno'n gyffredinol bod y ffaith bod cymorth gan wasanaethau awdurdod lleol allweddol ar gyfer

materion fel iechyd meddwl a thai yn dod i ben yn golygu mwy o risg o lawer y bydd person ifanc yn mynd yn NEET.

> *"Gall y cyfnod pontio hwnnw fod yn gymharol niweidiol oherwydd y dosbarthiad oedran. Mae'n rhwystr mawr."* (Cyfranogwr o awdurdod lleol)

Gwnaethant nodi na roddir digon o sylw i amgylchiadau ehangach unigolion, er enghraifft, eu datblygiad emosiynol, eu sgiliau bywyd, eu profiadau a'u cefndir, a diffyg mynediad cyson i ddarpariaeth i'r rheini y mae eu hamgylchiadau'n golygu bod angen cymorth arnynt o hyd.

**Tynnwyd sylw at y ffaith bod yr her o rannu gwybodaeth â'r Adran Gwaith a Phensiynau hefyd yn rhwystr penodol i ddarparu cymorth i bobl ifanc dros 18 oed.** Er i'r cyfranogwyr nodi eu bod yn deall pam roedd cyfyngiadau ar waith ar gyfer rhannu data, gwnaethant gyfleu eu rhwystredigaeth ynghylch effaith GDPR ar eu gallu i weithio'n effeithiol yn eu barn nhw. Disgrifiodd cyfranogwr o'r Adran Gwaith a Phensiynau bod elfen newydd o daith cwsmeriaid yn cael ei chyflwyno ledled Cymru sy'n sicrhau y gellir rhannu rhywfaint o ddata drwy gael caniatâd yn uniongyrchol gan gwsmeriaid. Caiff pobl ifanc sy'n hawlio Credyd Cynhwysol eu hatgyfeirio at Cymru'n Gweithio i gael asesiad manwl o anghenion a chynlluniau gweithredu, a chaiff y wybodaeth a gaiff ei meithrin drwy'r broses hon ei rhannu gan y person ifanc â'i hyfforddwr gwaith sydd wedyn yn gallu gweld pa gymorth sydd ei angen.

**Tynnwyd sylw yn y gweithdai at y bwlch mewn cymorth ar gyfer y cyfnod pontio i gyflogaeth.** Cyfeiriodd y cyfranogwyr yn arbennig at yr angen i gael mwy o ddarpariaeth cymorth yn y gwaith. Awgrymwyd y dylai darpariaeth sy'n cefnogi pobl ifanc i gael gwaith eu 'dilyn' fel nad ydynt yn cael eu 'gadael' gyda chyflogwr, a'u bod yn cael help o ffynhonnell ddibynadwy yn ystod y cam hanfodol hwn. Disgrifiodd un cyfranogwr gynlluniau sydd wrthi'n cael eu datblygu i gynnig cymorth hyfforddiant mewn swydd ymarferol, wedi'i bersonoli, yn cynnwys elfen cymorth yn y gwaith, i bobl ifanc ar raglenni cyflogadwyedd lleol eraill. Cafwyd cytundeb cyffredinol eang hefyd yn un o'r trafodaethau **bod angen mwy o gymorth parhaus i helpu pobl ifanc i ddatblygu yn y gwaith.** Nododd y cyfranogwyr fod llawer o bobl ifanc mewn gwaith anniogel ar gyflog isel, sy'n gorgyffwrdd â'r risgiau ynghylch digartrefedd ac iechyd meddwl.

> *"Mae bwlch yno. Rydyn ni'n meddwl ei bod yn wych pan fyddant yn cael gwaith ac y gallwn orffwys ar ein rhwyfau, ond mewn gwirionedd mae angen ceisio sicrhau bod pobl yn datblygu fel y gallant gael mwy o waith diogel yn y dyfodol."* (Cyfranogwr o'r awdurdod lleol)

**4.1.5 Tynnodd sawl cyfranogwr sylw at y dystiolaeth gynyddol o'r angen am fwy o gymorth i fynd i'r afael â digartrefedd ymysg pobl ifanc.** Gwnaethant nodi bod digartrefedd ymysg pobl ifanc wedi ailymddangos yn ystod y pandemig. Nododd un cyfranogwr o awdurdod lleol eu bod wedi ailsefydlu'r is-grŵp digartrefedd ymysg pobl ifanc

ar gyfer eu partneriaeth yn y Fframwaith a'u bod yn ystyried y modd y gall partneriaid gydweithio i ddatblygu ymyriadau addas.

> *“Adnabod y bobl ifanc sy'n wynebu hynny. Allwn ni ddim datrys y broblem yn gyflym. Felly rydyn ni wedi dechrau ailedrych ar y data rydyn ni'n eu defnyddio, a gofyn ai dyna'r data cywir. O'n safbwynt ni, mae'r llwybr i bobl ifanc sy'n dod drwy ddysgu a chymorth i mewn i hyfforddiant yn gymharol gadarn, ac nid yw hynny'n wir am gyflogaeth, felly mae'n broblem o hyd. Mae gwybodaeth am y farchnad lafur yn bwysig iawn, ynghyd â gwybodaeth am y bobl ifanc sy'n dod drwodd. Beth allwn ni ei gael gan yr Adran Gwaith a Phensiynau, i'n helpu i ddod o hyd i gyfleoedd i bobl ifanc yn yr ardal leol a sicrhau eu bod yn barod amdani?”* (Cyfranogwr o'r awdurdod lleol)

Nododd y cyfranogwyr, mewn marchnad lafur gystadleuol, fod pobl ifanc â lefelau isel o sgiliau a chymwysterau yn cael eu dadleoli'n gyflym o'r swyddi lefel mynediad y buont yn dibynnu arnynt i gymryd y cam cyntaf i mewn i waith. Nodwyd bod yr angen i gefnogi'r broses o uwchsgilio'r grŵp hwn a'u helpu i ddatblygu hefyd yn flaenoriaeth.

> *Mae'r farchnad lafur yn mynd yn llawer anoddach i'r rheini ar y gwaelod o ran cymwysterau a sgiliau.”* (Cyfranogwr ITP).

### 4.2 Colli cyllid Cronfa Gymdeithasol Ewrop

Gofynnwyd i'r cyfranogwyr sut y bydd angen i'r Fframwaith addasu i'r newidiadau o ganlyniad i golli cyllid Cronfa Gymdeithasol Ewrop. Ni wnaeth y trafodaethau cymharol fyr arwain at unrhyw gynigion ar gyfer atebion i'r heriau. Yn hytrach roeddent yn dueddol o ganolbwyntio ar y ddarpariaeth sydd mewn perygl o gael ei cholli.

**Yn y gweithdai, heb eithriad, mynegodd y cyfranogwyr bryder dwys ynghylch yr effaith a gaiff y newid ar wasanaethau, oni chaiff cyllid amgen ei sicrhau.** Y farn unfrydol oedd y bydd yr effaith yn enfawr ac y gall llawer o'r ddarpariaeth allweddol sy'n gweithio gyda phobl ifanc sydd â'r angen mwyaf am gymorth ddiflannu. Pwysleisiodd y cyfranogwyr fod gwaith Cronfa Gymdeithasol Ewrop yn aml yn cynnig ymyriadau ataliol, gan dracio a chefnogi pobl ifanc wrth iddynt fynd i gyrchfannau, ac yn ariannu rhai o'r ymarferwyr allweddol sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda phobl ifanc. Gwnaethant roi sawl enghraifft o waith Cronfa Gymdeithasol Ewrop y disgrifiwyd ei fod yn hanfodol ar gyfer y Fframwaith. Er enghraifft, mae prosiect TRAC yn y gogledd yn ariannu naw gweithiwr lles ar hyn o bryd, un ym mhob ysgol uwchradd yn y rhanbarth a thri mewn lleoliadau UCD. Hefyd, caiff cwnselwyr a leolir mewn ysgolion eu hariannu drwy TRAC ac maent yn ategu'r ddarpariaeth a gyflwynir drwy wasanaethau cwnsela awdurdodau lleol. Nodwyd bod gan wasanaeth cwnsela'r awdurdod lleol 70 i 80 o bobl ifanc ar ei restr aros fel arfer, ac os byddant yn gymwys ar gyfer TRAC, y gellir eu gweld drwy'r llwybr hwnnw ar hyn o bryd.

> *“Bydd yn golled enfawr pan ddaw'r cyllid i ben. Rydym yn rhan hanfodol o'r awdurdod lleol, ac rydym yn fwy na phrosiect erbyn hyn. Mae'r ysgolion wedi dweud eu hunain*

*nad ydynt yn siŵr mwyach beth fydd yn digwydd pan ddaw TRAC i ben."* (Cyfranogwr o awdurdod lleol)

Caiff y neges gyffredinol o'r adborth ar golli Cronfa Gymdeithasol Ewrop ei chrynhoi yn sylwadau cyfranogwr o awdurdod lleol:

*"Mae Cronfa Gymdeithasol Ewrop yn rhan bwysig o'r gwaith o gefnogi pobl ifanc 11 i 25 oed sy'n wynebu rhwystrau oherwydd gorbryder, iechyd meddwl, hyder, yr holl ffordd i rwystrau sylweddol fel y ffaith nad ydynt mewn lleoliadau addysgol prif ffrwd. Rwy'n dychmygu y bydd yn effeithio ar y ffigurau NEET ar gyfer pob awdurdod lleol."* (Cyfranogwr o awdurdod lleol)

### 4.3 Yr arlwy i bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant

Trafododd y cyfranogwyr yr hyn y gellid ei wneud i sicrhau bod arlwy realistig a phriodol yn bodoli ar gyfer pobl ifanc sy'n NEET. Yn gyffredinol, gwnaethant gyfeirio'n ôl at yr angen i fynd i'r afael â'r rhwystrau yn y ddarpariaeth a nodwyd eisoes yn y gweithdai. Gwnaed y pwyntiau allweddol canlynol.

**Mae angen mwy o ddarpariaeth Hyfforddeiaethau i wella cyfleoedd, dewis a mynediad.** Roedd y cyfranogwyr yn y gweithdai'n cytuno bod y ffordd y mae cyllid ar gyfer Hyfforddeiaethau wedi'i ddyrannu yn golygu bod llai o ddarparwyr yn cael eu cynnwys bellach ac o ganlyniad mai prin iawn yw'r dewis yn lleol. Codwyd pryderon penodol ynghylch y diffyg cymorth i bobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol. Nodwyd nad yw llawer o ddarparwyr ar hyn o bryd yn cynnig cymorth anghenion dysgu ychwanegol, a'u bod, i bob pwrpas yn gweithredu proses recriwtio ddewisol sy'n eithrio dysgwyr y nodwyd eu bod yn wynebu rhwystrau sylweddol i ddatblygu. Esboniodd cyfranogwr ITP y mae ei sefydliad yn cynnig Hyfforddeiaethau a chymorth anghenion dysgu ychwanegol, gan fod darparwyr yn cael eu mesur yn erbyn targedau ar gyfer datblygu a symud i gyflogaeth, os na fyddant yn cynnig y gwasanaeth hwn, y byddant, yn anochel, yn amharod i dderbyn dysgwyr y mae perygl na fyddant yn datblygu. Tynnwyd sylw at yr anawsterau y mae dysgwyr mewn ardaloedd gwledig yn eu hwynebu wrth gael gafael ar ddarpariaeth hefyd.[5]

**Nodwyd bod y diwylliant targedu yn fwy cyffredinol yn broblem.** Nododd y cyfranogwyr fod hyn yn golygu nad yw rhaglenni'n ymateb yn ddigonol i anghenion rhai o'r bobl ifanc sy'n wynebu'r risg fwyaf o ymddieithrio y mae'r Fframwaith wedi'i ddylunio i'w cefnogi, er y nodwyd y dylai newidiadau i'r meini prawf ar gyfer TSC+Mwy helpu i fynd i'r afael ag angen pobl ifanc am gymorth ychwanegol. Efallai na all pobl ifanc gael gafael ar raglenni, neu eu bod yn cael eu tynnu oddi arnynt, oherwydd yr ystyrir eu bod yn peri risg na fydd darparwyr yn cyflawni eu targedau cytundebol. Roedd y cyfranogwyr yn cytuno'n

[5] Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n datblygu prosiect peilot o fewn y rhaglen hyfforddeiaeth bresennol, i brofi a threialu dulliau newydd gyda'r nod o wella canlyniadau i bobl ifanc ag anableddau dysgu. Mae TSC+Mwy wedi cynyddu'r cyllid ar gyfer Cymorth Dysgu Ychwanegol a byddwn yn mesur contractwyr yn erbyn y maes gwariant hwn.

gyffredinol y dylid rhoi mwy o gydnabyddiaeth i'r camau cynyddol mewn dysgu a chyflogadwyedd y mae darparwyr yn cefnogi pobl ifanc i'w cymryd, yn cynnwys meithrin sgiliau cyffredinol / meddal. Nododd un cyfranogwr:

> *"I rai o'r bobl ifanc hyn, mae ymgysylltu ynddo'i hun yn hanfodol."* (Cyfranogwr o awdurdod lleol)

Yn yr un modd, roedd y cyfranogwyr yn feirniadol o rai agweddau ar y model pum haen, gan ddadlau nad yw'n cydnabod yn ddigonol y mathau o ymgysylltu a all gynrychioli datblygiad sylweddol i rai pobl ifanc.

**Mae angen mwy o ddarpariaeth a darpariaeth ehangach er mwyn adlewyrchu anghenion amrywiol pobl ifanc.** Ynghyd â'r drafodaeth am Hyfforddeiaethau a nodir uchod, nododd y cyfranogwyr bod angen cyffredinol am fwy o ddarpariaeth a darpariaeth fwy amrywiol, wedi'i theilwra i anghenion y rheini sydd wedi ymddieithrio neu sydd mewn perygl o ymddieithrio. Dylid dechrau drwy gydnabod nad yw darpariaeth brif ffrwd yn gweithio i bawb. Awgrymwyd sawl ffordd o fynd i'r afael â'r angen hwn, yn cynnwys: mwy o rôl i'r sector gwaith ieuenctid gwirfoddol a datblygu cyfleoedd profiad gwaith a lleoliadau gwaith mewn sefydliadau sector cyhoeddus. Yn benodol, cafwyd cefnogaeth gref i ddatblygu mwy o gyfleoedd gyrfaoedd mewn hunangyflogaeth. Teimlwyd nad oedd yr adnodd hwn wedi'i ddatblygu'n ddigonol ac y byddai rhai pobl ifanc yn ymateb yn dda i'r math hwn o gyfle.

**Mae'n rhaid i bobl ifanc gael llais go iawn yn y broses o ddylunio a chyflwyno'r ddarpariaeth.** Nodwyd sawl gwaith y dylid gwneud hyn mewn modd parhaus a chyson, a bod angen iddo lywio gwaith cynllunio a datblygu strategol yn ogystal â darpariaeth weithredol.

### 4.4 Gwybodaeth, cyngor ac arweiniad

Trafododd y cyfranogwyr a yw pobl ifanc sydd mewn perygl o fod yn NEET yn cael y wybodaeth, y cyngor a'r arweiniad sydd eu hangen arnynt i wneud dewisiadau hyddysg yn y cyfnod pontio i addysg a hyfforddiant ôl-16.

**Ar y cyfan, awgrymodd y cyfranogwyr y dylai'r gwasanaeth gwybodaeth, cyngor ac arweiniad ar gyfer pobl ifanc yng Nghymru gael ei ystyried fel cryfder yn y system.** Mae'r sylwadau canlynol yn adlewyrchu'r neges gadarnhaol ar y cyfan:

> *"Rydyn i'n lwcus i gael y cyngor a'r arweiniad a gawn, gan fod gennyn ni Gyrfa Cymru."* (Cyfranogwr o awdurdod lleol)
>
> *"Mae'r cyngor gyrfaoedd yn hanfodol ac yn wych ar y cyfan."* (Cyfranogwr o awdurdod lleol)

Nodwyd bod Gweithwyr Allweddol yn chwarae rôl hanfodol yn y broses o gyfeirio pobl ifanc at wasanaethau gwybodaeth, cyngor ac arweiniad ac yn eu helpu i gael gafael ar y rhain pan fydd angen. Rhoddodd cyfranogwr o Gyrfa Cymru enghraifft o ddarpariaeth y maent yn ei datblygu sydd wedi'i theilwra tuag at gefnogi cyfnodau pontio'n llwyddiannus:

> *"Yn ddiweddar, rydym wedi cynnal cynllun peilot yn rhanbarth y de-ddwyrain gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau mewn perthynas â thaith cwsmer ifanc. Fel rhan o'u taith cwsmer ifanc 18-24 oed, caiff atgyfeiriad ei wneud i Cymru'n Gweithio fel y gall pob un ohonynt gael cyfweliad i roi arweiniad / asesiadau sgiliau â chynghorydd gyrfaoedd ac mae hynny'n gweithio'n dda iawn. Mae wedi cael adborth cadarnhaol iawn. Mae cydberthnasau gwaith agos iawn yn cael eu meithrin â'r Adran Gwaith a Phensiynau."* (Cyfranogwr o Gyrfa Cymru)

Ar yr un pryd, tynnodd cyfranogwyr sylw at sawl maes lle gellid atgyfnerthu'r ddarpariaeth gwybodaeth, cyngor ac arweiniad.

- Yng nghyd-destun y Fframwaith, **mae angen i wybodaeth am y farchnad lafur fod yn lleol gan nodi'r sectorau, y meysydd galwedigaethol a'r rolau lle mae cyfleoedd yn bodoli.** Er enghraifft, nid yw'n ddefnyddiol gwybod bod diffyg sgiliau strategol yn y diwydiannau creadigol yng Nghymru. Mae'n well gwybod bod angen criw ffilm a theledu yng Nghaerdydd.
- Mae angen gwneud rhagor o waith i **godi ymwybyddiaeth ymysg pobl ifanc ynghylch yr amrywiaeth o gyfleoedd sy'n bodoli mewn sectorau gwahanol.** Nodwyd hyn gan sawl cyfranogwr fel un o ofynion sylfaenol gwella dyheadau a meithrin dealltwriaeth pobl ifanc o'r rolau rhagarweiniol a allai eu helpu i gael gwaith mewn sectorau gwahanol. Ochr yn ochr â hyn, nodwyd bod rhai sectorau blaenoriaeth wedi codi pryderon ynghylch canfyddiadau o'r sectorau nad ydynt yn seiliedig ar wybodaeth gyfoes.

Nodwyd hefyd y grwpiau allweddol canlynol y ceir bylchau yn y ddarpariaeth gwybodaeth, cyngor ac arweiniad ar eu cyfer ar hyn o bryd.

- Yn aml, nid yw pobl ifanc anabl, yn enwedig y rheini sydd ag anawsterau dysgu neu awtistiaeth, yn cael gwybodaeth, cyngor ac arweiniad ar yr amrywiaeth lawn o gyfleoedd sydd ar gael iddynt[6]. Nododd un cyfranogwr:

  > *"Yn rhy aml, byddwch chi'n parhau ym myd addysg neu'n mynd i wasanaethau dydd. Dyw'r opsiwn o gael hyfforddeiaeth neu interneiaeth neu hyd yn oed o gael swydd ddim yn cael ei ystyried. Ac mae hynny'n wir drwyddi draw. Dylid*

---

[6] Mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu cyflwyno prosiectau peilot Hyfforddiant Swydd â Chymorth yn 2021/22 gyda'r nod o wella cymorth i bobl ifanc sydd â nam dysgu a/neu anhwylderau yn y sbectrwm awtistig, ar ei rhaglenni Hyfforddeiaethau a Phrentisiaethau presennol. Bydd y canfyddiadau o'r cynlluniau peilot hyn yn llywio rhaglenni yn y dyfodol.

*rhoi'r holl opsiynau gerbron y person ifanc a'i helpu i weld beth sy'n bosibl o gael y cymorth cywir.”* (Cyfranogwr o goleg)

Cafodd y sefyllfa hon ei disgrifio fel un argyfyngus i bobl ifanc sy'n gadael darpariaeth coleg arbenigol, pan all y sgiliau a gaffaelwyd mewn lleoliadau ôl-16 mewn coleg arbenigol gael eu colli. Awgrymwyd bod cyfle i weithio mewn modd llawer mwy cydgysylltiedig rhwng colegau arbenigol, awdurdodau lleol a gwasanaethau gwybodaeth, cyngor ac arweiniad, yn cynnwys hyfforddwyr swyddi arbenigol i gefnogi prosesau effeithiol o wneud penderfyniadau a chyfnodau pontio. Nodwyd bod Llywodraeth Cymru wrthi'n ystyried rhaglen beilot i archwilio ffyrdd o fynd i'r afael â rhai o'r materion a godwyd.

- **Pobl ifanc nad ydynt yn yr ysgol.** Mae'r adborth yn awgrymu bod mynediad i gyngor gyrfaoedd i'r rheini nad ydynt yn yr ysgol yn anghyson ledled Cymru. Mewn rhai ardaloedd lleol, dim ond os byddant yn yr ysgol y gall pobl ifanc gael gafael ar gyngor gyrfaoedd, ac mewn ardaloedd eraill, mae Gyrfa Cymru a'r gwasanaeth ieuenctid wedi datblygu dulliau o gyrraedd y rheini sydd y tu allan i leoliadau ysgol, fel cynnal gweithdai allgymorth yn y gymuned (er nad yw'r rhain wedi bod yn mynd rhagddynt oherwydd Covid-19). Nododd y cyfranogwyr fod bylchau penodol ynghylch y rheini sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref, y rheini sydd wedi'u gwahardd, neu'r rheini sydd wedi'u hynysu gartref ac sydd wedi ymddieithrio yn ystod y pandemig.
- **Pobl ifanc ag anghenion iechyd meddwl neu sydd mewn perygl o fod yn ddigartref.** Nododd y cyfranogwyr y dylid cyflwyno gwybodaeth, cyngor ac arweiniad ar gyfer addysg, cyflogaeth a hyfforddiant mewn modd integredig ag arweiniad a chymorth ar dai ac iechyd meddwl, a nodwyd bod rhywfaint o'r math hwn o waith wedi'i ddatblygu drwy'r Grant Cymorth Ieuenctid. Gwelwyd tystiolaeth o barodrwydd i ddatblygu arlwy mwy integredig yn ystod y trafodaethau ac mae hwn yn faes y gellid ei ystyried yn fanylach wrth ddrafftio'r Fframwaith diwygiedig.

### 4.5 Ymgysylltu â chyflogwyr

Trafododd y cyfranogwyr y modd y gallent ymgysylltu'n well â chyflogwyr i greu cyfleoedd i bobl ifanc.

Roedd y cyfranogwyr yn cytuno bod cyflogwyr fel arfer yn awyddus i ymgysylltu â phobl ifanc, ond bod rhwystrau y mae angen mynd i'r afael â nhw. Gwnaethant nodi amrywiaeth o faterion y dylid eu hystyried ac enghreifftiau o arferion effeithiol.

- **O safbwynt cyflogwr, mae angen i raglenni cyflogadwyedd ei gwneud yn haws iddynt ymgysylltu.** Nodwyd rhaglen Kickstart fel enghraifft gan y cyfranogwyr, gan mai dim ond cwmnïau cyfyngedig oedd yn gallu bod yn rhan ohoni ar y dechrau a bod hynny'n allgáu nifer mawr o gyflogwyr oedd am gymryd rhan o bosibl. Nodwyd bod yr Adran Gwaith a Phensiynau wrthi'n datblygu ffyrdd o gynnwys mathau eraill o fusnesau drwy elfen ‘Gateway Plus’ y rhaglen.

- Ar lefel fwy cyffredinol, **awgrymodd y cyfranogwyr mai adnoddau a'r her o gydgysylltu yw'r prif rwystrau i ymgysylltu â chyflogwyr.** Gwnaethant gyfeirio at amrywiaeth o weithgareddau a gynhelir yn lleol sydd wedi'u dylunio i oresgyn yr heriau hyn drwy hwyluso cysylltiadau rhwng cyflogwyr a phobl ifanc. Er enghraifft, disgrifiodd cyfranogwr o awdurdod lleol sut mae swyddog cyswllt cyflogaeth yn gweithio ar draws eu prosiectau cyflogadwyedd gan feithrin cysylltiadau â busnesau yn yr ardal awdurdod lleol ac yn rhanbarthol, gan geisio dod o hyd i gyfleoedd i'r bobl ifanc.
- **Dylid cymell cyflogwyr i gynnig cyfleoedd i bobl ifanc sy'n NEET neu sydd mewn perygl o fod yn NEET.** Pwysleisiwyd bod y pandemig wedi creu marchnad prynwyr yn y farchnad lafur. Yn y cyd-destun hwn, gall cynnig cymorth yn y gwaith i bobl ifanc ynghyd â chymorth i gyflogwyr sy'n derbyn pobl ifanc â lefelau is o sgiliau, cymwysterau a phrofiad fod yn hanfodol er mwyn lleihau'r ymdeimlad o risg i gyflogwyr.

  *"Mae angen i gyflogwyr ddeall bod yna grŵp o bobl ifanc y mae angen iddyn nhw fentro mewn perthynas â nhw, a chael y cymorth hwnnw yn y gwaith. Mae angen iddyn nhw ddeall, os byddan nhw'n hysbysebu swydd, y byddan nhw'n cael 50 o ymgeiswyr, ac y bydd gan 40 o'r rheini gymwysterau lefel 5 ac uwch."* (Cyfranogwr ITP)

- **Datblygu negeseuon pwerus i gyflogwyr am werth a buddiannau ymgysylltu i fusnesau.** Disgrifiodd y cyfranogwyr raglenni sy'n dwyn ysgolion uwchradd a busnesau ynghyd, sy'n ymgysylltu â chyflogwyr drwy rannu negeseuon allweddol am yr ardal leol (o ran iaith, daearyddiaeth a sectorau) ac am ddatblygu llif o staff talentog. Awgrymwyd hefyd fod potensial i ymgysylltu â chyflogwyr ynghylch sicrhau mwy o amrywiaeth yn eu gweithlu, yn cynnwys hyrwyddo buddiannau cyflwyno safbwyntiau gwahanol a syniadau newydd i mewn i'r busnes. Eto, nodwyd y gall darparu cymorth cofleidiol i'r cyflogwyr a'r cyflogai fod yn hanfodol yn y cyd-destun hwn, oherwydd gall cyflogwyr ystyried bod derbyn person ifanc yn peri risg ac y bydd yn arwain at gost ychwanegol.
- **Gweithio gyda sefydliadau partner sydd mewn cysylltiad â busnesau lleol.** Disgrifiodd cyfranogwr o awdurdod lleol, drwy ei waith yn rheoli ac yn goruchwylio partneriaeth y Fframwaith, y modd y mae wedi datblygu cysylltiadau cryf â'i adran Amgylchedd ac Adfywio sydd eisoes â fforymau busnes a chyflogwyr sefydledig. Drwy hyn, mae wedi gallu nodi lle mae cyfleoedd yn bodoli i ymgysylltu â chyflogwyr unigol ar draws amrywiaeth o raglenni cyflogadwyedd.

### 4.6 Gwersi a ddysgwyd o ran darpariaeth o'r pandemig

Gofynnwyd i'r cyfranogwyr nodi a wnaeth y pandemig ddysgu unrhyw wersi iddynt am y modelau cyflwyno gwahanol sy'n berthnasol i'r Fframwaith, yn benodol addasrwydd dulliau ar-lein a chyfunol.

Roedd yr adborth yn gymharol fyr ond mae'n awgrymu darlun cymysg iawn. **Nododd y cyfranogwyr fod rhai pobl ifanc wedi croesawu dysgu cyfunol ac ar-lein a'u bod yn**

**ymgymryd ag ef yn fwy effeithiol na dulliau wyneb yn wyneb.** Maent yn croesawu'r hyblygrwydd, yn enwedig pan fyddant yn wynebu heriau fel diffyg cwsg, ac mae'n cyd-fynd â'r ffaith bod yn well ganddynt fod gartref nag mewn amgylchedd addysg neu hyfforddiant ffurfiol. Dywedodd sawl cyfranogwr y byddent yn hoffi pe byddent wedi dechrau gweithio yn y modd hwn yn gynharach.

> *"Mae rhai pobl ifanc yn llawer mwy cyfforddus yn eistedd yn eu cartref eu hunain yn cael sgwrs rithiol â chi, neu'n gallu gwneud hynny o fewn eu hamserlenni eu hunain sy'n addas ar gyfer eu bywyd."* (Cyfranogwr o awdurdod lleol)

Nododd y cyfranogwyr fod pobl ifanc ar y cyfan wedi bod yn barod i gael cymorth drwy ddulliau digidol fel neges destun neu WhatsApp yn hytrach na dros y ffôn ac efallai eu bod yn cymryd rhan mewn cyfarfodydd unigol ar-lein, er nad ydynt am ddefnyddio gwe gamera. Nododd un cyfranogwr ei fod wedi gallu ymgysylltu â rhai pobl ifanc a oedd yn amharod i ymateb wyneb yn wyneb.

Fodd bynnag, nodwyd hefyd **nad yw modelau ar-lein a chyfunol yn gweithio i bob dysgwr ac y gall arwain at ymddieithrio ac allgáu mewn gwirionedd.** Nododd sawl cyfranogwr eu bod o'r farn bod gormod o dybiaethau wedi'u gwneud ar ddechrau'r pandemig ynghylch pa mor barod y byddai pobl ifanc i ymgysylltu drwy ddulliau digidol. Pwysleisiwyd bod gallu defnyddio ffôn clyfar ar gyfer cysylltiadau personol a'r cyfryngau cymdeithasol yn wahanol iawn i allu cael mynediad i ddulliau dysgu ar-lein.

> *"I rai o'r bobl ifanc sydd wedi cael y mynediad digidol, mae wedi gweithio'n dda iawn. Ond wedyn, mae pobl ifanc eraill sydd wedi mynd hyd yn oed yn fwy ynysig nag o'r blaen. Ac mewn rhai achosion maen nhw wedi colli rhai o'r sgiliau meddal hynny roeddent wedi'u meithrin drwy'r rhaglen. Felly mae cymysgedd llwyr."* (Cyfranogwr o awdurdod lleol)

Ar y cyfan, roedd cyfranogwyr o'r farn bod dysgu ar-lein wedi siomi llawer o bobl ifanc sydd wedi ymddieithrio, a hyd yn oed i'r rheini a oedd yn awyddus ar y dechrau, ceir arwyddion o flinder ar-lein.

**Nodwyd bod allgáu digidol yn ffactor allweddol sy'n golygu bod modelau ar-lein a chyfunol yn addas i rai pobl ifanc.** Disgrifiodd sawl cyfranogwr y modd roeddent wedi ceisio darparu dyfeisiau digidol i ddysgwyr, ond na lwyddwyd i wneud hyn gan nad oedd gan aelwydydd y sgiliau digidol na'r mynediad i seilwaith digidol i'w defnyddio. Nodwyd bod tlodi economaidd a natur wledig yn ffactorau allweddol sy'n aml yn gysylltiedig ag allgáu digidol. Amcangyfrifodd un cyfranogwr fod 90% o'u dysgwyr wedi'u hallgáu'n ddigidol a bod hyn wedi ychwanegu at orbryder dysgwyr am na allant ymgysylltu. Roedd eraill yn cytuno eu bod, yn ystod y pandemig, wedi darganfod faint o'u dysgwyr sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol, er y dylid nodi hefyd fod llawer o ddysgwyr sy'n agored i niwed wedi gallu mynd i'r ysgol yn ystod y cyfyngiadau symud.

Cafwyd cytundeb cyffredinol hefyd fod pobl ifanc sydd ag amgylcheddau cartref anodd ac anghefnogol am gael y cyswllt a ddaw law yn llaw â mynd i ganolfan a chymysgu â'u cyfoedion.  Mae'r pandemig wedi dangos na all rhai dysgwyr sy'n wynebu'r perygl mwyaf o fod yn NEET ymgysylltu pan na fydd ganddynt le ffisegol i fynd iddo a chael mynediad i ddysgu a chymorth. Wrth i'r cyfyngiadau symud lacio, nododd rhai cyfranogwyr eu bod wedi bod yn datblygu dulliau newydd fel "cerdded a siarad" i adfer y broses o roi cymorth wyneb yn wyneb.

Ar y cyfan, roedd y cyfranogwyr o'r farn y dylid rhoi pwyslais ar ddeall pa fodelau darparu sy'n gweithio i unigolion ac ymateb i hynny.

> *"Nid oes un dull sy'n addas i bawb. Mae angen bod yn hyblyg i ddiwallu anghenion y dysgwyr.  Byddwn ni'n parhau i ddefnyddio'r dull cyfunol, ond mewn ffordd sy'n briodol i'r dysgwyr. Mae cynnydd mawr wedi'i wneud, ond nid yw cystal â chymorth wyneb yn wyneb."* (Cyfranogwr o goleg AB)

# Atodiad

## Atodiad A: Cwestiynau'r ymgynghoriad a ddefnyddiwyd yn y gweithdai thematig

### Nodi'n gynnar:

1. Gan fyfyrio ar y meini prawf / newidynnau a ddefnyddir ar hyn o bryd, pa newidiadau y gellid eu gwneud i wella prosesau nodi'n gynnar? Mae cyrhaeddiad, gwaharddiadau a phresenoldeb yn ddangosyddion craidd. A oes ffactorau eraill y dylid hefyd eu hystyried yn ddangosyddion craidd?

2. A fyddai'n werth cael dull cyson ar gyfer nodi'n gynnar ledled Cymru neu a ddylid parhau i roi'r hyblygrwydd hwn i awdurdodau lleol?

3. Pa heriau sy'n bodoli o ran rhannu data rhwng sefydliadau a pha anawsterau y mae hyn yn eu creu ar lefel weithredol? A oes rhwystrau allweddol yn y system y mae angen mynd i'r afael â nhw?

4. A ddylai Fframwaith diwygiedig ystyried nodi'n gynnar a beth fyddai manteision / anfanteision y dull hwn?

5. Mewn perthynas â nodi a chefnogi pobl ifanc sydd mewn perygl o fod yn ddigartref, a ddylid defnyddio'r data a gesglir i gefnogi'r maes polisi hwn? A ellid defnyddio'r data a gesglir i alluogi camau cynharach i nodi problemau iechyd meddwl a lles a thueddiadau ymysg plant iau?

### Atebolrwydd a Thracio

1. A oes llinellau atebolrwydd clir ar gyfer y Fframwaith cyfan ac ar gyfer llinellau unigol? Os nad oes, sut y gellid eu gwella?

2. Gan ystyried gwahanol rannau'r sector (awdurdodau lleol, ysgolion, colegau, Gyrfa Cymru, darparwyr dysgu seiliedig ar waith), a yw'n glir beth maent yn atebol amdano ac a yw hyn yn cael ei roi ar waith?

3. Sut y gallwn ni atgyfnerthu prosesau ar gyfer tracio pobl ifanc ym mhob rhan o'r Fframwaith? A oes oedrannau neu gyfnodau penodol lle nad yw'r gwaith tracio yn gweithio cystal ag y dylai? Beth am bobl ifanc 18+ oed? Os nad yw'n gweithio, beth yw'r rhwystrau?

4. Pa heriau sy'n bodoli o ran rhannu data rhwng sefydliadau a pha anawsterau y mae hyn yn eu creu ar lefel weithredol? A oes rhwystrau allweddol yn y system y mae angen mynd i'r afael â nhw?

5. Pa ystyriaeth a roddir i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol fel rhan o'r Fframwaith?

## Broceriaeth:

1. Pa mor effeithiol y caiff cymorth i bobl ifanc ei gydlynu? A oes rhwystrau neu fylchau wrth gydlynu cymorth y mae angen mynd i'r afael â nhw? Yn benodol, a oes bylchau ar oedrannau / cyfnodau gwahanol neu ar gyfer grwpiau penodol o bobl ifanc?
2. Pa heriau a wynebir wrth neilltuo Gweithwyr Arweiniol. A yw Gweithwyr Arweiniol yn gallu diwallu anghenion byrdymor pobl ifanc ac adeiladu cadernid hirdymor?
3. Sut y gallwn helpu i atgyfnerthu ymhellach y diwylliant o wella ar draws y llinyn hwn? Er enghraifft, a oes gwersi'n cael eu dysgu lle nad yw'r ymyriadau'n llwyddo? A oes digon o gyfleoedd i rannu arferion gorau a sut y gallwn ymgysylltu'n well â phobl ifanc wrth ddylunio a darparu gwasanaeth?

## Cyflogadwyedd:

1. Beth yn fwy y gellir ei wneud i weithio gyda phartneriaid er mwyn gwella canlyniadau i bobl ifanc? Sut y gall pob partner sicrhau bod anghenion parhaus pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn cael eu diwallu a'u bod yn cael eu cefnogi'n briodol ar gamau gwahanol o'u datblygiad?
2. Sut y gallwn ymgysylltu'n well â chyflogwyr i greu mwy o gyfleoedd i bobl ifanc? Beth yw'r rhwystrau i ymgysylltu â chyflogwyr?
3. Sut y gellir integreiddio'r Fframwaith â Twf Swyddi Cymru+ a sut y gellir creu llwybr clir ar gyfer datblygu a symud ymlaen i raglenni cyflogadwyedd eraill? Yn eich barn chi, sut mae'r Fframwaith a'r atgyfeiriadau drwy Cymru'n Gweithio i Twf Swyddi Cymru+ yn gweithio'n ymarferol?

## Darpariaeth:

1. Gan ystyried y Fframwaith cyfan, a oes meysydd penodol lle mae'r ddarpariaeth a'r effaith wedi bod yn gryf? A oes meysydd penodol lle nad yw'r perfformiad wedi bod cystal, ac y gellid ei wella?
2. Beth y gall Llywodraeth Cymru ei wneud yn well neu'n wahanol i wella effeithiolrwydd y Fframwaith (er enghraifft, un maes a godwyd gan y rhanddeiliaid oedd cydlynu'r broses o rannu data yn fwy effeithiol)?
3. A oes cyfleoedd i'r Fframwaith gael ei integreiddio'n well â meysydd polisi eraill? Yn benodol, sut y gellid defnyddio'r data a gesglir ar bobl ifanc sydd mewn perygl o fod yn NEET i gefnogi polisi ynghylch digartrefedd ac iechyd meddwl ymysg

pobl ifanc? Sut y gallwn sicrhau, lle y nodir bod pobl ifanc yn agored i niwed, bod y wybodaeth hon yn cael ei rhannu'n well (yn cynnwys rhwng timau gwahanol o fewn awdurdod lleol)?

4. Sut y bydd angen i'r Fframwaith newid er mwyn adlewyrchu'r amgylchedd polisi newydd? Yn benodol, sut y gellir ei atgyfnerthu i adlewyrchu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a beth yw goblygiadau'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol newydd?

## Atodiad B: Model Pum Haen

Cyfeiriwyd yn helaeth at y Model Pum Haen yn y gweithdai i randdeiliaid ac mae'n elfen bwysig o'r Fframwaith. Mae'r pum haen yn adlewyrchu statws y bobl ifanc ac mae'n helpu i bennu lefel y cymorth sydd ei angen arnynt.

| |
|---|
| **Haen 5 –** Pobl Ifanc mewn Addysg, Cyflogaeth a Hyfforddiant |
| **Haen 4** – Pobl Ifanc sydd mewn perygl o roi'r gorau i addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant |
| **Haen 3** – Pobl ifanc ddi-waith 16 a 17 oed y gŵyr Gyrfa Cymru amdanynt |
| **Haen 2** – Pobl ifanc ddi-waith 16 a 17 oed, y gŵyr Gyrfa Cymru amdanynt, nad ydynt ar gael i ddechrau addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (e.e. salwch, gofalwyr ifanc, beichiogrwydd, yn y ddalfa neu bobl ifanc sy'n wynebu rhwystrau sylweddol neu luosog sy'n gofyn am gymorth personol dwys) |
| **Haen 1** – Statws anhysbys ar adeg gadael gwasanaethau Gyrfa Cymru |

## Atodiad C: Ymgynghoriad â Phobl Ifanc

Mae'r adroddiad gan Goleg Gŵyr Abertawe isod. Nodwyd prif thema'r ymgynghoriad â phobl ifanc yn y prif adroddiad. Mae'r Atodiad yn rhoi rhagor o fanylion o'r ymgynghoriad ynghylch y prif gwestiynau a ofynnwyd yn yr arolwg a thrwy'r grwpiau ffocws.

# Crynodeb Gweithredol

Gan gydweithio â'r Sefydliad Dysgu a Gwaith, comisiynwyd Coleg Gŵyr Abertawe i gynnal gweithgareddau ymgynghori â phobl ifanc fel rhan o ymgynghoriad ehangach â rhanddeiliaid i lywio adolygiad Llywodraeth Cymru o'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid.

Nod yr ymgynghoriad oedd ysgogi adborth ar y modd y gall Llywodraeth Cymru atgyfnerthu dulliau o atal pobl ifanc rhag mynd yn NEET, ac ystyried meysydd eraill a all greu rhwystrau (fel iechyd meddwl a lles ac atal digartrefedd ymysg pobl ifanc) er mwyn adlewyrchu blaenoriaethau a dulliau gweithredu o ran polisïau cenedlaethol. Wrth gynnal yr ymgynghoriad, roedd yn ystyriaeth bwysig i gynnwys safbwyntiau pobl ifanc a oedd wedi ymddieithrio o bosibl pan oeddent yn yr ysgol, ac sydd felly'n fwy tebygol o fod â phrofiad uniongyrchol o gael eu cefnogi drwy'r Fframwaith.

Nod yr adborth oedd nodi:

- beth sy'n gweithio yn y Fframwaith presennol a pha rannau y mae angen eu hegluro;
- pa rannau o'r Fframwaith presennol y mae angen eu diweddaru er mwyn adlewyrchu newidiadau mewn systemau a phrosesau a chyd-destunau polisi ehangach;
- sut y gall Llywodraeth Cymru atgyfnerthu dulliau o atal pobl ifanc rhag mynd yn NEET;
- sut y gellid atgyfnerthu systemau a phrosesau'r Fframwaith i gefnogi pobl ifanc i oresgyn rhwystrau eraill, drwy gefnogi eu hiechyd meddwl a'u lles ac atal digartrefedd ymysg pobl ifanc; a
- heriau a thensiynau posibl y dylid mynd i'r afael â nhw wrth gyflwyno'r Fframwaith wedi'i ddiweddaru.

Defnyddiwyd cyfuniad o ddulliau i gasglu'r wybodaeth ofynnol, yn cynnwys grwpiau ffocws wedi'u hwyluso, cyfweliadau un i un a phorth ymgynghori ar-lein. Cysylltwyd ag amrywiaeth eang o sefydliadau sy'n cefnogi pobl ifanc i weld a fyddai ganddynt ddiddordeb mewn cynnal grwpiau ffocws. Yn y digwyddiad, colegau addysg bellach a darparwyr hyfforddiant preifat oedd y sefydliadau a fynegodd ddiddordeb mewn gwneud hyn.

# Trosolwg o'r Fethodoleg

Yn ystod y broses ymgynghori, casglwyd y data a'r ymatebion a drafodir isod gan ddefnyddio tri dull ar wahân.

Y dull cyntaf a ddefnyddiwyd oedd **sesiynau grŵp ffocws wedi'u hwyluso** gyda phobl ifanc a drefnwyd ac a ddarparwyd drwy Microsoft Teams ac eithrio un sesiwn wyneb yn wyneb.Roedd y sesiynau hyn ar ffurf cyflwyniad a gynlluniwyd i gyflwyno'r Fframwaith mewn modd hygyrch, wedi'u dilyn gan drafodaeth wedi'i hwyluso yn seiliedig ar gyfres o gwestiynau safonol. Roedd y sesiynau hyn rhwng 1 a 2 awr o hyd a chymerwyd nodiadau manwl er mwyn cofnodi'r adborth.

Yr ail ddull a ddefnyddiwyd oedd **cyfweliadau unigol** gydag unigolion a nodwyd yn ystod y sesiynau grŵp, yr oedd ganddynt ddiddordeb mewn rhoi adborth manwl pellach yn seiliedig ar eu hamgylchiadau unigol neu lle nad oedd yn ymarferol cynnal sesiwn grŵp.

Yn drydydd, casglwyd gwybodaeth mewn modd mwy cyffredinol drwy ddefnyddio **porth ar-lein**, a oedd yn cynnig deunyddiau hygyrch sy'n esbonio cefndir yr ymgynghoriad a throsolwg o'r Fframwaith, gan geisio adborth drwy holiadur ar-lein gan ddefnyddio'r un cwestiynau safonol a ddefnyddiwyd yn y sesiynau grŵp a'r cyfweliadau unigol.

## Grwpiau Ffocws:

Yn ystod y sesiynau grŵp ffocws, gwnaethom ymgysylltu â 51 o bobl ifanc 16-22 oed, yr oedd 17 ohonynt yn ferched a 34 yn ddynion. Cafodd cyfanswm o chwe grŵp ffocws eu hwyluso, yr oedd pedwar ohonynt gyda phobl ifanc sy'n astudio yn y coleg (Coleg Sir Benfro a Choleg Gŵyr Abertawe) a'r ddau arall gyda phobl ifanc sy'n ymgysylltu â darparwyr hyfforddiant yn y gwaith (ITEC a Chyngor Gwledig Llanelli). Roedd y sesiynau rhwng 1 a 2 awr o hyd.

## Cyfweliadau unigol:

Cynhaliwyd cyfweliadau unigol â'r unigolion canlynol ac roeddent rhwng 60 a 90 munud o hyd:

Gwryw, 22 oed, wedi'i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn ardal Llanelli, wedi graddio o'r brifysgol.

Benyw, 16 oed, wedi gadael addysg uwchradd yn Llanelli heb gymwysterau.

Gwryw, 17 oed, wedi'i wahardd o ysgol yng Nghaerdydd yn 14 oed, wedi mynychu ITEC, yn gweithio tuag at brentisiaeth.

Benyw, 17 oed, ganed yn Somalia, wedi'i haddysgu yn Uganda, wedi symud i Gaerdydd yn 14 oed.

## Porth Ar-lein:

Yn ystod y cyfnod ymgynghori o bedair wythnos, cawsom 49 o ymatebion unigol drwy'r porth ar-lein, ac oherwydd natur y cwestiynau a ofynnwyd, arweiniodd y rhain at gyfuniad o ddata meintiol ac ansoddol.

# Canfyddiadau Manwl a Chrynodeb o'r Adborth

## 1. A yw'r Fframwaith yn canolbwyntio ar y pethau sydd bwysicaf i bobl ifanc?

Ar ôl dadansoddi'r data, mae'n amlwg bod y bobl ifanc a gymerodd ran yn y broses ymgynghori o'r farn, er bod y Fframwaith yn canolbwyntio ar y pethau sydd bwysicaf i bobl ifanc, fod nifer o wahaniaethau, o ran profiadau pobl ifanc, a'u canfyddiadau o'r cymorth.

Gan ddechrau â'r wybodaeth a gafwyd gan ymatebwyr i'r porth ar-lein: roedd 84% o'r ymatebwyr o'r farn bod y Fframwaith yn canolbwyntio ar y pethau sydd bwysicaf i bobl ifanc. Mae golwg manylach ar yr ymatebion yn parhau i adlewyrchu'r thema gadarnhaol hon, ac mae rhywfaint o sylwadau gan unigolion wedi'u cynnwys isod.

> *"Ydy, maen nhw'n helpu i gefnogi a lleihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn math o addysg."*
>
> *"Rwy'n credu eu bod yn canolbwyntio ar y pethau pwysicaf fel addysgu pobl ifanc."*
>
> *"Ydy, maen nhw'n gwrando ac yn derbyn yr adborth i wneud cynnydd ar faterion sy'n bwysig i bobl ifanc yn eu barn nhw".*

Fodd bynnag, mae rhai tueddiadau negyddol yn yr ymatebion a gofnodwyd gan ymatebwyr ar-lein, yn enwedig lle mae pobl ifanc yn myfyrio ar eu profiadau o addysg uwchradd.

Mae rhai o'r ymatebion negyddol hyn yn canolbwyntio ar atgofion o bwysau, straen a gorbryder ynghylch arholiadau TGAU, ac roedd rhai ymatebwyr hefyd o'r farn bod addysg yn yr ysgol uwchradd yn rhy unffurf o lawer, ac nad oes digon o ddealltwriaeth o anghenion unigol pobl ifanc. Er enghraifft:

> *"Ydy, er bod ysgolion yn rhoi llawer o bwysau ar bobl ifanc, yn enwedig o amgylch cyfnod TGAU, byddai'n dda cael cymorth yn y maes hwnnw neu sicrhau nad yw ysgolion yn rhoi straen ar eu myfyrwyr."*

*“Ydy. Er, rwy'n meddwl bod angen mwy o gymorth sy'n addas i'r myfyriwr. Mae pawb yn wahanol ac mae'n well gan rai pobl gael ffyrdd gwahanol o ddysgu.”*

Cafodd y duedd hon hefyd ei hadlewyrchu ar draws trafodaethau'r grwpiau ffocws, gyda chymysgedd o ymatebion cadarnhaol a negyddol. Fodd bynnag, yn debyg i'r wybodaeth a gofnodwyd o'r porth ar-lein, roedd yn ymddangos bod mwy o bositifrwydd o amgylch cysyniad pobl ifanc o'r cymorth a gawsant mewn addysg ôl-orfodol.

Yn ystod y trafodaethau grŵp ynghylch y cwestiwn hwn, roedd yr unigolion yn cytuno ar y cyfan bod angen mwy o gymorth cynnar i'w cadw mewn addysg a bod angen camau cyfeirio. Mynegodd un dysgwr nad oedd wedi cael y naill na'r llall pan oedd yn yr ysgol. Cafwyd nifer o sylwadau hefyd ynghylch y diffyg cymorth o gwmpas cyfnodau pontio allweddol, o ran datblygu a symud o un cyfnod i un arall ac o ran y cyfnodau pontio neu'r bylchau rhwng lleoliadau addysgol, er enghraifft pan fydd person ifanc wedi newid ysgol neu leoliad, ac yn eu plith roedd y sylwadau isod:

*“Pan symudais ysgolion ni wnaeth neb o fy hen ysgol gysylltu â fy ysgol newydd.”*

*“Cysylltodd fy athro Saesneg â'r ysgol ar fy rhan ac roedd yn gefnogol iawn. Wnaeth neb arall o'r ysgol drafferthu i wneud hynny.”*

*“Cefais chwe mis pan nad oeddwn i'n mynd i'r ysgol o gwbl, a wnaeth neb gysylltu â fy nheulu.”*

*“Dyw'r ysgol gyfun ddim yn eich paratoi chi ar gyfer y coleg.”*

Fodd bynnag, mewn un achos, cyfeiriodd unigolyn at y ffaith ei fod wedi cael cyfnod pontio cadarnhaol:

*“Pan symudais i'r [ysgol] roedd fy holl drafnidiaeth wedi cael ei threfnu, ac roedd hynny'n gwneud popeth yn llawer haws i mi.”*

Roedd ymdeimlad ymysg rhai ymatebwyr bod angen i'r Fframwaith wneud mwy er mwyn galluogi ac annog pobl ifanc i gymryd mwy o ran yn eu dewisiadau addysgol a'r modd yr oedd addysg yn gweithio iddyn nhw.

Un o themâu cyffredin eraill trafodaethau'r grwpiau ffocws oedd bod pobl ifanc yn teimlo eu bod wedi ymddieithrio o'r system ysgol am nad oeddent am fynd i'r brifysgol neu'r coleg, a hefyd nad oedd digon o gymorth i fyfyrwyr nad oeddent am ddilyn y llwybr academaidd.

Yn ogystal, roedd y mwyafrif o'r bobl ifanc y gwnaethom siarad â nhw hefyd o'r farn y dylid cael cymorth penodol i bobl sydd am weithio cyn gynted ag y gallant, ac y dylid cael cymorth â ffocws mewn addysg orfodol er mwyn helpu pobl ifanc i ddod o hyd i waith fel y gallant wneud cynnydd tuag at fod yn annibynnol. Dywedodd un unigolyn, *"Mae angen iddyn nhw sylweddoli bod rhai pobl ifanc am fynd i'r gwaith."*

## 2. Ydych chi wedi cael cymorth ychwanegol sydd wedi eich helpu i aros ym myd addysg neu hyfforddiant, neu wedi symud i mewn i gyflogaeth? Os felly, pa fath o gymorth a gawsoch chi?

Cafwyd ymateb cymysg iawn i'r cwestiwn hwn, sy'n golygu ei bod yn anodd dod i unrhyw gasgliadau cadarn, fodd bynnag, mae'r data a gasglwyd drwy'r porth ar-lein yn dangos bod y mwyafrif o'r ymatebwyr wedi cael rhyw fath o gymorth a oedd, yn eu barn nhw, yn eu helpu i aros ym myd addysg neu hyfforddiant neu i symud i mewn i gyflogaeth, gyda 65% o'r bobl ifanc yn nodi eu bod wedi cael cymorth, 25% yn dweud nad oeddent wedi cael unrhyw gymorth, ac 11% yn ymateb drwy ddweud nad oeddent yn gwybod y naill ffordd na'r llall.

Gwelwyd y patrwm hwn o anghysondeb hefyd yn ystod y sesiynau grŵp ffocws, gyda rhai unigolion yn nodi eu bod wedi cael profiadau cadarnhaol iawn o gymorth mewn addysg orfodol. Gwnaeth un unigolyn 17 oed o Lanelli ein tywys drwy ei daith cymorth wrth iddo ddatblygu drwy'r ysgol uwchradd:

> *"Roeddwn i'n cael problemau ymddygiad yn B7, a chefais gymorth ar unwaith, ac yn fy arholiadau TGAU."*
>
> *"Roeddwn i'n gorfod cael cyfarfodydd wythnosol gyda fy Nhiwtor Dosbarth, fy Mhennaeth Blwyddyn a'm Hathro Cymorth."*
>
> *"Gwnaethon nhw gysylltu â fy rhieni ar unwaith."*
>
> *"Cefais gymorth drwy'r ysgol mewn Saesneg a Mathemateg, ac roeddwn i mewn dosbarthiadau llai o faint, oedd yn well i mi."*

I'r gwrthwyneb, roedd unigolyn arall o'r un ardal, ond a aeth i ysgol wahanol, o'r farn:

> *"Roedd* [yr Ysgol Uwchradd] *yn canolbwyntio ar baratoi pawb ar gyfer y Brifysgol."*

Dywedodd yr un person ifanc wrthym fod y profiad hwn wedi golygu ei fod wedi'i ynysu oddi wrth rai o'i gyfoedion, ac roedd o'r farn bod diffyg cymorth ar gyfer y rheini sydd â diddordeb mewn llwybrau heblaw'r llwybr academaidd traddodiadol.

Roedd hefyd am ddweud wrthym am ei brofiadau o ran dull yr ysgol o gyfathrebu â'i rieni. Dywedodd wrthym ar ôl iddo ddechrau colli gwersi, bod yr ysgol wedi ceisio cysylltu â'i deulu *"am beth amser ar ôl hynny, ond bod y cysylltiad hwn wedi dod i ben yn llwyr yn y diwedd".*

Fodd bynnag, clywsom ar sawl achlysur yn ystod y sesiynau grŵp ffocws, yn enwedig gan y bobl ifanc a oedd wedi cael profiadau mwy negyddol o gymorth yn ystod eu haddysg orfodol, eu bod bellach yn teimlo rhyw lefel o gyfrifoldeb am beidio â manteisio ar gymorth pan oedd ei angen arnynt.

O blith y bobl ifanc hynny a aeth i chweched dosbarth yn eu hysgol gyfun, roedd eu hatgofion o'r cymorth yn gadarnhaol iawn ar y cyfan, a dywedodd un unigolyn wrthym:

> *"Pan oeddwn i yn y chweched dosbarth, roedd sesiynau adolygu yn cael eu cynnal ar fore'r arholiadau os oedden ni'n dymuno, ac roedden nhw'n ddefnyddiol iawn."*

> *"Doeddwn i ddim yn cael gormod o broblemau yn yr ysgol, ac roedd yr athrawon yn gymwynasgar iawn, yn enwedig yn y chweched dosbarth."*

> *"Gwnaeth yr athrawon Safon Uwch lawer o ymdrech."*

O ran cymorth mewn colegau neu ddarparwyr hyfforddiant yn y gwaith, mae rhagor o wybodaeth yn cyfeirio at brofiadau croes, er bod yr adborth yn gadarnhaol ar y cyfan ym meysydd cyflogadwyedd a chymorth ar gyfer problemau iechyd meddwl.

Roedd rhai pobl ifanc o'r farn eu bod yn cael mwy o gymorth yn y coleg, a sawl un yn priodoli hyn i well dealltwriaeth o'u hanghenion iechyd meddwl, e.e. gwybod y gall fod angen i ddysgwr gael diwrnod i ffwrdd os bydd yn cael trafferth ymdopi.

> *"Maen nhw'n eich cefnogi yn y coleg, ac mae'n gwneud i chi deimlo'n dda amdanoch chi eich hun."*

*“Rwy'n teimlo fy mod i'n cael fy nghefnogi yn y coleg, ac rwy'n gwybod pwy y galla i siarad ag ef os bydd angen cymorth arna i.”*

Hefyd, mynegodd y mwyafrif o'r ymatebwyr sy'n mynd i goleg AB eu bod o'r farn bod mwy o barch a chydraddoldeb ymysg y staff a'r dysgwyr, a bod hynny ynddo'i hun yn gwneud iddyn nhw deimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n fwy, ac felly roeddent yn fwy tebygol o barhau i barhau â'u haddysg.

Roedd y myfyrwyr y gwnaethom siarad â nhw yng Ngholeg Sir Benfro hefyd yn llawn canmoliaeth ynghylch y cymorth a gawsant o ran cyflogadwyedd, gyda llawer yn nodi bod y ‘Ganolfan Gyflogaeth’ yn ddefnyddiol iawn yn eu paratoi ar gyfer gwaith ar ôl iddynt gwblhau eu hastudiaethau neu'n eu helpu i ddod o hyd i gyflogaeth ran amser pan oeddent yn dal yn y coleg.

Clywyd stori debyg am ansawdd y cymorth cyflogadwyedd gan y myfyrwyr oedd yn mynd i Goleg Gŵyr Abertawe:

*“Es i Futures* [Canolfan Gyflogaeth] *a chefais help i ysgrifennu CV, a gwnaethon ni weithio drwy ffurflen gais gyda'n gilydd.”*

*“Mae Futures wedi bod yn wych ac yn gefnogol iawn drwy gydol y pandemig.”*

O'r unigolion hynny a arferai fynd i goleg AB ac a oedd bellach yn cael cymorth drwy ddarparwyr hyfforddiant yn y gwaith, roedd yr ymatebion yn awgrymu amrywiaeth o ran argaeledd ac ansawdd y cymorth. Mewn rhai amgylchiadau, cafwyd rhai meysydd ac unigolion eu canmol, ond yn bennaf, roedd y sylwadau'n negyddol ynghylch eu profiadau mewn perthynas â chymorth academaidd neu gymorth o ran iechyd meddwl.

Wrth gymharu'r cymorth a gânt drwy eu darparwr hyfforddiant â'r cymorth a gawsant yn y coleg, roedd yr ymatebion mwyaf cyffredin yn canolbwyntio ar hygyrchedd ac amrywiaeth y cymorth sydd ar gael iddynt yn yr amgylcheddau llai y maent yn eu profi nawr.

Er enghraifft, dywedodd aelodau'r grŵp ffocws y gwnaethom siarad â nhw yng Nghaerdydd a oedd yn mynd i ITEC am sawl enghraifft o gymorth ychwanegol a gawsant. Roedd hyn yn cynnwys cael mynediad i swyddfa cyflogadwyedd benodol a chwnselydd mewnol.

Fel y soniwyd uchod, denodd y cwestiwn hwn ymateb diddorol mewn perthynas â chysylltiad canfyddiadau cadarnhaol o gymorth â maint y dosbarth neu'r grŵp. Cododd y pwnc hwn

sawl gwaith yn y grwpiau ffocws a'r cyfweliadau, gyda llawer o bobl ifanc yn awyddus i bwysleisio eu bod o'r farn iddynt gael llawer mwy o gymorth mewn grwpiau llai, a pha mor bwysig oedd hyn i gynnal eu diddordeb yn eu barn nhw.

Yn eu hymatebion i gwestiynau diweddarach, cyfeiriodd rhai ymatebwyr hefyd yn gadarnhaol at y cymorth ychwanegol a gawsant gan y Gwasanaeth Ieuenctid neu gan y Gwasanaethau Cymdeithasol, a'r cymorth a gawsant gan Gyrfa Cymru, a chyfeiriodd eraill at y cymorth ariannol sydd ar gael e.e. drwy'r Lwfans Cynhaliaeth Addysg sy'n hanfodol i sicrhau eu bod yn parhau i ddysgu:

> *"Mae'r Lwfans Cynhaliaeth Addysg yn hollbwysig a fyddwn i ddim yn gallu mynd i'r coleg hebddo."*

## 3. Ydych chi'n teimlo eich bod yn cael eich hysbysu'n ddigonol am eich opsiynau? Os nad ydych, pam?

Roedd yr ymatebion i'r cwestiwn hwn yn amrywio ar draws y dulliau ymgynghori gwahanol, gyda gwybodaeth a gasglwyd drwy'r porth ar-lein yn dangos bod y mwyafrif helaeth o'r ymatebwyr (87%) o'r farn eu bod yn cael eu hysbysu'n ddigonol am eu hopsiynau, fel y dangosir yn y dyfyniadau canlynol:

> *"Ydw, rwyf wedi cael fy hysbysu am yr opsiynau sydd ar gael i mi."*

> *"Ydw, pan wnes i newid cwrs, cefais llawer o help gan y coleg pan oeddwn yn edrych i weld pa gwrs y gallwn ymuno ag ef."*

> *"Ydw, mae popeth wedi cael ei esbonio'n glir i mi. Rwyf wedi cael atebion i unrhyw gwestiynau ac rwy'n teimlo'n hyderus am fy newisiadau."*

Fodd bynnag, drwy edrych yn fanylach ar yr ymatebion, gwelir bod rhai wedi cael profiadau negyddol ac mae rhai o'r rhain wedi'u nodi yn y dyfyniadau isod:

> *"Rwy'n teimlo ei fod wedi cael ei esbonio mewn ffordd â'm helpodd i ddeall ond doedd gen i neb i siarad ag ef."*

> *"I raddau. Dydw i ddim yn meddwl fy mod i'n gwybod digon am yr holl opsiynau posibl sydd ar gael i mi a'r hyn a allai fy helpu i gael swydd."*

*"Nac ydw, yn fy marn i, mae cyfathrebu yn fan gwan ym myd addysg. Pan fydda i wedi cael yr opsiynau, dydw i ddim wedi deall yn llawn beth oedden nhw."*

Fodd bynnag, gan symud i'r grwpiau ffocws, mae'r darlun yr un mor negyddol mewn perthynas â'r wybodaeth yr oedd unigolion wedi'i chael yn eu haddysg gynharach ac yn benodol o ran eu hopsiynau ar adeg TGAU ac mewn addysg ôl-orfodol.

Daeth themâu cyffredinol i'r amlwg ynghylch y canfyddiad bod opsiynau'r rheini oedd yn pasio llai o arholiadau TGAU yn fwy cyfyngedig o lawer – fel y dywedodd un person ifanc yn Llanelli wrthym, "*doedd dewis pwnc ddim yn flaenoriaeth i'r dysgwyr mwy heriol",* ac roedd eraill o'r farn bod cyfyngiadau oherwydd amserlennu wedi golygu eu bod wedi dewis pynciau a oedd yn fwy seiliedig ar argaeledd yn hytrach na diddordeb neu ddewisiadau a dyheadau ar gyfer y dyfodol:

*"Roedd rhai pynciau y byddwn wedi hoffi eu cymryd (ar lefel TGAU) ond allwn i ddim am eu bod yn cyd-daro â phynciau eraill."*

*Does dim digon o opsiynau (ar lefel TGAU)."*

Mewn rhai achosion effeithiodd hyn ar brofiadau pobl ifanc o ddysgu pellach, a nododd un unigolyn *"Doeddwn i ddim yn gwybod a oeddwn i'n barod ar gyfer y coleg am nad oeddwn i'n teimlo'n hyderus yn y pynciau a ddewisais."*

Mewn rhai achosion, tynnodd yr ymatebwyr sylw at achosion penodol lle nad oedd yn ymddangos bod y dewisiadau a oedd ar gael yn cyd-fynd â chyfleoedd yn y farchnad lafur leol. Un enghraifft o hyn oedd ei bod yn ymddangos bod diffyg cyfleoedd i ymgymryd ag astudiaethau amaethyddiaeth fel y nodwyd gan berson ifanc sy'n byw yn Sir Benfro:

*"Does dim cyrsiau ffermio. Dewisais ofal anifeiliaid, ond nid dyna oeddwn i am ei wneud. Dylai fod mwy o opsiynau i bobl ifanc astudio amaethyddiaeth am ein bod ni'n byw yng Nghymru."*

Roedd thema gref arall yn ymwneud â'r oedran yr hysbyswyd pobl ifanc am eu hopsiynau TGAU ac y gofynnwyd iddynt wneud penderfyniadau arnynt, gyda llawer o'r farn nad oedd goblygiadau dewis pynciau penodol (h.y. sut y gallai hyn effeithio ar eu haddysg barhaus a'u hopsiynau cyflogaeth hirdymor) yn cael eu hesbonio'n ddigonol iddynt a sawl un yn teimlo'n gryf eu bod yn rhy ifanc i wneud penderfyniad mor fawr gyda gwybodaeth gyfyngedig, fel y dangosir yn y dyfyniadau canlynol:

*“Chefais i ddim gwybod pa raddau oedd eu hangen arna i (i fynd i'r coleg). Bu'n rhaid i mi edrych fy hun.”*

*“Roedd yn benderfyniad mawr i'w wneud yr oedran hwnnw heb wybod beth oedd ei angen arna i (yn fy arholiadau TGAU) i fynd i'r coleg.”*

I'r gwrthwyneb, nododd rhai unigolion eu bod wedi cael cymorth da, yn cynnwys un unigolyn a ddywedodd ei fod wedi dilyn cwrs ym Mlwyddyn 11 i'w helpu i benderfynu beth i'w wneud ar ôl gorffen yr ysgol, a'i helpodd i deimlo'n llawer mwy hyderus ynghylch ei lwybrau cynnydd dewisol.

Un thema dra phwysig a welwyd yn yr adborth oedd teimlad bod opsiynau TGAU yn cael eu sgiwio o blaid disgyblion mwy academaidd, gyda llawer o bobl ifanc yn tynnu sylw at y ffaith eu bod o'r farn nad oeddent wedi cael eu cefnogi, eu bod wedi cael eu hesgeuluso neu eu gadael allan wrth iddynt wneud eu dewisiadau. Siaradodd rhai unigolion am y ffaith bod eu cwynion wedi cael eu hanwybyddu yn ystod y cyfnod hwn, ac roedd eraill o'r farn bod pwysau'n cael ei roi arnynt i ddewis llwybr penodol, ni waeth ai dyna oedd y dewis cywir iddynt ai peidio:

*“Doedd ganddyn nhw (yr ysgol) ddim diddordeb ynddoch chi oni bai eich bod yn dilyn llwybr penodol.*

*“Roeddwn i'n teimlo fy mod ar fy mhen fy hun, am nad oeddwn i am fynd i'r coleg nac i'r brifysgol.”*

*“Doeddwn i ddim yn gwybod digon am fy opsiynau, ddywedodd neb wrtha i.”*

*“Ddywedodd neb wrtha i am y chweched dosbarth. Roeddwn i'n cael fy ngwthio i fynd i'r coleg.”*

*“Rwy'n gwybod mwy am fy opsiynau nawr o gymharu â'r adeg honno. Trueni nad oedd hynny'n wir yr adeg honno.”*

O ran yr opsiynau ar gyfer addysg ôl-orfodol, cafwyd cymysgedd o brofiadau eto. Fodd bynnag, yn wahanol i rywfaint o'r adborth mewn perthynas â dewisiadau ar lefel TGAU, un thema gyffredin oedd bod gormod o opsiynau mewn addysg ôl-orfodol, gyda rhai pobl ifanc yn teimlo nad oeddent yn cael eu cefnogi i benderfynu pa lwybr i'w gymryd.

Gan ystyried effaith y pandemig, roedd y mwyafrif o'r bobl ifanc y gwnaethom siarad â nhw o'r farn bod Covid-19 wedi eu rhoi dan anfantais enfawr, o ran ehangder yr opsiynau oedd ar gael iddynt, oedi o ran datblygu eu cynlluniau, ac effaith y rhyngweithio cyfyngedig ar feithrin eu sgiliau cymdeithasol ehangach a'u cyflogadwyedd cyffredinol.

## 4. Ydych chi o'r farn y dylid cynnwys meysydd fel iechyd meddwl a lles a bod mewn perygl o fod yn ddigartref yn y Fframwaith?

Arweiniodd y cwestiwn hwn at yr ymateb mwyaf diamwys ar draws yr holl ddulliau o gasglu adborth, fel y dangosir drwy'r data meintiol a gafwyd drwy'r porth ar-lein, gyda 93% o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn yn cytuno y dylid cynnwys meysydd fel iechyd meddwl a lles, a bod mewn perygl o fod yn ddigartref yn y Fframwaith, a dim un ymatebydd yn anghytuno, a dim ond 7% yn ansicr.

O safbwynt ansoddol, y cwestiwn hwn a ddenodd yr ymatebion mwyaf manwl hefyd drwy'r porth ar-lein, fel y noda'r dyfyniadau isod:

> *“Yn sicr, mae llawer o fyfyrwyr yn wynebu problemau iechyd meddwl a lles ac, yn fy marn i, byddai'n wych cael eraill i ddeall beth mae'r bobl hyn yn ei wynebu. Rwyf i'n wynebu'r problemau hyn weithiau.”*

> *“Ydw yn sicr. Yn fy marn i, mae lefelau digartrefedd wedi codi dros y 12 mis diwethaf ac mae iechyd meddwl a lles pobl wedi gwaethygu.”*

> *“Ydw, dylid eu cynnwys yn sicr am mai nhw yw'r peth pwysicaf a all atal person ifanc rhag cael yr hyn sydd ei angen arno yn ei fywyd.”*

> *“Ydw. Dyw pawb ddim yn teimlo'n ddigon cyfforddus i rannu'r hyn maen nhw'n cael trafferth ag ef, felly gallai gwrando ar eu hanghenion a'r hyn fyddai'n eu gwneud nhw'n fwy cyfforddus yn gwella eu lefelau presenoldeb a dysgu.”*

> *“Ydw, mae'r rhain yn ffactorau enfawr heddiw sydd wedi cael eu hanwybyddu ers blynyddoedd bellach. Mae angen i fwy o bobl ganolbwyntio ar y materion hyn a'u cymryd yn fwy o ddifrif.”*

Adlewyrchwyd y duedd hon hefyd drwy drafodaethau'r grwpiau ffocws ac mewn un cyfweliad unigol. O'r bobl ifanc y gwnaethom siarad â nhw, roedd y mwyafrif yn deall pwysigrwydd y

gefnogaeth ynghylch iechyd meddwl a, gyda rhai eithriadau, roeddent o'r farn y dylid ei hystyried yn agwedd hanfodol ar y cymorth a gaiff pobl ifanc i'w helpu i aros ym myd addysg ac i ddatblygu:

> *“Mae'n bwysig iawn (iechyd meddwl) a dylai fod yn rhan o'r hyn rydyn ni'n ei wneud yn yr ysgol a'r coleg.”*
>
> *“Mae angen i ni ddysgu sut i ymdopi ag ef (iechyd meddwl).”*
>
> *“Mae pobl yn cael trafferth ymdopi a dydw i ddim yn deall pam.”*

Mewn perthynas â phrofiad pobl ifanc o gael cymorth yn y meysydd hyn, nododd y mwyafrif o'r bobl ifanc y gwnaethom siarad â nhw broblemau ynghylch cael gafael ar gymorth iechyd meddwl pan oeddent yn yr ysgol, gyda sawl un yn dweud wrthym fod y gwasanaethau a oedd ar gael iddynt naill ai wedi'u gordanysgrifio â rhestrau aros hir neu fod y ddarpariaeth yn dameidiog iawn, neu nad oeddent yn teimlo'n hyderus neu'n ddigon gwybodus i wybod â phwy y dylent siarad i gael cymorth.

Fodd bynnag, roedd rhai o'r ymatebwyr yn cydymdeimlo â'r staff cymorth yn yr ysgolion, gan ddweud wrthym eu bod o'r farn bod y staff dan ormod o bwysau wrth geisio rhoi cymorth i ormod o ddysgwyr, a phobl ifanc wedyn yn gorfod aros 2 fis i weld cwnselydd:

> *“Does dim digon o gwnselwyr. Yn fy ysgol i roedd rhestr aros o 2 fis.”*
>
> *“Roeddwn i fod i gael cwnselydd. Yn y diwedd cefais i athro nad oedd yn gymwys.”*
>
> *“Clywais y gallwn i gael gwnselydd, ond gwnaethon nhw fy rhoi i mewn ystafell yn lle hynny.”*

Cawsom hefyd wybod am adegau pan oedd pobl ifanc wedi gofyn am gymorth yn yr ysgol, ond eu bod wedi cael eu hanwybyddu yn eu barn nhw:

> *“Doedd dim ots ganddyn nhw am hyn yn yr ysgol. Cawson ni un wers am fwlio neu rywbeth, a dyna ni.”*
>
> *“Doedd dim ots ganddyn nhw. Roedd myfyrwyr yn gofyn am help, a doedd dim yn digwydd.”*

Cyfeiriodd nifer o unigolion hefyd at orfod cael cymorth gan wasanaethau allanol oherwydd y rhestr aros ar gyfer cael cymorth yn yr ysgol.

*“Trefnodd fy mam i mi weld cwnselydd ar ôl i mi gael problemau yn yr ysgol.”*

Cafwyd adborth mwy cadarnhaol mewn perthynas â phrofiadau pobl ifanc mewn lleoliadau ôl-orfodol, gyda'r mwyafrif o'r bobl ifanc y gwnaethom siarad â nhw yn canmol eu profiadau o gael cymorth iechyd meddwl. Un duedd glir oedd pa mor hawdd oedd mynd at y tiwtoriaid yn y coleg, o gymharu â'r ysgol, gyda phobl ifanc yn teimlo eu bod yn gallu siarad â'u tiwtor am unrhyw broblemau a allai fod ganddynt a chanfyddiad bod y tiwtoriaid yn fwy tebygol o gynnig neu drefnu cymorth ychwanegol pan oedd angen hynny.

Nododd y bobl ifanc fod hyn yn arwain at fanteision ychwanegol nid dim ond mewn perthynas â theimlo eu bod wedi'u grymuso'n fwy i siarad am unrhyw broblemau a allai fod ganddynt, ond hefyd mewn perthynas ag effaith gadarnhaol y trafodaethau ar eu hiechyd meddwl ni waeth pa gymorth ychwanegol y gallant wedyn gael eu cyfeirio ato.

Yn ogystal, cafwyd rhai enghreifftiau cadarnhaol o'r cymorth a gafwyd gan ddysgwyr yn y coleg i'w helpu i ymdopi â straen ynghylch arholiadau ac aseiniadau, y nodwyd eu bod yn hanfodol i'w galluogi i gwblhau'r cwrs ac ennill eu cymhwyster.

## 5. A oes unrhyw beth ar goll o'r Fframwaith neu rywbeth y mae angen rhoi mwy o ffocws iddo? Sut y gellid ei wella yn eich barn chi?

Gan fod hwn yn gwestiwn mwy penagored, mae'n anodd cael dadansoddiad meintiol clir o'r data a gafwyd, ond mae themâu a thueddiadau yn dod i'r amlwg o'r ymatebion ansoddol, yn enwedig mewn perthynas â'r ddarpariaeth sydd â'r nod o sicrhau bod gan bobl ifanc yr hyn sydd ei angen arnynt ar gyfer gwaith ac ar gyfer sgiliau bywyd yn fwy cyffredinol.

Yn ystod y trafodaethau grwpiau ffocws, gwelwyd bod awydd cryf ymhlith y bobl ifanc am fwy o ffocws ar gyflogaeth, cyflogadwyedd a phrofiad gwaith. Clywsom ym mhob grŵp ffocws bod y rhan fwyaf o'r bobl ifanc o'r farn nad oeddent wedi paratoi digon ar gyfer diwedd eu haddysg, ac ar gyfer yr hyn sy'n dod nesaf. Roedd llawer o'r bobl ifanc y gwnaethom siarad â nhw o'r farn bod diffyg ffocws ar sgiliau bywyd yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, a nododd sawl un nad oeddent wedi cael llawer o wybodaeth am gyflogaeth a sgiliau ymarferol eraill.

Roedd barn glir y byddai'r bobl ifanc yn hoffi gweld y Fframwaith yn rhoi mwy o ffocws ar bwysigrwydd darparu cymorth i ddelio â materion ariannol a materion beunyddiol eraill i'w

galluogi i gael cyfnod pontio mwy gwybodus ac esmwyth i fywyd fel oedolyn, yn groes i'r hyn a ddisgrifiwyd gan un ymatebydd a ddywedodd *“mae'n nhw’n disgwyl ein bod ni'n gwybod”.* Mae'r dyfyniadau isod yn dangos y pwyntiau hyn ymhellach:

> *“Dylem ddysgu mwy o sgiliau bywyd, pethau fel treth ac ati.”*
>
> *“Dylem ddysgu sut i dalu biliau a gofalu am ein lle ein hunain.”*
>
> *“Mae angen i ni ddysgu am arian ac ati. Rydyn ni'n gwastraffu llawer o amser yn dysgu pethau nad ydyn nhw'n ddefnyddiol.”*
>
> *“Dylen ni ddysgu am dai a sut i gael eich lle eich hun.”*

Nododd llawer o bobl ifanc fod profiad gwaith yn faes lle roedd angen mwy o ffocws, cysondeb a chyfeiriad, gyda nifer o'r ymatebion yn nodi bod diffyg opsiynau profiad gwaith ystyrlon yn yr ysgol wedi golygu nad oedden nhw'n teimlo eu bod wedi paratoi'n ddigonol ar gyfer gwaith ac awgrymwyd y dylid rhoi mwy o sylw i brofiad gwaith drwy'r camau addysg gwahanol.

Roedd hwn yn fater penodol i'r unigolion hynny a oedd yn dymuno dechrau gweithio ar unwaith yn dilyn addysg orfodol, a nododd sawl un ohonynt eu bod yn teimlo nad oeddent yn cael digon o sylw na chefnogaeth wrth archwilio eu hopsiynau cyflogaeth. I rai, arweiniodd hyn a ddewis parhau ym myd addysg neu hyfforddiant yn hytrach na pharhau â'u llwybr dewisol – fel y nododd un unigolyn: *“Cefais fy ngwthio i fynd i'r coleg... doeddwn i ddim yn meddwl y gallwn i wneud unrhyw beth arall.”*

Cefnogwyd gwerth profiad gwaith ystyrlon ymhellach gan y rheini a oedd wedi cael profiad cadarnhaol, a phwysleisiodd dau ymatebydd pa mor ddylanwadol fu hyn pan aethant ati i benderfynu ar eu hopsiynau addysg ôl-orfodol, yn ogystal â'u paratoad ar gyfer byd gwaith yn y dyfodol:

> *“Helpodd (profiad gwaith) fi i benderfynu beth oeddwn i am ei wneud nesaf.”*

## 6. A fyddai lle gwarantedig mewn ysgol, coleg, hyfforddiant neu brentisiaeth yn rhoi hyder i chi a sut beth fyddai hynny?

Dangosodd yr adborth ar draws pob dull bod cytundeb cryf y byddai rhyw fath o warant

yn rhoi hyder i bobl ifanc, gyda 83% o'r ymatebwyr drwy'r porth ar-lein yn cytuno, a chafwyd amrywiaeth o sylwadau cefnogol fel y dangosir isod:

> *"Byddai'n rhyddhad gwybod bod rhywbeth yno yn hytrach na dim ond gwaith y gall fod yn anodd ei gael."*

> *"Byddai lle gwarantedig mewn ysgol neu goleg yn rhoi hyder a byddai'n fy helpu i gyda gwaith sydd gen i ar ôl i'w wneud."*

> *"Byddai'n rhoi hyder i mi wybod y byddaf yn mynd i goleg neu addysg bellach, sy'n golygu na fyddai'n rhaid i mi roi mwy o bwysau arnaf i fy hun, a byddwn i'n llai pryderus am na fyddai'n rhaid i mi boeni am wythnosau yn meddwl a oeddwn i wedi cael lle ai peidio."*

Cafwyd adborth yr un mor gadarnhaol drwy'r sesiynau grŵp ffocws a'r cyfweliadau unigol, gyda phobl ifanc yn nodi y byddent yn teimlo'n fwy hyderus pe byddai gwarant o'r fath ar waith. Yn ddigon diddorol, roedd ymdeimlad cryf y byddai gwarant o'r fath yn cynnig manteision ychwanegol o ran lleihau straen a gorbryder, gan gyfrannu'n gadarnhaol at iechyd meddwl a lles pobl ifanc, fel y dangosir yn y sylwadau isod:

> *"Gallai helpu gyda'ch iechyd meddwl, a lleihau eich gorbryder."*

> *"Byddech chi'n gwybod beth sy'n mynd i ddigwydd, byddai gennych chi sicrwydd."*

> *"Gallai hyn helpu'r rheini sy'n cael trafferth yn yr ysgol."*

> *"Pe byddai hyn yn cael ei gyflwyno'n briodol, gallai leihau llawer o straen i bobl."*

Yn yr un modd, nododd nifer o bobl ifanc fanteision ychwanegol wrth leihau rhywfaint o'r pwysau mewn perthynas â dewisiadau yn y dyfodol drwy wybod bod opsiwn gwarantedig ar gael. Roeddent hefyd o'r farn y byddai hyn yn cael effaith gadarnhaol ar eu perfformiad addysgol drwy eu galluogi i ganolbwyntio mwy ar eu hastudiaethau. Eto, nodwyd bod hyn yn fantais gadarnhaol o ran iechyd meddwl, fel y dangosir isod:

> *"Byddai hyn yn dda, oherwydd pe byddwn i'n gweithio'n galed iawn ac yn gwybod ble roeddwn i'n mynd (ar ôl yr arholiadau TGAU) byddwn i'n canolbwyntio mwy ar yr arholiadau hynny, fyddwn i ddim yn poeni cymaint am fy arholiadau TGAU eraill a byddwn i wedi wynebu llai o straen ac wedi gwneud yn well."*

Er bod yr ymateb i'r cwestiwn hwn yn gadarnhaol iawn, cododd pryder yn nifer o'r trafodaethau mewn perthynas â hyblygrwydd i newid cwrs os oedd person ifanc yn newid ei feddwl o ganlyniad i hynny neu os oedd ei amgylchiadau ehangach yn newid mewn unrhyw ffordd. Fel y dywedodd un unigolyn, *"Yn fy marn i, mae'n bwysig treulio amser yn gwneud penderfyniad fel hwn, a beth pe bawn i'n newid fy meddwl?"* Cododd lleiafrif o unigolion hefyd y posibilrwydd y gallai lle gwarantedig olygu na fyddai rhai pobl ifanc yn canolbwyntio ar eu cyflawniadau addysgol.

## 7. Beth arall y gellid ei wneud i sicrhau bod pobl ifanc yn rhan o'u cynlluniau ar gyfer y dyfodol?

Gwelwyd dwy thema glir yn yr ymateb i'r cwestiwn hwn, mewn perthynas ag ymdeimlad pobl ifanc o gymryd rhan mewn prosesau gwneud penderfyniadau ynghylch eu haddysg, ac mewn perthynas â chyfathrebu'n fwy cyffredinol.

Mynegodd y mwyafrif helaeth o'r bobl ifanc y gwnaethom siarad â nhw yr awydd i deimlo bod ganddynt fwy o ran yn y penderfyniadau a wneir am eu haddysg, ac roeddent o'r farn y gellid bod wedi atgyfnerthu hyn mewn perthynas â'r prosesau gwneud penderfyniadau yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Gwnaeth nifer o unigolion gyferbynnu eu canfyddiad o gymryd rhan ac ymdeimlad o gael mwy o reolaeth o'u haddysg yn y coleg â'u profiadau yn yr ysgol.

Roedd yr ymdeimlad hwn o reolaeth yn ffactor allweddol wrth alluogi a grymuso pobl ifanc i deimlo eu bod yn cymryd mwy o ran yn eu haddysg a'u bod yn ymddiddori fwy ynddi, gyda nifer o unigolion yn nodi y byddai hyn yn golygu y byddent yn fwy tebygol o ymgysylltu â sefydliadau eraill, fel Llywodraeth Cymru ar y materion sy'n effeithio ar eu bywydau.

O ran cyfathrebu, dywedodd y rhan fwyaf o'r bobl ifanc y gwnaethom siarad â nhw wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi'n fwy pan oedd asiantaethau allanol yn dod i siarad â nhw ac, er eu bod yn cydnabod manteision y cyfryngau cymdeithasol a mathau eraill o gyfathrebu digidol wrth gyrraedd niferoedd mawr o bobl ifanc, dywedodd y mwyafrif helaeth wrthym fod yn well ganddynt ddulliau cyfathrebu wyneb yn wyneb ar gyfer y materion oedd bwysicaf iddynt:

> *"Mae'n braf cael siarad â phobl am y pethau hyn. Mae'n gwneud i chi deimlo'n rhan o bethau."*

*“Gallwn ni siarad â phobl ar-lein, ond mae'n well gwneud hynny wyneb yn wyneb.”*

*“Mae'r cyfryngau cymdeithasol yn wych (fel dull cyfathrebu), ond allwch chi ddim gwarantu y bydd pobl yn ei gymryd o ddifrif bob amser.”*

Mynegodd nifer mawr o unigolion hefyd y farn eu bod am gael mwy o wybodaeth gan sefydliadau oedd y tu allan i'r system addysg yn eu barn nhw, gan eu bod o'r farn y byddai hyn yn arwain at gyngor mwy diduedd, yn enwedig mewn perthynas â llwybrau heblaw am lwybr addysg barhaus:

*“Mae angen i ni gael mwy o bobl yn dod i siarad â ni o'r tu allan.”*

*“Mae angen i ni gael mwy o sgyrsiau gyda mwy o bobl.”*

*“Mae'n rhaid i'r bobl sy'n siarad â ni fod yn annibynnol.”*

Awgrymodd nifer o unigolion hefyd y dylid cael staff diduedd mewn lleoliadau addysgol i weithredu fel hyrwyddwyr neu eiriolwyr er mwyn sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed. Disgrifiwyd hyn gan rai fel cyfryngwr a allai gael adborth gan ddysgwyr a'i drosglwyddo i benaethiaid ac uwch-aelodau o staff neu randdeiliaid allanol, a allai eu helpu i deimlo'n fwy cyfforddus wrth godi unrhyw broblemau a fyddai ganddynt mewn perthynas â'u haddysg.

## 8. Unrhyw adborth arall?

O ystyried cwmpas eang y cwestiynau blaenorol, prin iawn oedd yr adborth ychwanegol a gafwyd yma. Fodd bynnag, cododd ambell i thema dro ar ôl tro yn ystod y sesiynau grŵp ffocws.

I ddechrau, mewn perthynas â bwlio, nad oedd rhai ymatebwyr o'r farn bod rhai lleoliadau'n mynd i'r afael ag ef yn ddigonol. Mynegodd un unigolyn y farn bod bwlio'n cael ei wthio i un ochr mewn ysgolion, gyda gwybodaeth yn cael ei hanwybyddu ar ôl iddi gael ei rhannu ag uwch-aelodau o staff, heb unrhyw waith dilynol/tracio. Yn yr un modd, yn un o'r grwpiau ffocws, cafwyd cytundeb cyffredinol nad oedd y rheini a oedd wedi cael eu bwlio yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi, ac nad oedd llawer o waith dilynol yn digwydd ar ôl i'r materion gael eu cofnodi, a theimlad wedyn eu bod nhw eu hunain wedi gorfod delio â'r sefyllfa.

Yn ail, defnyddiodd un o'r grwpiau ffocws y cwestiwn hwn i bwysleisio'r angen am fwy o ffocws ar gyflogadwyedd mewn ysgolion, gan eu bod yn teimlo eu bod wedi cael eu siomi

gan y profiadau a gawsant. Roeddent o'r farn bod angen cynnal mwy o drafodaethau a sesiynau rheolaidd ynghylch cyflogadwyedd, a chyfleoedd profiad gwaith mwy ystyrlon.

Yn olaf, roedd un o'r bobl ifanc y gwnaethom siarad ag ef yn ystod y sesiynau grŵp ffocws, ac a gymerodd ran mewn cyfweliad unigolyn dilynol hefyd, o'r farn y dylid cael mwy o wybodaeth a chymorth i bobl ifanc oedd wedi symud i'r DU yn ystod eu haddysg.